

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

54/2109

DYDDIAD CYHOEDDI:

22/11/2019

Gwerthusiad o'r Rhaglen Ariannu Hyblyg: adroddiad terfynol

Gwerthusiad o'r Rhaglen Ariannu Hyblyg: Adroddiad Terfynol
Simon Tanner, Oliver Allies, Louise Starks

Wavehill Ltd



Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid barn Llywodraeth
Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Sara Ahmad

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau	2
Rhestr o ffigurau	3
Geirfa 4	
Crynodeb Gweithredol.....	5
Ariannu Hyblyg	5
Nodau'r gwerthusiad a'r dull	7
Prif ganfyddiadau.....	7
Awdurdodau lleol a rhanddeiliaid	7
Llywodraeth Cymru.....	10
Casgliadau.....	11
Argymhellion	14
Llywodraeth Cymru.....	14
Awdurdodau lleol a rhanddeiliaid	15
Cynnal gwaith gwerthuso yn y dyfodol sy'n:	16
1. Cyflwyniad	17
Ariannu Hyblyg	18
Y gwerthusiad	22
2. Methodoleg.....	26
Cyfyngiadau methodolegol	29
3. Dirnadaeth o lenyddiaeth polisi ac ymchwil	30
4. Dirnadaeth o weithredu a darparu	35
Cynnydd hyd yn hyn	36
Lens 1: Gweledigaeth	44
Lensys 2 a 3: Dylunio a chynllunio.....	48
Lens 4: Arweinyddiaeth drawsnewidiol	53
Lens 5: Cydweithio	56
Lens 6: Atebolrwydd	60
Lens 7: Pobl.....	63
Ffactorau allweddol wrth gynorthwyo darpariaeth lwyddiannus barhaus	66
5. Fframwaith Canlyniadau	71
6. Casgliadau.....	82

7.	Argymhellion	87
	Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru	87
	Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol a rhanddeiliaid.....	88
	Argymhellion ar gyfer cynnal gwaith gwerthuso yn y dyfodol.....	89
	Cyfeiriadau	90
	Atodiad A: Damcaniaeth Newid y Rhaglen.....	94
	Atodiad B: Fframwaith Canlyniadau – Nodau Ariannu Hyblyg Diwygiedig	96
	Atodiad C: Amserlenni Cwestiynau Cyfweld	102
	Prif Wersi a Ddysgwyd.....	104
	Atodiad D: Astudiaethau Achos wedi'u Diweddarau am Gynnydd y Rhaglen	111

Rhestr o dablau

Tabl 1.1:	Grantiau a gynhwyswyd yn null Ariannu Hyblyg 2018/19	20
Tabl 1.2:	Grantiau a gaiff eu cynnwys yn CCG a HSG	21
Tabl 2.1:	Trosolwg o gyfweiliadau a gwblhawyd yn ystod y cam olaf – Mawrth – Gorffennaf 2019.....	27
Tabl 2.2:	Trosolwg o gyfweiliadau a gwblhawyd yn ystod y cam olaf – Mawrth – Gorffennaf 2019.....	28
Tabl 4.1:	Crynodeb o weithgarwch defnyddio hyblygrwydd ariannu gan awdurdodau braenaru (7) fesul rhaglen 2018/19	40

Rhestr o ffigurau

Ffigwr 3.1: Matrics Aeddfedrwydd (Grŵp Cymheiriaid Trawsnewid 2018)	34
Ffigwr 4.1: Proffil trosolwg o awdurdodau lleol – y rhai sy'n sicrhau cynnydd da – pum awdurdod lleol (awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru)	68
Ffigwr 4.2: Proffil trosolwg o awdurdodau lleol – y rhai sy'n dangos arwyddion cadarnhaol eu bod yn sicrhau cynnydd – deuddeg awdurdod lleol (awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru)	69
Ffigwr 4.3: Proffil trosolwg o awdurdodau lleol – y rhai sy'n sicrhau cynnydd mwy cyfyngedig – tri awdurdod lleol (awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru)	70
Ffigwr 5.1: Trosolwg o'r cydgysylltiad rhwng rhannau o'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Ariannu Hyblyg	74
Ffigwr 5.2: Fframwaith Canlyniadau – Nod 1 Ariannu Hyblyg (Diwygiwyd Medi 2019)	96
Ffigwr 5.3: Fframwaith Canlyniadau – Nod 3 Ariannu Hyblyg (Diwygiwyd Medi 2019)	97
Ffigwr 5.4: Fframwaith Canlyniadau – Nod 4 Ariannu Hyblyg (Diwygiwyd Medi 2019)	98
Ffigwr 5.5: Fframwaith Canlyniadau – Nod 5a Ariannu Hyblyg (Diwygiwyd Medi 2019)	99
Ffigwr 5.6: Fframwaith Canlyniadau – Nod 5b Ariannu Hyblyg (Diwygiwyd Medi 2019)	100
Ffigwr 5.7: Fframwaith Canlyniadau – Nod 5c Ariannu Hyblyg (Diwygiwyd Medi 2019)	101

Geirfa

Acronymau/Geiriau Allweddol

ACEs

DCLG

CCG

CfW+

CRIA

EIA

EIPS

HSG

MDT

MHCLG

NAO

OBA

PAC

PPE

PSB

RBA

RCCs

RCT

RPBs

SLT

VAWDASV

VCS

CLILC

Diffiniad

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol

Grant Plant a Chymunedau

Cymunedau am Waith a Mwy

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Dynol

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Atal

Grant Cymorth Tai

Tîm Amlddisgyblaethol

Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol cyn hynny)

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Atebolrwydd yn ôl Canlyniadau

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau

Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol

Rhondda Cynon Taf

Byrddau Rhaglen Rhanbarthol

Uwch Dîm Arwain

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a

Thrais Rhywiol

Sector Gwirfoddol a Chymunedol

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Crynodeb Gweithredol

Ariannu Hyblyg

Mae'r adroddiad hwn yn darparu canfyddiadau cam olaf gwerthusiad o ddull Ariannu Hyblyg, a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Tachwedd 2019. Mae'n ychwanegu at adroddiad interim a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018 (Llywodraeth Cymru, 2018d) a oedd yn nodi argraffiadau cynnar o ddarpariaeth gychwynnol dull Ariannu Hyblyg, a arweiniwyd gan awdurdodau lleol braenaru yn bennaf (gweler isod am fanylion).

Ariannu Hyblyg yw'r dull cyfredol¹ a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n galluogi awdurdodau lleol i fabwysiadu ffordd fwy strategol o ddarparu ymyrraeth gynnar, gweithgarwch atal a chymorth. Mae'n ceisio cynnig y cyfle i awdurdodau lleol ddefnyddio gwahanol grantiau ar gyfer gweithgarwch ymyrraeth gynnar, atal, a chymorth er mwyn cydweithio, gyda'r nod o gynnig mwy o ymreolaeth i awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â chomisiynu a chynllunio ar y cyd, er mwyn cynorthwyo'r canlyniadau i breswylwyr lleol mewn ffordd well.

Aeth saith awdurdod lleol braenaru yng Nghymru, a oedd wedi enwebu eu hunain, ati i brofi dull newydd yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19: Conwy, Caerdydd, Casnewydd, Torfaen, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, a Merthyr Tudful, yn ogystal â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf². Roedd gan yr awdurdodau braenaru hyn hyblygrwydd llwyr (100% o'r gyllideb) ar draws 10 rhaglen a gyfunwyd dan un grant mewn dull peilot. At hynny, roedd Ariannu Hyblyg wedi cynnig hyblygrwydd estynedig i'r 15 awdurdod lleol yng Nghymru a oedd yn weddill ('awdurdodau lleol nad ydynt yn awdurdodau braenaru'), i symud gwerth 15% o'r cyllid ar draws pum grant (Llywodraeth Cymru, 2017) — gweler Tabl 1 am fanylion y rhaniad rhwng awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad oeddent yn awdurdodau braenaru. Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017

¹ Yn yr adroddiad interim, cyfeiriwyd at Ariannu Hyblyg fel rhaglen. Yn hytrach, dull gweithredu yw Ariannu Hyblyg sy'n defnyddio amrediad o fecanweithiau ariannu er mwyn hwyluso newid o ran y ffordd y mae awdurdodau lleol ar draws Cymru yn ariannu EIPS. Felly, trwy gydol yr adroddiad, bydd y testun yn cyfeirio at ddull Ariannu Hyblyg er mwyn cyfeirio at y mecanweithiau ariannu lluosog y mae awdurdodau lleol yn eu hadolygu a'u diwygio er mwyn ariannu'r ddarpariaeth cymorth allweddol hon ar gyfer eu preswylwyr.

² Yn cydweithio gyda Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

(Llywodraeth Cymru, 2017) y byddai'r lefelau ariannu ar gyfer Cefnogi Pobl yn cael eu cynnal yn unol ag ymrwymadau cyllideb 2017/18.

Tabl 1: Grantiau a gynhwyswyd yn null Ariannu Hyblyg 2018/19

Awdurdodau braenaru (hyblygrwydd gyda 100% o'r arian)	Awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru (hyblygrwydd gyda 15% o'r arian)
• Cefnogi Pobl • Dechrau'n Deg • Teuluoedd yn Gyntaf • Y Gronfa Waddol • Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc • Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Ysgol yn flaenorol) • Atal Digartrefedd • Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol yn flaenorol) • Cronfa Dydd Gŵyl Dewi • Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd yn flaenorol)	• Cefnogi Pobl • Dechrau'n Deg • Teuluoedd yn Gyntaf • Y Gronfa Waddol • Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd yn flaenorol)

Mewn cyhoeddiad Gweinidogol a wnaethpwyd ar 3 Hydref 2018, cadarnhawyd y byddai Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen gyda'r gwaith darparu trwy gyfrwng dull Ariannu Hyblyg a fyddai'n cynnwys dau grant, sef Grant Plant a Chymunedau (CCG) a Grant Cymorth Tai (HSG), a fyddai'n gweithredu ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru o fis Ebrill 2019 – gweler Tabl 2 am y ffordd y rhennir rhaglenni ariannu rhwng CCG a HSG.

Tabl 2: Grantiau a gaiff eu cynnwys yn CCG a HSG

CCG	HSG
• Dechrau'n Deg • Teuluoedd yn Gyntaf • Y Gronfa Waddol • Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc • Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Ysgol yn flaenorol) • Cronfa Dydd Gŵyl Dewi • Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd yn flaenorol)	• Cefnogi Pobl • Atal Digartrefedd • Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol yn flaenorol)

Nodau'r gwerthusiad a'r dull

Ym mis Ebrill 2018, yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol, comisiynwyd Wavehill gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o ddull Ariannu Hyblyg. Nod y gwaith gwerthuso yw cynnig gwybodaeth gadarn ac amserol am y gweithrediad, gan ddeall sut y bydd dull Ariannu Hyblyg yn effeithio ar gyflawni canlyniadau yn y tymor hwy.

Coladwyd cyfoeth o wybodaeth o'r 58 cyfweiliad a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr y tîm Cydweddu Ariannu (y tîm Pontio Ariannu yn flaenorol) ac arweinwyr grant mewn awdurdodau lleol (awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru), yn ogystal â gyda Llywodraeth Cymru, partneriaid a rhanddeiliaid. Mae gwaith adolygu polisi a llenyddiaeth a gweithdai a fu'n adolygu'r dewisiadau o ran Fframwaith Canlyniadau ar gyfer y rhaglen, wedi ychwanegu at hyn.

Prif ganfyddiadau

Awdurdodau lleol a rhanddeiliaid

- Mae'r cynnydd a gaiff ei sicrhau wrth ddarparu dull Ariannu Hyblyg yn parhau i fod yn amrywiol, er y llwyddwyd i sicrhau cynnydd o'r sefyllfa a nodwyd gan yr adroddiad interim ym mis Hydref 2018, a cheir enghreifftiau ar draws awdurdodau o swyddogion o'r 10 rhaglen wreiddiol yn cyfarfod er mwyn cynllunio a chyd-gomisiynu/cyd-ariannu darpariaeth.
- Mae'r enghreifftiau hyn yn llawer mwy tebygol o gael eu gweld wrth ddatblygu a gweithredu seilwaith a fframweithiau er mwyn cynorthwyo darpariaeth Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Atal (EIPS) nag mewn datblygiadau yn y gwasanaethau, lle y gwelir llai o enghreifftiau. Ar hyn o bryd, mae nifer yr enghreifftiau o ddefnyddwyr gwasanaeth yn profi gwasanaethau gwell o ganlyniad i'r newidiadau a wneir dan ddull Ariannu Hyblyg yn gyfyngedig, sy'n golygu ei bod yn ddyddiau cynnar iawn i'r datblygiadau er mwyn gweld newidiadau yn digwydd.
- Wrth ystwytho'r trefniadau ariannu mewn awdurdodau braenaru a defnyddio'r cronfeydd rhaglen hyn mewn ffordd hyblyg yn 2018/19, gwelwyd tua 1–4% o gyfanswm cronfeydd y rhaglen yn cael eu symud rhwng gwahanol raglenni. Gwelwyd hyn yn digwydd amlaf gyda'r trefniadau ariannu ar gyfer rhaglenni

Cefnogi Pobl, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Atal Digartrefedd, a Chymunedau am Waith a Mwy.

- Mewn awdurdodau lleol, mae'r enghreifftiau mwyaf nodedig lle y gwelwyd cynnydd yn cael ei sicrhau yn cynnwys:
 - mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o nodau, amcanion a natur y gwaith o ddarparu'r 10 grant a gaiff eu cynnwys yn CCG (7) a HSG (3)
 - enghreifftiau cynyddol o gydweithio neu ymgysylltu ar draws grantiau, a thrafodaeth am y cyfleoedd i wneud hyn
 - datblygu swyddogaethau cefn swyddfa, comisiynu, caffael, TG a systemau data
 - mapio dulliau presennol er mwyn darparu gwasanaeth i nodi dyblygu posibl ar draws grantiau ac unrhyw fylchau o ran yr hyn sydd ar gael
 - rhywfaint o weithgarwch ail-gomisiynu a datblygu gwasanaeth newydd yn cael ei wneud, er gwaethaf y rhwystrau ariannol a chytundebol i rywaint o weithgarwch ail-gomisiynu
 - adroddwyd am fanteision wrth gynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth yn gyflymach wrth gychwyn ac wrth orffen gyda chynnig gwasanaeth mwy cydgysylltiedig, er bod yr effeithiau disgwyltiedig yn fwy tebygol ym mlwyddyn ariannol 2019/20, neu hyd yn oes o fis Ebrill 2020.
- Mae'r dull un grant ar gyfer HSG wedi dangos canlyniadau cadarnhaol hefyd trwy ddatblygiad y cynllun a thrwy gydgyhyrchu canllawiau unigol newydd ynghylch HSG, dulliau y cytunwyd arnynt er mwyn asesu anghenion, cynllunio strategol ac adolygiadau o ddarpariaeth gwasanaethau, cydweithio a gwaith cydweithredol, a nodi ffrydiau ariannu ychwanegol, sydd wedi deillio o amrediad o waith partneriaeth a gwaith ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y trydydd sector, a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- I fwyafrif yr awdurdodau lleol (18), mae'n rhy gynnar o hyd i allu nodi a yw dull Ariannu Hyblyg yn cael effaith ar arfer gwaith neu'r gwasanaethau y mae preswylwyr lleol yn eu cael. I fwyafrif yr awdurdodau lleol (awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru), gwelir cydnabyddiaeth bod

llawer mwy i'w wneud o hyd, gan gynnwys archwilio datblygiad (pellach) datblygu'r gweithlu a threfniadau comisiynu ar y cyd.

- Nodweddir yr enghreifftiau cryfaf o gynnydd gan ddulliau Ariannu Hyblyg sy'n seiliedig ar weledigaeth glir a gweithgareddau cynllunio a dylunio manwl er mwyn pennu model darparu lleol sy'n canolbwyntio ar atebolrwydd ac arweinyddiaeth drawsnewidiol.
- Mae pum awdurdod lleol wedi sicrhau cynnydd da, neu'n dechrau sicrhau cynnydd da o leiaf. Yn yr ystyr hwn, mae cynnydd da yn nodi awdurdodau lleol sydd wedi pennu gweledigaeth glir a chynllun strategol er mwyn cynnig sylfaen i'w dull Ariannu Hyblyg, a chaiff hyn ei gynorthwyo gan drefniadau cydweithio sy'n dod i'r amlwg, strwythurau atebolrwydd clir, a rhai arwyddion cynnar y gallai fod yn haws i ddefnyddwyr gwasanaeth fanteisio ar wasanaethau sy'n berthnasol i'w hanghenion penodol.
- Mae grŵp pellach (o 12 awdurdod) yn dechrau sefydlu adolygiadau a nodi ffyrdd y gallant symud darpariaeth Ariannu Hyblyg yn ei blaen trwy'r ddau grant (CCG a HSG). Mae'n debygol y byddant yn dechrau gweld rhai enillion effeithlonrwydd yn deillio o hyn, efallai trwy waredu dyblygu wrth ddarparu gwasanaeth, neu ddarpariaeth cymorth mwy integredig trwy gyfrwng llwybrau darparu unigol.
- Fodd bynnag, nid oes tri awdurdod³ wedi gwneud fawr iawn o gynnydd o ganlyniad i brinder staff a phwysau ehangach ar eu hadnoddau ac efallai bod angen cymorth ychwanegol ar yr awdurdodau hyn gan y tîm Cydweddu Ariannu yn Llywodraeth Cymru i'w helpu i symud ymlaen yn 2019/20.

³ Ni fu modd cynnal cyfweiliadau gyda dau awdurdod lleol; oherwydd y diffyg data cyfweld, nid ydym wedi gallu eu neilltuo i grŵp penodol, er ei bod yn annhebygol bod y cynnydd wedi bod yn dda.

Llywodraeth Cymru

- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru (gan gynnwys aelodau o'r tîm Cydweddu Ariannu) yn cyfaddef eu bod 'ar daith' mewn perthynas ag Ariannu Hyblyg ac nad oes gweledigaeth gadarn ar gyfer y dull wedi cael ei chrisialu'n llawn eto.
- Ar y cyfan, mae arweinwyr rhaglen Llywodraeth Cymru yn gefnogol o gysyniad dull Ariannu Hyblyg, ond mae angen mwy o eglurder am ei ystyr o fewn Llywodraeth Cymru, y rolau a gyflawnir gan dimau rhaglen unigol a'r ffordd y caiff hyn ei gyfathrebu yn allanol.
- Mae aelodau'r tîm Cydweddu Ariannu yn awyddus i ailystyried prif weledigaeth dull Ariannu Hyblyg, a phan fo hynny'n briodol, ei hail-lunio er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd yn well gyda thimau polisi a ailstrwythurwyd yn ddiweddar.
- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru (gan gynnwys y rhai yn y tîm Cydweddu Ariannu) yn nodi sialensiau wrth gydlynu a chyfleu negeseuon cyson ynghylch sut y dylai pob rhaglen weithredu o fewn CCG a HSG, ac mae hyn wedi gwneud eu tasgau mewn perthynas â gwaith yn fwy cymhleth, er bod HSG wedi sicrhau rhywfaint o gynnydd cadarnhaol wrth ddatblygu ei dogfennaeth ar ffurf canllawiau, a gyd-gynhyrchwyd gydag amrediad o randdeiliaid allanol gan gynnwys awdurdodau lleol, y trydydd sector, a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- Mae sawl un o arweinwyr rhaglen Llywodraeth Cymru yn nodi bod nifer o awdurdodau lleol yn parhau i geisio cryn dipyn o arweiniad ganddynt ynghylch yr hyn y dylai rhaglenni fod yn ei wneud o fewn dull Ariannu Hyblyg, yn ogystal â chydweddu gyda CCG a HSG. Bu achlysuron pan fu angen datrys cyngor anghyson a roddwyd ynghylch dull Ariannu Hyblyg a'r ffordd y mae'n cydweddu gyda chanllawiau rhaglen.
- I Lywodraeth Cymru, gwelwyd sialensiau yn parhau. Mae'r tîm Cydweddu Ariannu wedi wynebu pwysau wrth ddarparu oherwydd trosiant staff, ac o ganlyniad, bu rheoli perthnasoedd gyda 22 awdurdod lleol yn anodd; er hyn, fodd bynnag, mae'r perthnasoedd wedi parhau i fod yn rhai cadarnhaol.

- Mae gwaith i'w wneud o hyd o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn galluogi arweinwyr rhaglen i gydweithio'n agosach ac i fabwysiadu dulliau gweithredu mwy cyson wrth weithio gyda swyddogion arweiniol awdurdodau lleol (Ariannu Hyblyg a rhaglenni) er mwyn gweithredu dull Ariannu Hyblyg.

Casgliadau

- Mae'r cynnydd ers diwedd 2018 wedi bod yn ymwneud yn bennaf ag awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru yn sefydlu adolygiadau o wasanaethau, gan asesu eu dewisiadau rheoli a'u trefniadau llywodraethu, ac yn sefydlu fforymau os nad oeddent eisoes wedi cael eu sefydlu, lle y mae modd adolygu'r 10 grant sydd yn y rhaglen. Mae hyn yn adlewyrchu dulliau gweithredu a fabwysiadwyd gan yr awdurdodau braenaru wrth iddynt ddarparu ers dechrau'r rhaglen.
- Nid yr enghreifftiau ehangach ar draws awdurdodau o swyddogion o'r 10 rhaglen wreiddiol yn cynnull er mwyn cynllunio a chyd-gomisiynu/cyd-ariannu darpariaeth yw'r unig beth sy'n dangos cynnydd, fel y nodwyd gyda darpariaeth HSG yn arbennig, ond hefyd, gwelwyd awdurdodau yn dangos datblygiad mwyaf blaengar eu dulliau Ariannu Hyblyg mewn rhai enghreifftiau CCG.
- Mae'r gwaith a gyflawnwyd gan yr awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru wedi hwyluso'r adolygiad o arfer darparu lleol ar gyfer EIPS a datblygiad dealltwriaeth o ddulliau eraill, ac mae'n helpu i gychwyn y broses o nodi'r dewisiadau ar gyfer cydweithio a'r potensial i integreiddio gwasanaethau.
- Mae pum awdurdod lleol (tri awdurdod braenaru a dau awdurdod nad ydynt yn awdurdodau braenaru) wedi sicrhau cynnydd arbennig o dda, fel y gwelwyd mewn tystiolaeth o strwythurau ffurfiol mewn perthynas â gweledigaeth, datblygiad cynllunio a dylunio, prosesau strwythuredig ar gyfer arweinyddiaeth ac atebolrwydd, a dulliau gweithredol ar gyfer cydweithio.
- Ymhellach, ceir enghreifftiau da yn barod yn 2018/19 o gyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd hyblyg gan chwech o'r saith awdurdod braenaru gwreiddiol a mewn tri awdurdod nad ydynt yn awdurdodau braenaru (gweler Tabl 4.1). Yn yr awdurdodau hyn y gwelir y dystiolaeth gryfaf o weithgarwch cyfuno cyllidebau er mwyn cynorthwyo darpariaeth barhaus rhai gwasanaethau mewn

meysydd angen arbenigol, gan gynnwys trais domestig, iechyd meddwl, a chymorth i deuluoedd agored i niwed.

- Nodwyd enghreifftiau cyfyngedig o weithgarwch comisiynu ar y cyd, er bod mwyafrif (13) yr awdurdodau lleol yn ymchwilio i'r dewisiadau am hyn ar draws Ymyrraeth Gynnar, Atal, a Chymorth (EIPS) sy'n bodoli eisoes mewn ffordd weithredol, a chanfuwyd enghreifftiau ar gyfer cymorth trais domestig, rhianta, a darparu hyfforddiant.
- Gwelir tystiolaeth o gydweithio (gan gynnwys cyfarfodydd ar y cyd) ac adolygiadau gwasanaeth gan dimau rhaglen cyfunol ar draws y 10 rhaglen o fewn dull Ariannu Hyblyg, er bod strwythurau CCG a HSG yn parhau i fod ar wahân rhywfaint o hyd mewn rhai awdurdodau lleol (4), ac nid yw hyn wedi cael ei oresgyn eto. Mae dau awdurdod lleol yn nodi mai cydweithio fu'r maes amlycaf lle y cafwyd effaith o ganlyniad i'w dull Ariannu Hyblyg lleol, fel yr arsylwyd yn ein dadansoddiad o'r canfyddiadau cyfweld.
- Mae mwy o waith ar ôl i'w gyflawni ar draws amrediad o awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru er mwyn lleihau natur gyfnewidiol y cynnydd a gaiff ei sicrhau wrth gyflawni dulliau Ariannu Hyblyg lleol, fel y gwelir yng nghanfyddiadau'r gwerthusiad. Y ffordd orau o fynd i'r afael â hyn yw trwy sicrhau bod awdurdodau wedi gwneud gwaith clir wrth ddatblygu gweledigaeth, gwaith dylunio a chynllunio cyswllt er mwyn cynnwys cynlluniau strategol a busnes, yn ogystal â defnyddio'r rhain i ddylanwadu ar gynllun EIPS ar lefel lleol yn y pen draw. Yn ogystal, dylai gynnwys cyfleu unrhyw newidiadau yn ehangach i staff ar draws awdurdodau mewn ffordd effeithiol, fel bod y lefelau dealltwriaeth o amcanion ac ethos newid yn hysbys yn ehangach.
- Mae gofyn gwneud gwaith datblygu pellach hefyd er mwyn ffurfioli'r strwythurau atebolrwydd ac arwain mewn awdurdodau lleol er mwyn cynnig sylfaen i'r trawsnewid sy'n angenrheidiol i gynorthwyo dulliau Ariannu Hyblyg lleol ym mhob awdurdod.
- Mae'r meysydd hyn yn hollbwysig gan bod tystiolaeth lenyddol (DCLG, 2013a) yn awgrymu'n gryf bod ethos a gweledigaeth glir, yn ogystal â chymorth arwain uwch cadarn, yn elfennau allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant wrth gyflawni trawsnewidiad fel yr un sy'n sail i'r dulliau lleol mwyaf llwyddiannus ar gyfer

Ariannu Hyblyg. Mae'r rhain yn feysydd y byddai modd rhoi pwyslais mwy penodol iddynt mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol ar gais Llywodraeth Cymru.

- Yn ogystal, ym mhob awdurdod, beth bynnag fo'r cynnydd a gaiff ei sicrhau wrth gyflawni'r dull Ariannu Hyblyg lleol, bydd angen iddynt gael ffocws dwys ar ddatblygu'r gweithlu hefyd, ac ar y cymorth i staff er mwyn iddynt ymateb i rolau ac arferion gwaith newydd sy'n deillio o'r dull.
- Yn Llywodraeth Cymru, ceir angen penodol i wneud gwaith pellach mewn perthynas ag adolygu, a phan fo hynny'n briodol, er mwyn ailosod nod strategol Ariannu Hyblyg, gan gyfleu hyn i bob awdurdod lleol. Yn wir, byddai modd cydweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn cydgynhyrchu hyn i gynorthwyo gweithgarwch lle y bydd awdurdodau lleol yn ymgysylltu â gwaith yn y dyfodol ynghylch dull Ariannu Hyblyg.
- Ceir ymdeimlad sylfaenol o amheuaeth o hyd bod y naratif a gaiff ei ganlyn gan y newidiadau yn un lle y gwelir cyfanswm y cyllid cyffredinol ar gyfer grwpiau agored i niwed yn cael ei leihau, neu y gwelir y canlyniad nas fwriadwyd y gallai cydweddu grantiau olygu bod ffocws y cyllid yn symud i ffwrdd o grwpiau llai 'poblogaidd yn wleidyddol'. Law yn llaw â hyn, gwelir 'pocedi' o 'weithio mewn seilos' yn parhau, lle y mae timau rhaglen (mewn awdurdodau lleol ar y cyfan) yn ynysu eu hunain o newidiadau sy'n cael eu cymell trwy ddulliau Ariannu Hyblyg lleol.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru roi amser i ddarpariaeth dull Ariannu Hyblyg gael ei ddatblygu ymhellach ar draws pob awdurdod lleol yn ystod gweddill 2019/20, trwy gyfrwng cymorth gan awdurdodau mwy datblygedig. Bydd hyn yn galluogi dulliau gweithredu i ymwreiddio yn fwy, gan helpu i gynorthwyo'r gweithgarwch cyflwyno parhaus o fis Ebrill 2020. Mae'n bwysig i awdurdodau lleol nad yw'n ymddangos bod eu hymdrechion hyd yn hyn yn wastraff trwy gyfrwng unrhyw newidiadau pellach, neu ddiwygiadau, i'r polisi, a bod yr ymrwymadau a wnaethpwyd yn y cyhoeddiad Gweinidogol ym mis Hydref 2018 i gynnal y gwaith ar y dull tan ddiwedd tymor y Cynulliad hwn yn cael eu bodloni.

- Byddai modd cyfiawnhau cynnig cymorth a dirnadaeth bellach i'r awdurdodau hynny sydd wedi sicrhau llai o gynnydd/y cynnydd lleiaf gan Lywodraeth Cymru a chan awdurdodau lleol eraill y mae eu gwaith cyflawni yn fwy datblygedig. Yn wir, mae pob awdurdod yn awyddus i ddysgu hyd yn oed yn fwy gan yr awdurdodau braenaru, a byddai mecanweithiau er mwyn darparu dirnadaeth a gwybodaeth o'r fath yn cael eu croesawu'n fawr.

Argymhellion

Mae'r argymhellion yn nodi meysydd allweddol lle y mae dirnadaeth yn cynnig rhai persbectifau defnyddiol ynghylch dylanwadu ar weithrediad a darpariaeth barhaus dull Ariannu Hyblyg, yn ogystal â'r camau nesaf ar gyfer unrhyw waith gwerthuso yn y dyfodol.

Llywodraeth Cymru

- 1) Ymchwilio i'r gwaith o symleiddio prosesau er mwyn hwyluso mwy o gysondeb ar draws y 10 rhaglen a gaiff eu cynnwys yn null Ariannu Hyblyg, gan gydnabod bob amser y natur amrywiol a'r cywirdeb o ran y rhaglen sy'n ofynnol ar draws y 10 rhaglen.
- 2) Adolygu gweledigaeth ac amcanion dull Ariannu Hyblyg er mwyn gallu ail-lunio ei weledigaeth ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, a gaiff ei hwyluso gan dull cydgynhyrchu o weithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allanol.
- 3) Nodi mecanweithiau er mwyn darparu cymorth parhaus ar gyfer gweithrediad parhaus dulliau Ariannu Hyblyg ar lefel awdurdod lleol, gan fanteisio ar wersi a ddysgwyd o waith gwerthuso ac arfer. Dylid cyflawni hyn trwy gyfrwng rhaglen gyson o ddiweddariadau a gwybodaeth sy'n amlygu'r ffordd orau o sicrhau llwyddiant efallai, gan bwysleisio pwysigrwydd gweledigaeth, gwaith dylunio a chynllunio cadarn, dull atebolrwydd ac arweinyddiaeth wedi'i ffurfioli, a ffocws penodol ar nodi strwythurau sy'n hwyluso cydweithio, gyda chymorth rhaglen datblygu'r gweithlu wedi'i thargedu.
- 4) Ymestyn gweithgarwch ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allanol (gan gynnwys cyrff cynrychioliadol a sefydliadau Sector Gwirfoddol a Chymunedol (VCS)

cenedlaethol a rhanbarthol), yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â darparu CCG a HSG yn uniongyrchol, er mwyn hwyluso cyfleoedd cydweithio pellach.

- 5) Dylai timau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig gyda dull Ariannu Hyblyg gynnal adolygiadau hunanasesu o'r cynnydd yn erbyn y 7 Lens Trawsnewid er mwyn nodi camau gweithredu pellach i'w cymryd, ac fel mecanwaith er mwyn monitro eu cynnydd parhaus.

Awdurdodau lleol a rhanddeiliaid

- 1) Dylai awdurdodau lleol adolygu a diwygio, pan fo hynny'n briodol, gweledigaeth, cynllun a dyluniad eu dull Ariannu Hyblyg lleol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol yn lleol, yn ogystal ag ymgynghori â rhanddeiliaid lleol fel rhan o'r gwaith hwn.
- 2) Dylid ffurfioli modelau cydweithio a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn nodi cyfleoedd i ddatblygu ac ymestyn amrediad y partneriaid a'r rhanddeiliaid (mewnol ac allanol) y maent yn eu cynnwys.
- 3) Dylai awdurdodau lleol fynd ati mewn ffordd weithredol i adolygu ffyrdd o fabwysiadu dull ffurfiol a chyson tuag at gyfuno cyllidebau, yn ogystal ag ymgysylltu rhanddeiliaid lleol mewn gwaith o'r fath.
- 4) Dylai awdurdodau lleol fynd ati mewn ffordd weithredol i geisio cyfleoedd i gydweithio gydag awdurdodau braenaru ac awdurdodau cyfagos er mwyn rhannu dirnadaeth ac arfer da.
- 5) Dylai awdurdodau lleol a rhanddeiliaid lleol fwrw ymlaen gydag adolygiadau hunanasesu lleol o'r cynnydd yn erbyn y 7 Lens Trawsnewid er mwyn nodi camau pellach i'w cymryd, ac fel mecanwaith er mwyn monitro eu cynnydd parhaus.

Cynnal gwaith gwerthuso yn y dyfodol sy'n:

- 1) Asesu'r effaith y gallai dulliau gweithredu amgen tuag at ddarparu EIPS fod yn ei chael ar y canlyniadau yn y tymor canolig a'r tymor hir mewn awdurdodau lleol
- 2) Adolygu effeithiau a chanlyniadau pellach darparu dull Ariannu Hyblyg, yn ogystal â'r mecanweithiau, y prosesau, a'r rolau a gyflawnir gan strwythurau rhanddeiliaid rhanbarthol gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs), Pwyllgorau Cydweithio Rhanbarthol, a Byrddau Rhaglen Rhanbarthol o'u mewn
- 3) Nodi a yw defnyddwyr gwasanaeth wedi profi effeithiau o ran darparu gwasanaethau a pha rannau cyflawni sydd fwyaf tebygol o sicrhau canlyniadau cadarnhaol
- 4) Profi effeithlonrwydd y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer dull Ariannu Hyblyg ac sy'n nodi diwygiadau pellach pan fo hynny'n briodol.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynorthwyo pobl a chymunedau agored i niwed. I'r perwyl hwn, mae wedi datblygu sawl rhaglen er mwyn cynorthwyo pobl neu gymunedau agored i niwed. Nod y rhaglenni hyn yw trechu anfantais, atal canlyniadau negyddol yn y tymor hwy i unigolion a theuluoedd, hwyluso ymyrraeth gynnar, a meithrin cydnerthedd ymhlith unigolion a chymunedau. Seiliwyd pob rhaglen ar grant penodol sy'n cynnwys ei ofynion a'i gyfyngiadau ei hun, yn ogystal â chostau a gwaith gweinyddol cysylltiedig. Mae hyn wedi peri sialensiau i rai awdurdodau lleol, ac mae eraill wedi ceisio herio'r ffordd y gweinyddir y grantiau hyn er mwyn hwyluso dull mwy 'hyblyg' o ran y ffordd y defnyddir cyllid o'r fath i roi sylw i angen lleol.
- 1.2 Ers 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio gydag awdurdodau lleol ar weithgarwch estynedig i gydweddu grantiau, gyda'r bwriad o hwyluso gweithgarwch i ailgynllunio gwasanaethau er mwyn darparu gwelliannau cynaliadwy o ran y canlyniadau i bobl ar draws Cymru, a gweithredu'r pum ffordd o weithio yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, er mwyn gweithredu egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddarparu, gan gynnwys:
- **Tymor hir:** *“Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion yn y tymor byr a'r anghenion i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion yn y tymor hir hefyd”*
 - **Integreiddio:** *“Ystyried sut y gallai amcanion lles y corff cyhoeddus gael effaith ar bob nod llesiant, ar eu hamcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill”*
 - **Cynnwys:** *“Pwysigrwydd cynnwys pobl y mae ganddynt ddiddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff”*
 - **Cydweithio:** *“Cydweithio gydag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles”*

- **Atal:** *“Sut y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion”*

Ariannu Hyblyg

- 1.3 Mae Ariannu Hyblyg yn un dull er mwyn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n ceisio sicrhau bod gwahanol raglenni yn cydweithio, gyda'r nod o gynnig mwy o ymreolaeth wrth ddarparu gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â chomisiynu a chynllunio ar y cyd, er mwyn cynorthwyo canlyniadau mewn ffordd well. Y gobaith yw y bydd yr hyblygrwydd hwn yn meithrin dull traws-sefydliadol a mwy strategol wrth ddarparu ymyrraeth gynnar, atal a chymorth (EIPS) ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, gan ganiatáu i awdurdodau lleol 'siapio'r' ddarpariaeth i anghenion penodol eu poblogaeth leol mewn ffordd well (Llywodraeth Cymru, 2018a).
- 1.4 Mae'n bwysig nodi, er bod yr adroddiad gwerthuso interim (Llywodraeth Cymru, 2018d) wedi cyfeirio at raglen Ariannu Hyblyg, bod y ffyrdd o weithio sy'n dod i'r amlwg ac a fabwysiadwyd gan awdurdodau leol er mwyn cynnwys Ariannu Hyblyg yn eu gwaith, yn dangos mai dull ydyw sy'n manteisio ar amrediad o fecanweithiau ariannu er mwyn cyflawni ei nodau (gweler para 1.3). Felly, ni ddylid cyfeirio at y dull fel rhaglen, o ystyried amrywiaeth y ffyrdd y mae awdurdodau lleol wedi defnyddio (neu y gallent ddefnyddio) y mecanweithiau ariannu hyn er mwyn cyflawni'r nodau hynny. Felly, trwy gydol yr adroddiad hwn, cyfeirir at Ariannu Hyblyg fel dull a gaiff ei fabwysiadu gan awdurdodau lleol yng Nghymru.
- 1.5 Mae amcanion dull Ariannu Hyblyg yn dod yn uniongyrchol o Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru hefyd – Ffyniant i Bawb (Medi 2017). Mae'r olaf yn pwysleisio prif egwyddorion y mae dull Ariannu Hyblyg yn eu gweithredu:
 - Darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau ffyniant a lles holl breswylwyr Cymru yn y tymor hir
 - Bod ymyrraeth gynnar yn y Blynyddoedd Cynnar, Tai, Gofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl, a Sgiliau a Chyflogadwyedd yn atal problemau rhag gwaethygu, gan alluogi ffyniant a lles dros y tymor hir

- Bod yr angen i ganolbwyntio ar integreiddio a chydweithio yn hollbwysig ar gyfer canlyniadau cadarnhaol yn y meysydd hynny yn y tymor hir
- Rôl allweddol cydweithio wrth geisio cyflawni amcanion cyffredin.

1.6 Rhoddir crynodeb da o hyn yn y dyfyniad canlynol o Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru – Ffyniant i Bawb:

'Wrth ddatblygu'r strategaeth, cydnabuom bum maes sydd wedi dod i'r amlwg fel y rhai y gallent wneud y cyfraniad mwyaf i ffyniant a lles dros y tymor hir. Maent yn adlewyrchu'r adegau ym mywydau pobl lle y gallai fod angen cymorth arnynt fwyaf, a phan fo'r help cywir yn gallu cael effaith ddramatig ar gwrs eu bywyd. Maent yn feysydd blaenoriaeth lle y dangoswyd bod ymyrraeth gynnar – gan fynd i'r afael â gwraidd y broblem yn hytrach na thrin symptomau – yn talu ar ei ganfed. Dim ond ymateb wedi'i gydlyn yn llawn gan wasanaethau cyhoeddus sy'n gallu atal problemau rhag gwaethygu; yn rhy aml, bydd rhwystrau rhwng gwahanol wasanaethau a sefydliadau yn atal dull gweithredu hollol ataliol.' (Llywodraeth Cymru, 2017, t.2)

1.7 Yn 2017, nodwyd saith awdurdod lleol 'braenaru' yng Nghymru, er mwyn profi dulliau gweithredu i gyflawni'r nodau hyn yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19. Roedd yr awdurdodau braenaru hyn wedi cynnig eu hunain. Roedd y saith awdurdod braenaru yn cynnwys: Conwy, Caerdydd, Casnewydd, Torfaen, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, a Merthyr Tudful, yn ogystal â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf⁴. Trwy Ariannu Hyblyg, rhoddwyd hyblygrwydd llawn (100% o'r gyllideb) i'r awdurdodau braenaru hyn ar draws y 10 grant (gweler Tabl 1.1).

1.8 Ar y pryd, roedd Ariannu Hyblyg wedi cynnig hyblygrwydd estynedig i'r 15 awdurdod lleol yng Nghymru a oedd yn weddill ('awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru') o symud 15% ar draws nifer yn llai o grantiau er mwyn cynorthwyo dechrau eu taith tuag at ffordd o feddwl sy'n fwy arloesol wrth ddarparu gwasanaethau. Mae Tabl 1.1 yn dangos y grantiau a gaiff eu cynnwys ar gyfer awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn

⁴ Cydweithio gyda Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

awdurdodau braenaru. Fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017) y byddai'r lefelau ariannu ar gyfer Cefnogi Pobl yn cael eu cynnal yn unol ag ymrwymïadau cyllideb 2017/18, felly:

'Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y dylai awdurdodau lleol neilltuo cyllid i raglenni Cefnogi Pobl ar lefel dyraniad Cefnogi Pobl o leiaf, oni bai y gallant ddangos eu bod yn siŵr o ddarparu'r un gwasanaethau, neu wasanaethau gwell, am lai o arian o ganlyniad i arbedion effeithlonrwydd.' (Llywodraeth Cymru, 2018a, t.2)

Tabl 1.1: Grantiau a gynhwyswyd yn null Ariannu Hyblyg 2018/19

Awdurdodau braenaru	Awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru
• Cefnogi Pobl • Dechrau'n Deg • Teuluoedd yn Gyntaf • Y Gronfa Waddol • Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc • Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Ysgol yn flaenorol) • Atal Digartrefedd • Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol yn flaenorol) • Cronfa Dydd Gŵyl Dewi • Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd yn flaenorol)	• Cefnogi Pobl • Dechrau'n Deg • Teuluoedd yn Gyntaf • Y Gronfa Waddol • Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd yn flaenorol)

1.9 Yn dilyn adolygiad o ganfyddiadau'r Gwerthusiad Interim, yn ogystal ag asesiad mewnol o ddynmeg a chanlyniadau cynnar blwyddyn gyntaf darpariaeth Ariannu Hyblyg, nododd cyhoeddiad Gweinidogol a wnaethpwyd ym mis Hydref 2018⁵ y byddai Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen gyda dull Ariannu Hyblyg a fyddai'n cynnwys dau grant, a fyddai'n cael ei weithredu o fis Ebrill 2019.

⁵ Gweler [Datganiad ysgrifenedig am Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth](#) am gopi o'r datganiad.

- 1.10 Roedd hyn yn golygu y byddai Grant Plant a Chymunedau (CCG)), a Grant Cymorth Tai (HSG). Byddai'r rhain yn parhau i gynnwys y 10 rhaglen a fu'n rhan o Ariannu Hyblyg yn wreiddiol, fel y dangosir yn Nhabl 1.2.

Tabl 1.2: Grantiau a gaiff eu cynnwys yn CCG a HSG

CCG	HSG
• Dechrau'n Deg • Teuluoedd yn Gyntaf • Y Gronfa Waddol • Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc • Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Ysgol yn flaenorol) • Cronfa Dydd Gŵyl Dewi • Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd yn flaenorol)	• Cefnogi Pobl • Atal Digartrefedd • Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol yn flaenorol)

- 1.11 Mae dibenion y grantiau fel a ganlyn:

- mae CCG yn rhoi sylw i anghenion cymorth y plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau trwy amrediad y mecanweithiau EIPS, gan gynnwys y cymorth ar gyfer darparwyr gofal plant. Mae'n ceisio lleihau, neu hyd yn oed waredu, anfantais i bobl agored i niwed, gan gynnig yr un cyfleoedd iddynt mewn bywyd ag y bydd eraill yn eu cael, er ei fod yn cynorthwyo rhai gwasanaethau generig hefyd megis darpariaeth gofal plant sydd ar gael i bawb, ac felly, mae'n cyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal.
- mae HSG yn rhoi sylw i anghenion tai a chymorth sy'n gysylltiedig â thai yr unigolion mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas trwy gyfrwng amrediad o feganweithiau ymyrraeth gynnar, atal a chymorth. Bydd yn ceisio lleihau, neu waredu, anfantais i bobl agored i niwed, ac yn eu galluogi i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag y bydd eraill yn eu cael, gan gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal. O'r herwydd, mae'r Grant Cymorth Tai yn ymwneud â sicrhau cartref a chynnal cartref.

- 1.12 Y bwriad hefyd yn ystod 2019/20 oedd y byddai hyblygrwydd o 100% wrth ddefnyddio'r ddau grant hwn yn berthnasol i **bob** awdurdod lleol yng Nghymru, ar ôl iddo fod yn berthnasol i awdurdodau braenaru yn unig yn flaenorol.
- 1.13 Mae egwyddorion y dull cyfredol ar gyfer Ariannu Hyblyg yn canolbwyntio ar sawl amcan allweddol (addaswyd o Llywodraeth Cymru, 2018c):
- cynnig mwy o ymreolaeth o ran y ffordd y darparir gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio a chomisiynu ar y cyd
 - cynnig mwy o hyblygrwydd a rhyddid ariannol er mwyn galluogi awdurdodau lleol i weithio mewn ffordd wahanol
 - galluogi awdurdodau lleol i gynllunio mewn ffordd strategol a holistig
 - galluogi gweithgarwch i ail-gynllunio gwasanaethau
 - lleihau biwrocratiaeth dianghenraid.
- 1.14 Felly, mae Ariannu Hyblyg yn parhau i geisio ffyrdd i Lywodraeth Cymru alluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gydlynu adnoddau mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon trwy gynnig mwy o hyblygrwydd, ymreolaeth ac atebolrwydd cysylltiedig iddynt, er mwyn iddynt allu ymateb yn well i anghenion lleol. Bwriad hyn yn y pen draw yw darparu EIPS mwy amserol ac effeithiol, gan leihau'r angen am gymorth mwy cymhleth ar gyfer y rhai sydd mewn angen yn y dyfodol.
- 1.15 Yn ogystal, bwriedir i'r dull gynorthwyo gweithgarwch meithrin capasiti o fewn awdurdodau lleol, o ran datblygu a gwella eu cymwyseddau a'u profiad o waith cynllunio strategol a holistig, adolygu ac ailgynllunio gwasanaethau, ac yn y pen draw, diwygio'r ffordd y mae eu hawdurdod lleol yn gweithredu mewn ffordd strwythurol.

Y gwerthusiad

- 1.16 Ym mis Ebrill 2018, yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol, comisiynwyd Wavehill gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o ddull Ariannu Hyblyg er mwyn cynnig gwybodaeth gadarn ac amserol am ei weithrediad, gan ddeall sut y bydd ei weithredu yn effeithio ar gyflawni canlyniadau yn y tymor hwy. Bydd y dysgu a gaiff ei sicrhau trwy'r

gwerthusiad yn cyfrannu at weithrediad effeithiol y trefniadau cydweddu grantiau yn y dyfodol, gan gyfrannu at ddysgu ar lefel awdurdod lleol.

1.17 Roedd nodau'r gwaith gwerthuso yn cynnwys:

- profi'r tybiaethau a'r ffordd y mae dull Ariannu Hyblyg yn gweithio
- adolygu effeithiolrwydd gweithrediad y prosiect, ei gynnydd, ac unrhyw newidiadau y gallai fod wedi eu dwyn
- nodi arbedion effeithlonrwydd o'r gwaith gweithredu, a chymhariaeth gyda disgwyliadau
- nodi Fframwaith Canlyniadau a'r mesurau a'r dulliau cysylltiedig er mwyn cyflawni
- dysgu gwersi o ddarpariaeth gynnar am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio gystal
- nodi argymhellion ar gyfer gwaith gwerthuso yn y dyfodol.

1.18 Cynhaliwyd y gwaith gwerthuso mewn dau gam, a chafwyd cam interim er mwyn adolygu ac asesu'r cynnydd cynnar wrth ddarparu dull Ariannu Hyblyg o fis Ionawr i fis Medi 2018, a arweiniodd at gyhoeddi adroddiad interim ym mis Hydref 2018 (Llywodraeth Cymru, 2018d).

1.19 Mae'r adroddiad terfynol hwn yn adrodd am gam olaf (ail gam) y gwaith, gan ychwanegu at ganfyddiadau'r adroddiad interim a amlygodd y prif faterion canlynol:

- roedd hi'n ddyddiau cynnar o hyd i nifer o awdurdodau lleol wrth iddynt weithredu eu dull Ariannu Hyblyg, a gweithgareddau adolygu a chynllunio oedd y rhai amlycaf
- y peth mwyaf cyffredin oedd gweld y cynnydd yn gysylltiedig gyda 'fframwaith' sy'n bodoli eisoes neu broses er mwyn cyflawni newid yn fwy ehangach ar draws yr awdurdod
- roedd rhai awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru yn dangos enghreifftiau cyfyngedig o gydweithio, gan gynnwys rhywfaint o 'hyblygrwydd' wrth ddefnyddio cyllid, ond roedd nifer o'r dulliau hyn yn rhai 'anstrategol' ac yn aml, roeddent yn cael eu

defnyddio er mwyn osgoi tanwariant, yn hytrach na chysylltu gydag ethos ehangach i wella'r gwasanaeth

- roedd mwyafrif y dulliau cyflawni cynnar yn canolbwyntio ar ddwyn pobl ynghyd, hwyluso sgysiau 'newydd' ac adolygu ac asesu natur taith defnyddiwr y gwasanaeth
- roedd nifer o ddulliau cynnar wedi cael eu sefydlu cyn dyfodiad Ariannu Hyblyg, a oedd yn dangos parhad trefniadau cydweithio a oedd yn bodoli eisoes; ymhellach, mae'r cydweddu ar ei amlycaf mewn awdurdodau (braenaru a'r rhai nad ydynt yn awdurdodau braenaru) ar draws gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai megis rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Y Gronfa Waddol, a Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc
- roedd ymrwymiad yr Uwch Dîm Arwain i nodau ac uchelgais dull Ariannu Hyblyg yn ffactor allweddol mewn unrhyw gynnydd llwyddiannus a sicrhawyd wrth weithredu Ariannu Hyblyg; roedd hi'n bwysig bod hyn yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o'r anghenion a'r rhwystrau/bylchau wrth ddarparu gwasanaethau a'r 'daith' y bydd defnyddwyr yn cychwyn arni er mwyn cael cymorth, er mwyn helpu i gynorthwyo'r gweithrediad hwnnw
- roedd canlyniadau'n gyfyngedig i lefel awdurdod lleol, gan ymwneud â chychwyn grwpiau grantiau ar y cyd yn bennaf, gyda rhai yn cyfarfod yn barod, ynghyd â rhywfaint o waith ailstrwythuro sefydliadol a nodi newid o ran arfer gwaith a chynigion ar gyfer 'cerbydau' newid eraill (Canolfannau Cymunedol, Ffocws Lle Lleol).

1.20 Mae'r adroddiad terfynol hwn yn rhoi crynodeb o brif ganfyddiadau'r gwerthusiad a fu'n adolygu'r cynnydd a gaiff ei sicrhau wrth gyflawni dull Ariannu Hyblyg gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru o fis Tachwedd 2018 – trwy ail gam (a cham olaf) y gwaith gwerthuso. Mae hyn yn cynnwys gwaith sy'n cynnwys datblygiad cynnar Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Ariannu Hyblyg, ynghyd ag adolygiad o'r cynnydd pellach a sicrhawyd gan awdurdodau lleol wrth weithredu tan fis Medi 2019.

- 1.21 Mae'r adroddiad yn amlygu prif ganfyddiadau ac yn cynnig argymhellion i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid, yn ogystal ag ar gyfer gwaith gwerthuso yn y dyfodol ynghylch gweithgarwch i gydweddu cyllid yn fwy trwy Lywodraeth Cymru.

2. Methodoleg

2.1 Mae'r gwaith gwerthuso a'r fethodoleg er mwyn ei gwblhau yn cysylltu'n uniongyrchol gyda Damcaniaeth Newid ar gyfer Ariannu Hyblyg a ddatblygwyd trwy'r cam adrodd interim – gellir gweld manylion pellach am hyn yn Atodiad A.

2.2 Mae cynnal y gwerthusiad wedi cynnwys:

- **Cynnal cyfweiliadau ansoddol dros y ffôn⁶** gydag:
 - arweinwyr Ariannu Hyblyg mewn awdurdodau lleol sy'n awdurdodau braenaru ac mewn awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru
 - arweinwyr rhaglen enwebedig mewn awdurdodau lleol ar gyfer y rhai y mae Ariannu Hyblyg yn ymwneud â nhw, mewn awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru, gan roi mwy o bwyslais ar arweinwyr mewn awdurdodau braenaru; nodwyd y rhain trwy ddefnyddio technegau 'pelen eira' mewn trafodaethau gydag arweinwyr Ariannu Hyblyg mewn awdurdodau lleol
 - arweinwyr Ariannu Hyblyg yn Llywodraeth Cymru o'r tîm Cydweddu Ariannu
 - arweinwyr rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer y 10 rhaglen a gaiff eu cynnwys o fewn Ariannu Hyblyg (gweler Tabl 1.1). Rhoddir crynodeb o'r dadansoddiad o gyfweiliadau a gwblhawyd yn ôl math yn Nhabl 2.1, sy'n dangos y cyfwelwyd 58 o ymatebwyr rhwng mis Mawrth a diwedd mis Gorffennaf 2019, ac ailadroddwyd 45 o'r cyfweiliadau hyn gydag ymatebwyr a gyfwelwyd ar gyfer y gwaith gwerthuso interim er mwyn olrhain cynnydd cyffredinol Ariannu Hyblyg.

⁶ Gellir gweld amserlenni cwestiynau ar gyfer y cyfweiliadau hyn yn Atodiad C.

Tabl 2.1: Trosolwg o gyfweiliadau a gwblhawyd yn ystod y cam olaf – Mawrth – Gorffennaf 2019

Math o gyfweilai	Nifer y cyfweiliadau a gwblhawyd
Arweinwyr a chysylltiadau enwebedig Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol (awdurdodau braenaru)	15
Arweinwyr Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol (awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru)	14 ⁷
Arweinwyr rhaglen mewn awdurdod lleol (13 awdurdod)	11 ⁸
Arweinwyr Ariannu Hyblyg Llywodraeth Cymru	2
Arweinwyr rhaglen Llywodraeth Cymru ⁹	9
Rhanddeiliaid eraill ¹⁰	7
Cyfanswm y sawl a gyfweilwyd	58

2.3 Mae Tabl 2.2 yn cynnig crynodeb o rolau penodol y sawl a gyfweilwyd a sut y maent yn ymwneud ag Ariannu Hyblyg. At hynny, mae'n nodi sut y cânt eu hadnabod yn erbyn dyfyniadau a ddefnyddir yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn.

⁷ O ganlyniad i bwysau ar adnoddau a newidiadau staff a welwyd yn ddiweddar, ni fu modd cynnal cyfweiliadau gyda Blaenau Gwent a Phowys.

⁸ Ni awgrymwyd cysylltiadau ychwanegol yn eu hawdurdod i'w cyfweld gan bump awdurdod lleol, gan eu bod yn teimlo nad oes cynnydd digonol wedi cael ei sicrhau wrth gyflawni dull Ariannu Hyblyg er mwyn i eraill allu gwneud unrhyw sylwadau am gynnydd cynnar y rhaglen.

⁹ Mae'n cyfeirio at staff sy'n arweinwyr enwebedig ar gyfer y 10 grant o fewn Llywodraeth Cymru. (Sylwer bod rhai grantiau yn cael eu goruchwyllo gan yr un arweinwyr.)

¹⁰ Roedd yn cynnwys rhanddeiliaid cenedlaethol a rhanbarthol sy'n gysylltiedig â HSGs a CCGs, gan gynnwys elusennau cenedlaethol, cyrff cynrychioliadol y Sector Gwirfoddol a Chymunedol (VCS), a sefydliadau arbenigol ym maes Tai ac Ymyrraeth Gynnar.

Tabl 2.2: Trosolwg o gyfweiliadau a gwblhawyd yn ystod y cam olaf – Mawrth – Gorffennaf 2019

Math o gyfweilai	Manylion eu cyswllt gydag Ariannu Hyblyg
Arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol	Arweinydd dynodedig ar gyfer dull Ariannu Hyblyg ar lefel yr awdurdod lleol, ac yn goruchwyllo darpariaeth ac yn adrodd am y cynnydd a sicrhawyd i Lywodraeth Cymru
Arweinwyr rhaglen mewn awdurdod lleol	Arweinydd ar gyfer rhaglenni penodol o fewn dull Ariannu Hyblyg, e.e. Dechrau'n Deg, Rhentu Doeth Cymru, Cefnogi Pobl, ac ati; yn gyfrifol am reoli a goruchwyllo darpariaeth y rhaglen ac am adrodd i Lywodraeth Cymru
Arweinwyr Ariannu Hyblyg Llywodraeth Cymru	Arweinydd ar gyfer dull Ariannu Hyblyg yn y tîm Cydweddu Ariannu o fewn Llywodraeth Cymru
Arweinwyr rhaglen Llywodraeth Cymru	Arweinydd/arweinwyr ar gyfer pob rhaglen unigol o fewn dull Ariannu Hyblyg; goruchwyllo darpariaeth rhaglenni ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru
Rhanddeiliaid eraill	Unigolion ¹¹ o gyrff cynrychioliadol ar gyfer Tai a sefydliadau cenedlaethol a lleol eraill o'r sector Gwirfoddol a Chymunedol ac elusenol sy'n ymwneud â darparu sy'n gysylltiedig â CCG a HSG

2.4 Dylid nodi ein bod wedi ceisio sicrhau na ddatgelir manylion personol yr holl rai a gyfwelewyd, ac efallai bod dyfyniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn wedi cael eu golygu er mwyn diogelu manylion y staff hynny a fu'n ddigon caredig i roi eu hamser i'r gwaith ymchwil.

2.5 Mae'r dulliau casglu data eraill a ddefnyddiwyd i gwblhau'r gwaith gwerthuso hwn wedi cynnwys:

- **adolygiad pen desg ychwanegol o lenyddiaeth a pholisi** er mwyn nodi cyd-destun pellach ar gyfer ein hasesiad o weithrediad Ariannu Hyblyg hyd yn hyn
- **adolygiad pen desg o'r gweithgarwch monitro ariannol, yr arweiniad, a'r gweithgarwch monitro canlyniadau ar gyfer y 10 grant sy'n bodoli eisoes** – roedd hwn yn adolygu arweiniad grant a oedd yn

¹¹ Enwebwyd y rhain gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol braenaru fel sefydliadau allweddol a fu'n ymwneud yn agos â datblygiadau Ariannu Hyblyg ers cychwyn y broses o'i gyflwyno.

bodoli eisoes a'r adroddiadau monitro chwarterol cyffredinol cyntaf a baratowyd gan yr awdurdodau braenaru

- asesiad **astudiaeth achos wedi'i ddiweddarau** o weithrediad y rhaglen mewn tri awdurdod braenaru: Conwy, Casnewydd a RCT¹² — gellir gweld manylion llawn yr astudiaethau achos yn Atodiad C
- **gweithdai adolygu fframwaith canlyniadau** er mwyn cynorthwyo datblygiad fframwaith un canlyniad, gan gynnwys gweithio gyda Grŵp Data Ariannu Hyblyg¹³, pobl a fynychodd y Rhwydwaith Cymorth Tai Cenedlaethol, a grŵp Cydlynwyr Cenedlaethol Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.

Cyfyngiadau methodolegol

- 2.6 Un cyfyngiad allweddol y dull ymchwil fu diffyg unrhyw safbwyntiau am yr effeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod y gwerthusiad. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal hyd at 12 asesiad sefyllfa o'r effaith ar ddinasyddion (CISAs) ar draws y gwaith gwerthuso, yn ychwanegol i'r elfennau a amlinellwyd uchod. Fodd bynnag, gohiriwyd y CISAs hyn pan ddatgelwyd mewn cyfweiliadau yn y gwaith gwerthuso interim a therfynol bod effeithiau'r newidiadau a weithredwyd tan fis Gorffennaf 2019 ar lefel defnyddwyr gwasanaeth, ar draws yr holl awdurdodau, yn rhy gyfyngedig i ganiatáu asesiad cadarn o effeithiau ar gleientiaid. Dylai asesiadau cleientiaid o'r fath, fodd bynnag, fod yn rhan o unrhyw waith gwerthuso dros y tymor hwy sy'n ceisio nodi ble y gallai newidiadau a ysgogwyd gan Ariannu Hyblyg fod wedi arwain at unrhyw newid o ran y profiad o'r gwasanaethau a gafwyd gan gleientiaid.

¹² Dewiswyd astudiaethau achos er mwyn cynnig rhaniad daearyddol ar draws Gogledd a De Cymru, ffocws ar gyflwyno arferion gwaith a rennir cyffredin, datblygu model Canolfan Gymunedol, a dirnadaeth o'r ffocws PSB er mwyn darparu rhaglenni. Diweddarwyd yr astudiaethau achos hyn o'r rhai a gynhaliwyd yn ystod y gwaith Gwerthuso Interim, er mwyn olrhain y cynnydd a sicrhawyd wrth ddarparu'r rhaglen.

¹³ Mae'r grŵp yn cynnwys cysylltiadau awdurdodau lleol sy'n meddu ar arbenigedd penodol mewn gweithgarwch casglu data a gynhelir gan raglenni penodol a'r gwaith ehangach o gyflwyno dull Ariannu Hyblyg. Yn ogystal, mae arweinwyr rhaglen allweddol ac aelodau'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol yn Llywodraeth Cymru yn mynychu'r grŵp hefyd er mwyn adolygu anghenion data parhaus ac yn y dyfodol a fydd yn deillio o weithredu'r Fframwaith Canlyniadau.

3. Dirnadaeth o lenyddiaeth polisi ac ymchwil

- 3.1 Yn y bennod hon, rydym yn nodi manylion canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth a gynhaliwyd o waith ymchwil a pholisi perthnasol. Mae'n ystyried crynodeb o ganfyddiadau'r adroddiad interim, yn ogystal â chyfeiriadau newydd sy'n cynnig dirnadaeth am ddulliau allweddol a fu'n llwyddiannus wrth gyflawni prosiectau trawsnewidiol mawr ar draws Llywodraeth y DU.
- 3.2 Amlygwyd y canlynol yng nghanfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth yn yr adroddiad interim:
- bod pryderon o hyd ynghylch cynladwyedd awdurdodau lleol (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2016), gan gefnogi'r angen am y math o weithgarwch trawsnewid gwasanaeth a welir o fewn Ariannu Hyblyg yn ystod cyfnod pan fo tystiolaeth (Devine, 2017) yn awgrymu bod nifer y teuluoedd y mae angen cymorth arnynt yn cynyddu
 - mae nifer fawr o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr eisoes yn arloesi ac yn treialu ffyrdd newydd o integreiddio gwasanaethau, GIG, a Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus trwy gydweddu darparwyr cenedlaethol, lleol ac o'r sector gwirfoddol mewn ffordd fwy strategol, ond mae'n glir nad oes unrhyw dystiolaeth bendant o'r ffaith bod unrhyw ddull penodol yn fwy llwyddiannus nag unrhyw un arall; ceir, fodd bynnag, amrediad o egwyddorion cyffredin sy'n cynnig sylfaen i'r dulliau mwyaf llwyddiannus mewn perthynas ag integreiddio, cydweddu ac arloesi wrth ddarparu gwasanaeth
 - mae'r arfer sy'n cynnig sylfaen ar gyfer y llwyddiant hwn yn cynnwys (DCLG, 2013a):
 - datblygu gweledigaeth a ffocws clir (sy'n seiliedig ar ganlyniadau)
 - defnyddio gwybodaeth a data sy'n bodoli eisoes ynghylch problemau/materion
 - meithrin dealltwriaeth o flaenoriaethau cymunedol
 - ystyried pa mor agored yw partneriaid i ymgysylltu

- cydweithio gyda'r gymuned leol i adolygu a rhoi sylw i broblemau a chydgyngyllunio gwasanaethau trwy weithio mewn ffordd gydgysylltiedig
 - gwneud penderfyniadau comisiynu sy'n canolbwyntio ar anghenion y gymdogaeth ac mewn partneriaeth â'r gymuned
 - datblygu achos busnes clir
 - defnyddio dadansoddiad cost a budd i egluro'r canlyniadau ar sail y dystiolaeth orau
- mae'r llwyddiant hwn o ran integreiddio wrth ddefnyddio egwyddorion o'r fath yn amlwg ym maes prynu ar y cyd, gan leihau'r potensial o ddyblygu gwasanaethau, llai o angen am staff cefn swyddfa a rheoli, cydlynu gwasanaethau rheng flaen mewn ffordd well, a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2013)
 - mae'r newidiadau a ddatblygir trwy Ariannu Hyblyg yn digwydd mewn cyfnod lle y gwelir gostyngiad parhaus yn y cyllid ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru – canlyniad agenda cyni Llywodraeth y DU dros y naw mlynedd ddiwethaf. Mae CLILC (2018) yn dangos, er 2009/10, bod y cyllid ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, ar ôl ystyried chwyddiant, wedi gostwng 22%, gan amlygu'r angen am welliannau pellach wrth sicrhau gwerth am arian. Fodd bynnag, yn ôl ymchwil gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) (Amin-Smith, Phillips a Simpson, 2016), roedd y toriadau i grantiau llywodraeth leol yng Nghymru yn llai nag yr oeddent yn Lloegr.

3.3 Mae'r lenyddiaeth am brosiectau trawsnewidiol mawr yn Llywodraeth y DU yn manteisio ar waith a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Awdurdod Prosiectau Seilwaith a Gwasanaethau Digidol Llywodraeth y DU¹⁴ fel rhan o Bortffolio Prosiectau Mawr y Llywodraeth (GMPP) ac mae'n cynnig dirnadaeth o'r prif agweddau ar reoli prosiectau trawsnewidiol ar raddfa fawr. Mae Grŵp Cymheiriaid Trawsnewid o weision sifil a rhanddeiliaid ehangach Llywodraeth y DU wedi datblygu fframwaith (a nodwyd fel 7 Lens

¹⁴ Awdurdod Prosiectau Seilwaith a Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth (2018) 7 Lens Trawsnewid.

Trawsnewid¹⁵) er mwyn helpu i dywys gwaith trawsnewid ar raddfa ehangach. Mae'n cynnig fframwaith gwerthfawr y bydd modd adolygu dulliau trawsnewidiol mawr, megis Ariannu Hyblyg, yn ei erbyn.

3.4 Mae hyn yn ddefnyddiol wrth ystyried dull Ariannu Hyblyg gan ei fod yn darparu fframwaith sydd wedi galluogi gweithgarwch i fireinio dadansoddiad thematig cyfweiliadau gyda phobl a gyfwelwyd o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid a fu'n ymwneud â'r rhaglen, er mwyn nodi'r cynnydd a wnaethpwyd wrth ei gynnal fel ag y mae. Yn ogystal, mae'n darparu mecanwaith pellach sy'n gallu tywys awdurdodau lleol yn y camau y gallent eu cymryd er mwyn symud eu darpariaeth yn ei blaen, gan bod y fframwaith yn nodi lefelau cyflawni i'w cyrraedd er mwyn sicrhau cynnydd mewn dulliau newid/trawsnewidiol.

3.5 Yn arbennig, mae'r 7 Lens Trawsnewid yn ddefnyddiol:

- oherwydd eu bod wedi cael eu profi a'u defnyddio dros y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn helpu prosiectau ar draws Portffolio Prosiectau Mawr Llywodraeth y DU, y maent oll wedi cynnwys newid sylweddol wrth ddarparu gwasanaeth, fel yr argymhellir gan ddull Ariannu Hyblyg
- oherwydd eu bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth gynnig iaith gyffredin a fframwaith cyson er mwyn trafod trawsnewid
- oherwydd eu bod yn ddefnyddiol trwy gydol cylch y gwaith trawsnewid, gan ddarparu fframwaith ar gyfer gweithrediad gweithgorau, y rhai sy'n goruchwyllo'r broses o gyflwyno dull Ariannu Hyblyg yn y tymor hwy a chan ddarparu mecanwaith lle y gallai darparwyr fod yn atebol am eu dulliau.

3.6 Yn ogystal, mae Awdurdod Prosiectau Trawsnewid a Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth (2018) yn nodi eu gwerth oherwydd y gallant ddarparu fframwaith ymarferol er mwyn helpu i ddylunio, cynllunio a gweithredu dulliau newid o'r fath, gan alluogi'r rhai sy'n ei ddefnyddio i:

- strwythuro gwaith a chychwyn arni

¹⁵ Am wybodaeth fanylach am y broses drawsnewidiol, gweler y [7 lens trawsnewid](#)

- diffinio llwyddiant a bod o gymorth wrth olrhain cynnydd, asesu bylchau a nodi'r camau nesaf posibl
 - sicrhau ymrwymiad a chymorth gan arweinwyr uwch.
- 3.7 Ym Mhennod 4, amlinellir manylion y 7 Lens¹⁶, gan amlygu'r ffordd y mae'r rhain yn cynnig sylfaen i asesiad y gwerthusiadau o'r cynnydd a gaiff ei sicrhau gan ddull Ariannu Hyblyg ar lefel Llywodraeth Cymru ac ar lefel awdurdodau lleol.
- 3.8 Mae'r 7 Lens sy'n cynnig sylfaen ar gyfer yr asesiad hwn fel a ganlyn:
- 1) Creu Gweledigaeth
 - 2) Dylunio
 - 3) Cynllunio
 - 4) Arweinyddiaeth Drawsnewidiol
 - 5) Cydweithio
 - 6) Atebolrwydd
 - 7) Pobl
- 3.9 Gan gyd-fynd â'r deunydd am fframwaith y 7 Lens, mae'r Grŵp Cymheiriaid Trawsnewid wedi creu *Matrics Aeddfedrwydd*¹⁷ sy'n dangos lefelau'r llwyddiant wrth gyflawni. Bu hwn o gymorth mawr i'r gwerthusiad, gan ei fod wedi hwyluso ein hasesiad o'r cynnydd wrth gyflawni, gan nodi gwahanol deipoleg o ran awdurdodau lleol a'r cynnydd a gaiff ei sicrhau. Ymhellach, mae'n helpu i gynnig dirnadaeth o rai camau gweithredu allweddol y gallai awdurdodau lleol eu cymryd er mwyn galluogi cynnydd pellach yn eu dull Ariannu Hyblyg.
- 3.10 Mae Ffigwr 3.1 yn darparu trosolwg o'r *Matrics Aeddfedrwydd*.

¹⁶ Am wybodaeth fanylach amdanynt, gweler [Matrics y 7 Lens](#)

¹⁷ Gweler: [Manylion am y Matrics](#) am gopi o'r Matrics.

Ffigwr 3.1: Matrics Aeddfedrwydd (Grŵp Cymheiriaid Trawsnewid 2018)

7 Lenses Maturity Matrix							
	Vision	Design	Plan	Transformation leadership	Collaboration	Accountability	People
	The vision gives clarity around the outcomes of the transformation and sets out the key themes of how the organisation will operate	The design sets out how the different organisations and their component parts will be configured and integrated to deliver the vision	The plan needs to retain sufficient flexibility to be adapted as the transformation progresses while providing confidence of delivery	Delivering a transformation often means motivating into action a large network of people who are not under the direct management of the transformation leader	Collaboration is key to transformation in a multi-dimensional environment that increasingly cuts across organisational boundaries	Having clear accountability for transformation within an organisation enables productivity and improved decision making, and leads to better outcomes	Transformation will require people in your organisation to be engaged and to change their ways of working - you need to communicate effectively with them at every stage of the transformation
5	The vision is embedded in everything people do. It flows from top to bottom and is aligned with public outcomes	The public are at the heart of design work. Outcomes for different changes across the organisation are aligned. It's clear how to bridge the gap between the current and future states	Planning is joined up and fully resourced. Plans adapt as transformation progresses	Leaders embody transformation and create an environment of trust where it's safe to speak freely	The organisation compromises for the greater good and leads the way in transformation communities	Clear governance results in decisions being made at the right level and at the right time to drive progress	Ways of working needed for the future are adopted. Mature workforce planning exists
4	The vision sets a clear direction that people buy into. It is articulated in different ways	It's clear how different parts of the organisation will fit together. It's possible to assess progress as the design evolves	Planning is informed, coherent and mature, supporting both transformation and business as usual	Leaders tell a consistent story. They 'push' and 'pull' as needed to create the right environment for change	Roles, responsibilities and incentives reflect the need to collaborate, leading to new ways of working	People are becoming empowered and accountable for making decisions	Plans to deliver new skills or ways of working are being realised and people are engaged
3	There is a vision that is stretching but achievable. People see how they can fit into it	The design considers users and contains enough examples to bring it to life	Plans have the right level of detail and balance of tight and loose planning	There is sufficient ownership of transformation. Leaders talk about it. There are visible role models	Many decisions are made across boundaries. Shared outcomes are starting to be developed	There is broadly the right structure around transformation, with a focus on making decisions at the right time	Plans are in place to address the impact on people, ways of working and culture
2	A vision exists, but it means different things to different people	The design attempts to define the future in too much detail or doesn't cover everything it should	Plans are beginning to be joined up. Ambition and achievability need more focus	There is support for transformation at the top, and some change agents. There are meetings and ways to submit ideas	There is some understanding of stakeholders. Collaborative behaviour isn't yet commonplace	There is a growing level of accountability for transformation	The impact of transformation on people, ways of working and culture is understood
1	There is no clear vision for the future, or there are competing visions	There is no single design, or various designs are not joined up	Planning is not joined up. Plans are not flexible or achievable	Leaders talk about transformation on occasion. They make some effort to canvass views but avoid difficult messages	Collaboration across boundaries is limited	Responsibilities and accountabilities for transformation are unclear	The impact of transformation on people, ways of working and culture is not understood

4. Dirnadaeth o weithredu a darparu

- 4.1 Mae'r canfyddiadau yn yr adran hon o'r adroddiad yn amlygu dirnadaeth a'r prif themâu a dynnwyd o ddadansoddiad o'r cyfweiliadau ansoddol a gynhaliwyd gydag arweinwyr grant ac Ariannu Hyblyg mewn awdurdodau lleol (awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru) a gydag arweinwyr grant ac Ariannu Hyblyg yn Llywodraeth Cymru, yn ogystal â gyda rhanddeiliaid allweddol – gweler Tabl 2.2 am fanylion pellach y rolau hyn.
- 4.2 Cynhaliwyd y dadansoddiad o'r data ansoddol a oedd yn deillio o gyfweiliadau trwy ddefnyddio dull matrices thematig, y mae wedi manteisio'n helaeth ar Fatics Aeddfedrwydd y 7 Lens er mwyn cynnig elfennau allweddol i ganolbwyntio arnynt ar gyfer y grid dadansoddi.
- 4.3 Yn yr adrannau canlynol, rydym yn amlygu prif ganfyddiadau yn erbyn y themâu canlynol:
- gweledigaeth
 - dylunio a chynllunio
 - arweinyddiaeth drawsnewidiol
 - cydweithio
 - atebolrwydd
 - pobl
 - ffactorau allweddol i sicrhau darpariaeth lwyddiannus.
- 4.4 Yn gyntaf, rydym yn ystyried trosolwg o'r cynnydd gyda gweithredu a sicrhawyd o fewn Ariannu Hyblyg, cyn symud ymlaen i asesiad o'r cynnydd darparu yn erbyn pob un o'r themâu a amlygir uchod.
- 4.5 Ar ddiwedd y bennod, ceir asesiad o'r cynnydd wrth ddarparu'r dull yn erbyn Matrics Aeddfedrwydd y 7 Lens, ac mae'n nodi tri grŵp bras o awdurdodau: y rhai sy'n sicrhau cynnydd da (1), y rhai sy'n dangos arwyddion cadarnhaol o sicrhau cynnydd (2), a'r rhai y maent wedi sicrhau cynnydd llawer mwy cyfyngedig (3).

Cynnydd hyd yn hyn

Awdurdodau lleol

- 4.6 Ar draws yr holl gyfweiliadau gydag awdurdodau lleol, roedd hi'n amlwg bod y cynnydd wrth gyflawni dull Ariannu Hyblyg yn parhau i fod yn amrywiol, er y ceir mwy o enghreifftiau o swyddogion yn cydweithio ar draws y 10 rhaglen nag a nodwyd yn yr adroddiad gwerthuso interim.
- 4.7 At hynny, mae'r dull un grant ar gyfer HSG wedi dangos canlyniadau cadarnhaol wrth i'r cynllun ddatblygu a chydgynhyrchu canllawiau HSG unigol newydd, dulliau y cytunwyd arnynt ar gyfer asesiad anghenion, cynllunio strategol ac adolygiadau o ddarpariaeth gwasanaethau, cydweithio a gwaith cydweithredol, a nodi ffrydiau ariannu ychwanegol, sydd wedi deillio o amrediad o waith ar y cyd a gwaith a wnaethpwyd mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y trydydd sector, a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- 4.8 Roedd cynnydd yn llawer mwy tebygol wrth ddatblygu a gweithredu seilwaith a fframweithiau er mwyn darparu EIPS, a gwelwyd rhai enghreifftiau o newidiadau arbennig yn digwydd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth (gan gynnwys mynediad cyflymach i wasanaethau, mynediad trwy lwybrau cysylltu unigol, a staff darparu yn nodi bod priodoldeb y ddarpariaeth cymorth wedi gwella) a'u profiad o ddarparu gwasanaeth.
- 4.9 Felly, i fwyafrif yr awdurdodau lleol (18), mae'n parhau i fod yn rhy gynnar i nodi a yw dull Ariannu Hyblyg yn cael effaith ar arfer gwaith, neu ar y gwasanaeth y mae preswylwyr lleol yn ei gael. I'r rhan fwyaf sy'n cychwyn ar daith Ariannu Hyblyg, ceir cydnabyddiaeth bod llawer mwy i'w wneud o hyd, gan gynnwys archwilio datblygiad trefniadau comisiynu ar y cyd lle nad yw hyn yn digwydd yn barod. Ceir cryn ddiddordeb, fodd bynnag, mewn awdurdodau lleol yn dysgu mwy gan ei gilydd, yn enwedig gan yr awdurdodau braenaru. Fel yr amlygodd un awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru:

'Nid yw'n teimlo fel pe baem yn cael unrhyw beth gan yr awdurdodau braenaru, yr hyn sydd wedi gweithio neu'r hyn nad yw wedi gweithio.' (arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

- 4.10 Ar draws rhan fwyaf yr awdurdodau lleol (17), mae mynd ati i weithredu dull Ariannu Hyblyg wedi bod yn 'gatalydd' ar gyfer mwy o fomentwm wrth ddarparu newid, gan wella cyfanswm y cydweithio rhwng timau EIPS hefyd. Ymhellach, mae wedi atgyfnerthu'r angen am bersbectif strategol newydd er mwyn helpu i yrru hyn yn ei flaen.

- 4.11 Mae'r dyfyniadau canlynol yn dangos amrywiaeth sylweddol y cynnydd a sicrhawyd hyd yn hyn:

'Mae'n ddyddiau cynnar iawn...yn...[gynnar]... yn 18/19, ni wnaethom unrhyw ddefnydd o gwbl o bersbectif Cefnogi Pobl. Ers mis Hydref, heb os, rydw i wedi bod yn cydweithio'n llawer agosach gyda thai ac rydym wedi galluogi tai i gynorthwyo rhai o'n contractau Cefnogi Pobl, yn arbennig, gweithiwr cymorth ar gyfer tai gwarchod i bobl ifanc.' (arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

'Bu'r newidiadau mwyaf gyda theuluoedd cydnerth – proffilio y graddau o fod yn agored i niwed trwy ymyrraeth gynnar, tîm broceriaeth asesu, timau teulu...mae Cefnogi Pobl yn ariannu rôl yn y tîm, gan ddefnyddio cyfuniadau o arian er mwyn ariannu gwahanol swyddi.' (arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod braenaru)

'Mae wedi ysgogi trafodaethau ynghylch newid. Mae'n ddyddiau cynnar, ond datblygwyd gwasanaeth rhianta Teuluoedd yn Gyntaf/Dechrau'n Deg a rennir a datblygwyd swydd newydd, ond ni chaiff y darparu ei addasu eto.' (arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

'Trosoglwyddwyd swm bach o Ddechrau'n Deg i Cefnogi Pobl er mwyn cynnal ac ehangu rhywfaint o waith i nodi poblogaethau teithwyr a deall eu hanghenion mewn perthynas â darpariaeth Dechrau'n Deg.'

(arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

4.12 Yn fras, fel y mae'r dyfyniadau uchod yn dangos ac fel y mae'n gwaith dadansoddi ni yn dangos, mae'r enghreifftiau mwyaf nodedig o'r cynnydd a sicrhawyd wrth ddarparu (mewn awdurdodau braenaru ac mewn awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru) dull Ariannu Hyblyg wedi bod fel a ganlyn:

- mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o nodau, amcanion a natur darparu y 10 grant o fewn CCG (7) a HSG (3)
- enghreifftiau cynyddol o gydweithio neu ymgysylltu ar y cyd ar draws grantiau
- datblygu swyddogaethau cefn swyddfa, comisiynu, caffael, TG a systemau data cymysg
- mapio dulliau presennol i ddarpariaeth gwasanaeth er mwyn nodi dyblygu posibl ar draws grantiau ac unrhyw fylchau mewn argaeledd
- gwneir rhywfaint o waith ail-gomisiynu a datblygu gwasanaethau newydd, ond heriwyd hyn gan amodau cytundebol presennol yn gosod rhwystrau ariannol mewn perthynas â gallu ail-gomisiynu gwasanaethau
- adroddwyd am rai manteision wrth gynorthwyo cleientiaid yn gyflymach pan fyddant yn cychwyn ac yn gorffen, gyda gwasanaeth mwy cydgysylltiedig yn cael ei gynnig, ond mae rhan fwyaf yr awdurdodau lleol gryn ffordd i ffwrdd o weithredu o'r fath ac maent yn targedu newidiadau o ran y ddarpariaeth i gleientiaid yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, neu hyd yn oed o fis Ebrill 2020 (o ystyried y gwaith adolygu pellach, y cynllunio a'r gweithredu sy'n ofynnol o hyd mewn rhai ardaloedd).

- 4.13 Nodweddwyd yr enghreifftiau cryfaf o gynnydd gan ddulliau Ariannu Hyblyg sy'n meddu ar weledigaeth glir a gweithgareddau dylunio a chynllunio manwl er mwyn sefydlu model darparu lleol, sy'n canolbwyntio ar atebolrwydd ac arweinyddiaeth drawsnewidiol. Mewn gweledigaeth glir o'r fath, mae'r ffordd y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio cyllid mewn ffordd hyblyg a hyblygrwydd y dull(iau) wrth ddarparu wedi cael ei chyfleu'n glir.
- 4.14 Mae data gan awdurdodau lleol braenaru yn nodi sut y maent wedi defnyddio'r hyblygrwydd gyda 100% o'r cyllid a oedd ar gael iddynt yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19. Mae Tabl 4.1 yn cyflwyno crynodeb ar draws y 10 maes rhaglen.
- 4.15 Mae Tabl 4.1 yn dangos:
- Y manteisiwyd yn y ffordd fwyaf helaeth ar hyblygrwydd ariannu yn ôl gwerth net er mwyn darparu cronfeydd ychwanegol o raglenni eraill ar gyfer Cefnogi Pobl ac Atal Digartrefedd, ac mae swm ychwanegol o £719,000 (1.44% o gyfanswm y gyllideb ar draws y saith awdurdod braenaru) a £458,000 (43.34%), wedi cael ei ail-neilltuo o raglenni o fewn Ariannu Hyblyg i'r rhaglenni hyn
 - Mae dyraniadau cyllid ychwanegol yn fwyaf cyffredin ar gyfer Dechrau'n Deg (mae pum awdurdod braenaru wedi ail-neilltuo cronfeydd ychwanegol i'r rhaglen hon yn eu hawdurdod), Cefnogi Pobl (4) a Chronfa Dydd Gŵyl Dewi (4) Mae ail-neilltuo cyllid trwy fanteisio ar hyblygrwydd wedi bod fwyaf cyffredin o Gymunedau am Waith a Mwy (mae £681,000 wedi cael ei ail-neilltuo i raglenni eraill mewn chwe awdurdod lleol)¹⁸, Dechrau'n Deg (£308,000, er bod hyn wedi cael ei yrru gan ail-neilltuo mewn un ardal fraenaru), a Teuluoedd yn Gyntaf (£223,000 mewn pum awdurdod braenaru).

¹⁸ 2018/19 oedd blwyddyn gyntaf CfW+ a gwelwyd tanwariant o ganlyniad i oedi wrth recriwtio staff mewn nifer o awdurdodau lleol ar draws Cymru. Roedd yr oedi hwn yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith nas cyhoeddwyd Cynigion Grant ar gyfer 2018/19 tan ddiwedd mis Mawrth 2018.

Tabl 4.1: Crynodeb o weithgarwch defnyddio hyblygrwydd ariannu gan awdurdodau braenaru (7) fesul rhaglen 2018/19

Rhaglen	Nifer yr awdurdodau braenaru a fu'n hyblyg wrth drosglwydd o cronfeydd i raglen	Nifer yr awdurdodau braenaru a fu'n hyblyg wrth drosglwyddo cronfeydd i raglenni eraill	Balans net y gweithredu hyblyg gydag arian ar draws awdurdodau braenaru ¹⁹	% o holl arian rhaglenni a ddefnyddiwyd mewn ffordd hyblyg
Cefnogi Pobl	4	0	+£719K	+1.44
Dechrau'n Deg	5	1	-£308K	-0.93
Teuluoedd yn Gyntaf	1	5	-£223K	-1.40
Y Gronfa Waddol Cronfa Dydd	3	3	+£4K	+0.14
Gŵyl Dewi	4	0	+£16K	+3.76
Atal Digartrefedd	2	1	+£458K	+43.34
Gorfodi Rhentu				
Doeth Cymru	0	2	-£2K	-2.13
Gofal Plant a Chwarae	3	1	+£17K	+1.92
Hybu Ymgysylltiad				
Cadarnhaol	0	0	0	0.00
Cymunedau am Waith a Mwy	0	6	-£681K	-12.72

Ffynhonnell: Ffurflenni Monitro Awdurdodau Braenaru Chwarter 4, 2018/19

4.16 Mae'r ffigurau hyn yn dangos y bu rhywfaint o symud cyfyngedig eisoes mewn wyth o'r naw gronfa a fu'n destun gweithredu hyblyg yn ystod 2018/19, sy'n cyfateb ag 1-4% o gyfanswm cyllid y rhaglen ynddynt. Mae Atal Digartrefedd yn allanolyn, gyda gweithredu hyblyg yn ymwneud â 43% o gyfanswm y cyllid ar gyfer y rhaglen, sy'n adlewyrchu gwerth cymharol is cyfanswm y cyllid yn yr achos hwn: £1.05M yn 2018/19. Gydag amser, dylid disgwyl y gallai patrymau ail-neilltuo amrywio o flwyddyn i flwyddyn; fodd bynnag, mae'n dangos bod gweithgarwch ail-neilltuo yn gallu digwydd er mwyn cynorthwyo ffurfiau darparu newydd neu ychwanegol ar ôl rhoi

¹⁹ Mae ffigwr cadarnhaol yma yn dangos bod y rhaglen wedi gallu defnyddio cronfeydd ychwanegol a neilltuwyd iddi o raglenni eraill o fewn dull Ariannu Hyblyg yn y saith awdurdod braenaru. Mae ffigwr negyddol yn dangos y defnyddiwyd cronfeydd mewn rhaglenni eraill.

systemau ar waith a chynnal trafodaethau rhwng arweinwyr rhaglen awdurdodau lleol.

- 4.17 Ceir tystiolaeth o gynnydd yn cael ei sicrhau o ran y dull o ddefnyddio hyblygrwydd wrth sefydlu gweithgorau a phaneli adolygu er mwyn ystyried a nodi ffyrdd amgen o gydweddu gwasanaethau, neu ail-neilltuo cyllid.
- 4.18 Mewn rhai achosion, mae hyn wedi cynnwys comisiynu gwasanaethau ar y cyd mewn meysydd cymorth penodol megis trais domestig, rhianta, neu rywfaifnt o gymorth iechyd meddwl. Yn yr achosion hyn, hwyluswyd y gweithgarwch comisiynu ar y cyd gan gyfarfodydd rhwng arweinwyr grant awdurdodau lleol a anogwyd gan ddull Ariannu Hyblyg, er mewn rhai achosion, roedd symudiadau o'r fath eisoes wedi cychwyn cyn y dechreuwyd defnyddio'r dull. Mae dulliau amgen pellach i gomisiynu ar y cyd wedi cynnwys enghreifftiau o greu swyddi a ariannir ar y cyd, lle y cyfunwyd cronfeydd ar draws sawl rhaglen er mwyn rhoi sylw i fylchau yn y gwasanaeth a ddarparir, neu er mwyn darparu capasiti ychwanegol i roi sylw i'r galw cynyddol am gymorth – staff cymorth rhianta ychwanegol, neu staff cymorth blynyddoedd cynnar ychwanegol.
- 4.19 Mewn rhai achosion (awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru), mae darparu wedi eu galluogi i symleiddio gwasanaethau fel bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu bodloni gan yr un gweithwyr cymorth, yn hytrach nag unigolion yn gorfod manteisio ar gymorth trwy amrediad o unigolion ar draws gwahanol wasanaethau mewn awdurdodau lleol.
- 4.20 Felly, mae'r darlun ar lefel awdurdod lleol yn gymysg, gyda rhai awdurdodau lleol (pump) wedi sicrhau, neu o leiaf yn dechrau sicrhau, cynnydd da. Yn yr ystyr hwn, mae cynnydd da yn dynodi awdurdodau lleol sydd wedi pennu gweledigaeth glir a chynllun strategol er mwyn seilio'u dull Ariannu Hyblyg arnynt, gyda chymorth trefniadau cydweithio sy'n dod i'r amlwg, strwythurau atebolrwydd clir, a rhai arwyddion cynnar y gallai defnyddwyr gwasanaeth fod yn gallu manteisio'n haws ar wasanaethau sy'n berthnasol i'w hanghenion penodol.

- 4.21 Mae grŵp pellach (o 12 awdurdod) yn dechrau sefydlu adolygiadau a nodi ffyrdd y gallant symud darpariaeth rhaglen yn ei blaen trwy gyfrwng y ddau grant (CCG a HSG); at hynny, mae'n debygol y gallent ddechrau gweld rhai arbedion effeithlonrwydd yn deillio o hyn, efallai trwy waredu dyblygu wrth ddarparu gwasanaethau, neu thrwy ddarpariaeth cymorth mwy integredig trwy lwybrau darparu unigol, yn hytrach nag unigolion yn gorfod ymgysylltu â gwasanaethau lluosog.
- 4.22 Fodd bynnag, nid oes tri awdurdod²⁰ wedi gwneud fawr iawn o gynnydd oherwydd prinder staff a phwysau ehangach ar adnoddau, ac efallai bod angen cymorth ychwanegol ar yr awdurdodau hyn gan y tîm Cydweddu Ariannu o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn eu helpu i symud ymlaen yn 2019/20.

Llywodraeth Cymru

- 4.23 Mae'r sialensiau wedi parhau i Lywodraeth Cymru. Mae'r tîm Cydweddu Ariannu (y tîm Pontio Ariannu yn flaenorol) wedi wynebu pwysau wrth ddarparu o ganlyniad i drosiant staff, sydd wedi ei gwneud hi'n anodd iawn rheoli perthnasoedd gyda 22 o awdurdodau lleol.
- 4.24 Mae staff Llywodraeth Cymru yn cyfaddef eu bod 'ar daith' mewn perthynas ag Ariannu Hyblyg ac nad oes gweledigaeth gadarn ar gyfer y dull wedi cael ei chrisialu'n llawn eto.
- 4.25 Ar y cyfan, mae arweinwyr rhaglen unigol ar draws y 10 rhaglen yn gefnogol o gysyniad dull Ariannu Hyblyg; fodd bynnag, mae gofyn cael mwy o eglurder am ei ystyr o fewn Llywodraeth Cymru, y rolau a gyflawnir gan dimau rhaglen unigol a sut y caiff hyn ei gyfathrebu y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel y mae un o arweinwyr rhaglen Llywodraeth Cymru yn dadlau, roedd Ariannu Hyblyg:

'Yn agor llygaid. Yn ein gorfodi i edrych ar ddrych... mae wedi fy nysgu i bod angen mwy o gyfle i reolwyr grant ddod ynghyd i siarad mwy am nodau ac amcanion pob rhaglen a sut y gallent ddod ynghyd'

²⁰ Ni fu modd cynnal cyfweiliadau gyda dau awdurdod lleol; oherwydd y diffyg data cyfweld, nid ydym wedi gallu eu neilltuo i grŵp penodol.

- 4.26 Mae arweinwyr rhaglen Llywodraeth Cymru yn nodi hefyd bod sawl her strategol yn parhau oherwydd y gwasgarir ffocws y ddau grant ar draws sawl portffolio Gweinidogol, sy'n gwanhau nerth y weledigaeth a'r atebolrwydd dros sicrhau cynnydd tuag at gyflawni amcanion dull Ariannu Hyblyg. Maent yn awgrymu bod angen symleiddio hyn ar fyrder er mwyn sicrhau y gellir cyfleu negeseuon mwy cyson i awdurdodau lleol.
- 4.27 At hynny, mae arweinwyr rhaglen o fewn Llywodraeth Cymru yn nodi sialensiau wrth gydlynw a chyfleu negeseuon cyson ynghylch sut y dylai pob rhaglen weithredu o fewn CCG a HSG, ac mae hyn wedi cymhlethu eu tasgau mewn perthynas â gwaith. Fodd bynnag, cymrwyd camau cadarnhaol yn ddiweddar wrth gyflwyno'r canllawiau HSG unigol newydd, sydd wedi cynnwys cyd-gynhyrchu prosesau a dulliau cytunedig er mwyn asesu anghenion a chynllunio gwasanaethau mewn ffordd strategol a gynhaliwyd ar y cyd gyda rhanddeiliaid allanol gan gynnwys staff awdurdodau lleol, y trydydd sector, a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Gallai'r rhain fod yn batrwm ar gyfer datblygiadau CCG yn y dyfodol.
- 4.28 Mae sawl arweinydd rhaglen Llywodraeth Cymru yn nodi bod nifer o awdurdodau lleol yn ceisio lefelau rhagnodi uchel o ran yr hyn y dylai rhaglenni fod yn ei wneud o fewn dull Ariannu Hyblyg ac o ran cydweddu gyda CCG a HSG, ac y bu adegau pan gafwyd cyngor anghyson ynghylch dull Ariannu Hyblyg a'r ffordd y mae'n cydweddu gyda chanllawiau rhaglenni.
- 4.29 Mae dadansoddiad o'r canfyddiadau am y cynnydd a sicrhawyd o fewn Llywodraeth Cymru yn dangos bod gwaith i'w wneud o hyd er mwyn galluogi arweinwyr rhaglenni i gydweithio'n agosach a mabwysiadu dulliau mwy cyson wrth gydweithio gydag arweinwyr awdurdodau lleol i gyflawni dull Ariannu Hyblyg. Yn ogystal, dylai hyn adolygu'r ffyrdd o weithio o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn cynnwys yr egwyddorion sy'n sail i ddarparu dull Ariannu Hyblyg mewn ffordd fwy strategol.

- 4.30 Yn y paragraffau canlynol, rydym yn amlinellu'r cynnydd a gaiff ei sicrhau yn erbyn pob thema dadansoddi allweddol a nodwyd o'r 7 Lens Trawsnewid ac a amlygwyd ym mharagraff 4.3.
- 4.31 Yn y rhain, rydym yn trafod ystyr pob Lens a pha mor berthnasol ydyw i gyflawni dull Ariannu Hyblyg, gan nodi manylion y cynnydd a gaiff ei sicrhau yn ei erbyn (yn unol â thystiolaeth y cyfweiliadau sy'n dangos newidiadau neu dueddiadau sy'n dod i'r amlwg), a chan amlygu prif wersi a ddysgwyd ganddo. At hynny, rydym yn amlygu, pan fo hynny'n briodol, canfyddiadau penodol a dynnwyd o awdurdodau lleol a rhanddeiliaid, yn ogystal â phersbectifau sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru.
- 4.32 Rydym yn dechrau canolbwyntio ar y weledigaeth, y dyluniad a'r cynlluniau sy'n cynnig sylfaen ar gyfer gweithgarwch darparu rhaglen, fel y nodir yng ngweithgarwch darparu awdurdodau lleol, yn ogystal â chymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer y darparu hwnnw.

Lens 1: Gweledigaeth

- 4.33 Er mwyn sicrhau newid eang ar draws systemau, megis dull Ariannu Hyblyg, mae dull 7 Lens yn nodi bod yn rhaid i arweinwyr ddatblygu **gweledigaeth** am ganlyniad a ddymunir yn y dyfodol, y gall pawb ymrwymo iddi (yn yr achos hwn, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru), law yn llaw â diffiniad clir o'r egwyddorion y bydd systemau yn y dyfodol yn gweithredu yn unol â nhw, yn ogystal â set o ymyriadau a fydd yn dechrau trawsnewid y system bresennol yn system y dyfodol. Mae angen i'r weledigaeth er mwyn cynorthwyo'r ddarpariaeth fod yn uchelgeisiol ac ystyried y tymor hir, gan nodi'n glir y canlyniadau y mae sefydliadau sy'n ceisio'r trawsnewidiad yn dymuno'u cyflawni.

Tueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran cynnydd

- 4.34 Mae awdurdodau lleol wedi cyrraedd cyfnodau amrywiol wrth ddatblygu gweledigaeth. Mae rhai wedi gweithredu strategaethau newydd sy'n cydfynd â chynlluniau sefydliadol eraill (megis cynlluniau corfforaethol y cyngor), ac mae eraill yn nodi eu bod yn datblygu eu gweledigaeth ar hyn o bryd ac nad yw'n gyflawn eto. Mae'n bwysig nodi bod y cynnydd yn amrywio ar draws awdurdodau braenaru, yn ogystal ag ar draws awdurdodau nad ydynt

yn awdurdodau braenaru, a nodir cynnydd ymhlith y ddau fath o awdurdod, yn ogystal â rhai awdurdodau braenaru sy'n gwneud llawer yn llai o gynnydd.

- 4.35 Yn yr achosion lle y mae awdurdodau lleol wedi gallu ail-neilltuo cronfeydd, neu newid cynlluniau cyflawni²¹, roedd datganiadau gweledigaeth mwy datblygedig (a chynlluniau cysylltiedig) wedi mynd trwy brosesau cymeradwyo y Cabinet, felly roeddent wedi ymwreiddio yn fwy mewn ffocws strategol awdurdod ehangach (a oedd yn aml wedi digwydd cyn gweithredu'r dull Ariannu Hyblyg lleol). Roedd hyn yn sicrhau cynnydd, oherwydd fel y mae'r arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod braenaru yn nodi:

'[Roedd hyn wedi creu]...cyffro pobl a oedd yn dweud gyda'i gilydd y byddwn yn ei wneud gyda'n gilydd...[roeddent yn frwdfrydig ynghylch]...cael model cyflawni sy'n seiliedig ar brofiad o'r defnyddiwr gwasanaeth yn ei fapio...[a staff yn nodi ei fod]...wedi rhoi ymdeimlad i mi y gallwch chi newid pethau' (arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod braenaru)

- 4.36 Roedd buddsoddi amser ac adnoddau er mwyn siapio gweledigaeth ar gyfer eu gweithgarwch i gyflawni dull Ariannu Hyblyg yn rhan ganolog o'r cynnydd a ddangoswyd gan yr awdurdodau lleol hyn, ac yn aml, roedd hyn (fel y dangosodd ein canfyddiadau interim yn arbennig) yn gysylltiedig gyda rhaglen newid corfforaethol a oedd yn bodoli eisoes, ac yn parhau, neu gyda ffocws strategol penodol ar gyfer yr awdurdod. Roedd hyn yn galluogi'r dull Ariannu Hyblyg lleol i weithredu fel 'cerbyd' er mwyn cyflawni'r agenda honno. At hynny, mae angen iddo nodi yn y weledigaeth honno ddulliau gweithredu ar gyfer defnyddio cyllid mewn ffordd hyblyg a hyblygrwydd wrth ddarparu gwasanaethau EIPS.

²¹ Mae hyn yn dangos bod darpariaeth Ariannu Hyblyg yn dechrau cael ei weithredu mewn camau bychain neu gyfnodau bychain.

- 4.37 Yn y cyd-destun hwn, y peth mwyaf cyffredin yw bod nifer o awdurdodau yn ffurfio cysylltiadau strategol gydag ysgogwyr allweddol sy'n cyd-fynd gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015²² a Strategaethau Trechu Tlodi Lleol ac agenda Genedlaethol Ffyniant i Bawb²³.
- 4.38 Mantais cael gweledigaeth glir yw ei bod yn helpu i bennu cyd-destun ar gyfer y newidiadau y mae'r dull Ariannu Hyblyg Lleol yn ceisio'u cyflawni, yn ogystal â sut y caiff ei weithredu trwy ddefnyddio cyllid a hyblygrwydd o ran y dull cyflawni. Pan na cheir un, y duedd yw bod staff mewn awdurdodau lleol yn canolbwyntio eu pryderon ar doriadau yn y cyllid, camau pellach posibl i ailstrwythuro'r trefniadau staffio a/neu ansicrwydd am y cyllid, ac mae hyn yn peri i'r gwaith cyflawni fod yn fwy heriol.
- 4.39 Yn aml heb weledigaeth leol glir, mynegwyd safbwynt gan ymatebwyr o awdurdodau lleol a oedd barnu bod unrhyw ddull Ariannu Hyblyg Lleol yn fesur er mwyn 'arbed arian'. Roedd yn ymddangos bod y farn hon yn arbennig o gyffredin yn yr awdurdodau lleol llai (yn ôl maint poblogaeth y preswylwyr/ardal yr awdurdod), a barnwyd y gallai fod yn anos gwneud arbedion effeithlonrwydd, yr oeddent yn cael eu hystyried fel ysgogydd allweddol ar gyfer y rhaglen yn yr agenda 'arbed costau' yr oeddent yn tybio mai honno oedd ffocws pennaf Ariannu Hyblyg.
- 4.40 Amlygodd y sawl a gyfwelwyd o awdurdodau lleol eu bod yn ceisio mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch y weledigaeth ar gyfer dull cyffredinol Ariannu Hyblyg, a bod hyn yn cyfrannu at yr anhawster yr oeddent yn ei gael i ddatblygu gweledigaeth leol ar gyfer eu dull nhw, fel bod:
- 'Pobl ar lawr gwlad yn teimlo o hyd bod yn rhaid iddynt weithio yn unol â chanllawiau cronfa benodol...[yn hytrach na gweledigaeth benodol ar gyfer Ariannu Hyblyg]' (arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)*

²² Am fanylion pellach y Ddeddf, gweler [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#)

²³ Am fanylion pellach gweler [Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ynghylch Tlodi](#)

4.41 Mae hon yn farn a welwyd ymhlith staff Llywodraeth Cymru hefyd, wrth i arweinwyr rhaglen nodi y byddai angen i'r camau datblygiadol nesaf ar gyfer dull cyffredinol Ariannu Hyblyg ateb rhai *'cwestiynau strategol sylfaenol'* wrth ystyried yr ychydig flynyddoedd nesaf lle y byddai ei gyflwyno'n barhaus yn cynorthwyo awdurdodau lleol gyda'u gweithgarwch penderfynu nhw pan na fydd gweledigaeth leol wedi cael ei chrisialu eto.

4.42 Yn wir, fel y nodwyd gan un aelod o staff Llywodraeth Cymru, mae angen y canlynol ar ddull cyffredinol Ariannu Hyblyg:

'Gweledigaeth sy'n cynnwys bwriad clir o'r hyn y mae'r rhaglen yn ceisio'i gyflawni'. (arweinydd rhaglen Llywodraeth Cymru)

Gwersi a ddysgwyd

4.43 Mae'r canfyddiadau hyn wedi pwysleisio ymhellach bwysigrwydd sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir ar gyfer dull Ariannu Hyblyg ar lefel awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Mae'r weledigaeth ar gyfer dull Ariannu Hyblyg yn parhau i fod yn rhywbeth nad yw wedi cael ei chrisialu'n llawn o hyd yn rhan fwyaf yr awdurdodau lleol, a bod angen ei hail-lunio/ailosod ar lefel Llywodraeth Cymru er mwyn hwyluso'r cam o'i mabwysiadu mewn dulliau Ariannu Hyblyg lleol. Wrth symud hyn yn ei flaen, dylai'r rhai ar frig y sefydliad gymryd perchnogaeth o'r weledigaeth ddiwygiedig, a dylai gael ei llunio/creu gan bobl sy'n cynrychioli ehangder ac amrywiaeth y ddarpariaeth y mae'n ceisio'i sicrhau – dull a ysgogir ar lefel awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

4.44 Ymhellach, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y weledigaeth hon yn hollbwysig er mwyn galluogi awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i wneud gwaith dylunio a chynllunio effeithiol, er mwyn gweithredu dull Ariannu Hyblyg effeithiol a defnyddio cyllid mewn ffordd hyblyg, fel yr amlygir isod:

'[Yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu yw]...bod angen gweledigaeth o'r cychwyn cyntaf, gyda grŵp clir o bobl atebol a chynllun clir y mae'n rhaid cyflawni yn ei erbyn, gan gynnwys cyfathrebu, a chynllunio, a'r cyfeiriad gweithredu ar gyfer y cyngor i'w gymeradwyo gan y grŵp.' (arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod braenaru)

Lensys 2 a 3: Dylunio a chynllunio

- 4.45 Mae'r angen am y weledigaeth a nodwyd uchod yn darparu'r cyd-destun hefyd ar gyfer y **dylunio** y mae, fel y mae'r 7 Lens Trawsnewid yn dadlau, yn nodi sut y caiff sefydliadau a'u rhannau eu ffurfweddu a'u hintegreiddio er mwyn cyflawni'r weledigaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn gweithredu dull Ariannu Hyblyg, gan ei fod yn cynnig strwythur darparu clir ar lefel leol ac ar lefel gyffredinol y gellir cyflawni'r weledigaeth trwyddo, ac mae angen golwg o'r ffordd y mae'r darlun cyfan yn dod ynghyd ar drawsnewidiadau cymhleth er mwyn cyflawni'r weledigaeth.
- 4.46 Mae'r lenyddiaeth gefndirol am y 7 Lens a'r canfyddiadau yn ein gwerthusiad interim blaenorol yn amlygu'r ffaith bod creu newid o ran systemau yn gofyn am **gynllun** clir, sydd nid yn unig yn cynnig map tuag at newid ac yn rhoi hyder i'r gweithredwyr, ond sy'n caniatáu hyblygrwydd digonol hefyd er mwyn bodloni galwadau'r broses drawsnewidiol.
- 4.47 Disgwylir i'r cynllun nodi sut y caiff gwasanaethau eu cynnal yn ystod unrhyw newid a gyflawnir yn unol â'r cynllun, yn ogystal â'r risg a'r dulliau er mwyn mesur cynnydd. Mae gwaith y 7 Lens yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd angen i'r rhai sy'n cyflawni'r math o newid trawsnewidiol sy'n debygol o gael ei weld gan Ariannu Hyblyg, fuddsoddi amser sylweddol a medrau mewn datblygu a monitro'r cynllun, gan fanteisio efallai ar arweinydd/arweinwyr dynodedig i helpu i fwrw ymlaen gyda'r elfen gyflawni hon.

Tueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran y cynnydd

- 4.48 Yr awdurdodau lleol sydd wedi sicrhau cynnydd wrth gyflawni dull Ariannu Hyblyg yw'r rhai sydd wedi pennu cynlluniau a dylunio dulliau gweithredu trwy weithredu gweithgorau. Mae'r rhain yn darparu mecanweithiau ar gyfer pob un o'r rhaglenni i gynnull er mwyn trafod dewisiadau i adolygu darpariaeth y rhaglen, neu gyfuno cyllidebau, a chytuno ar y 'rheolau gornest' o ran sut y symudir y rhain yn eu blaen yn unol â dull Ariannu Hyblyg.

- 4.49 Mae hyn, fel y dangosir gan ein cyfweiliadau gydag awdurdodau lleol, yn cychwyn gyda chynyddu dealltwriaeth o'r ddarpariaeth gan bob rhaglen, lle y gwelir amcanion a rennir a lle y gellir darganfod cyfleoedd ar gyfer 'synergeddau', a lle y bydd modd rhoi sylw i fylchau yn y gwasanaeth efallai.
- 4.50 Felly, dylai'r gwaith o ddylunio a chynllunio dull Ariannu Hyblyg Lleol geisio cytuno ar ddealltwriaeth gyffredin o ganlyniadau bwriadedig y ddarpariaeth ddiwygiedig a sut y gallai hyn gyd-fynd â'r uchelgais ar gyfer y ddarpariaeth honno sy'n deillio o'r weledigaeth a fynegwyd. At hynny, o hyn, mae angen i'r dyluniad a'r cynllun ganolbwyntio ar nodi camau clir a threfnu'r darparu, a (wedi'i lywio gan y gweithgorau) siapio mecanweithiau er mwyn cytuno ar y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud o ran sut y byddai modd defnyddio cyllid mewn ffordd fwy hyblyg.
- 4.51 Nodwedd hollbwysig yw na fydd datblygiad y dyluniad a'r cynllun er mwyn symud ymlaen yn mynd ar goll mewn cryn dipyn o fanylion am y gwaith cyflawni. Mae'n dadansoddiad yn dangos bod y cyhoeddiad Gweinidogol (Hydref 2018; gweler para. 1.8) wedi peri rhywfaint o anhawster ar gyfer gweithgareddau dylunio a chynllunio mewn rhai awdurdodau lleol. Mae hyn oherwydd bod y symud i'r dull dau grant wedi peri i rai ailystyried manylion y darparu ac i geisio eglurhad pellach am y ffordd y bydd angen adlewyrchu'r newid efallai wrth ddarparu yn y dyfodol. Mae hyn wedi tueddu i ddigwydd yn yr awdurdodau hynny lle y mae'r dull a'r weledigaeth sy'n cynnig sylfaen iddo yn llai aeddfed, gan olygu bod gofyn gwneud gwaith pellach er mwyn eu cwblhau.
- 4.52 Fodd bynnag, nid yw'r symud i ddull dau grant wedi herio'r weledigaeth strategol ar gyfer darparu mewn awdurdodau lleol lle y mae hyn wedi bod yn sefydledig am gyfnod llawer hwy ac mae'n cael ei ddeall yn ehangach ar draws awdurdod penodol.

- 4.53 Yn yr achosion hyn, nododd ymatebwyr o awdurdodau lleol nad yw'r dull dau grant wedi cael effaith o bwys, gan eu bod wedi ceisio parhau ar eu llwybr yr oeddent yn ei ddilyn cyn y gwnaethpwyd y cyhoeddiad Gweinidogol. Felly, maent yn parhau i ddwyn yr un bobl i'r bwrdd, gan ddefnyddio'r trafodaethau hynny er mwyn siapia gwaith cynllunio a dylunio. Fel y mae un ymatebydd yn nodi:

'Mae ychydig yn siomedig...[newid i ddau grant]...ein bod yn gweithredu'n 'hyblyg' o fewn y terfynau bychain hyn, ond rydym yn mynd i roi cynnig ar ei wneud ar y cyd o hyd, ac o ddull gweithredu cydgysylltiedig, er mai dwy gronfa ydyw' (arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

- 4.54 Mae rhai ymatebwyr yn nodi bod y dull dau grant wedi bod o gymorth wrth leihau pryderon ynghylch arian yn cael ei dynnu o feysydd gwasanaeth. Mae'n ymddangos y croesawyd y rhaniad o fewn Digartrefedd a Cefnogi Pobl, ond mae'n ymddangos bod pryderon mwy ynghylch ail-neilltuo arian i raglenni y tu allan i HSG.

- 4.55 Amlygodd arweinydd rhaglen arall o Lywodraeth Cymru bod y cyhoeddiad ynghylch dau grant wedi creu ansicrwydd i'w staff nhw, a arweiniodd at leihau arloesi wrth ddarparu rhaglenni. Roedd un arall yn cytuno bod diffyg gweledigaeth glir yn arwain at heriau wrth iddynt ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynghylch cyflwyno'r rhaglen, ac roedd newid i'r dull dau grant ar gyfer Ariannu Hyblyg wedi cymhlethu hyn ymhellach:

'Heb y cyfeiriad cenedlaethol am y cyfle...[a'r weledigaeth] ar gyfer y rhaglen, fy mhryder i yw bod yr 'hyblygrwydd' yn ychwanegu at fwy o ddryswch ac amrywiad...[i ddarpariaeth gan awdurdodau lleol]' (arweinydd rhaglen Llywodraeth Cymru)

- 4.56 Mae'n wir hefyd bod diffyg ymdeimlad o weledigaeth i rai yn ategu'r ymdeimlad o 'feddylfryd gweithio mewn seilos' neu 'werthfawrogrwydd' ynghylch cyllid ymhlith staff awdurdodau lleol. Mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol, mae hyn yn golygu bod pwyslais o hyd ar glustnodi cyllid, ofnau ynghylch arian yn cael ei dynnu i ffwrdd o rai meysydd darparu, neu wrthwynebiad i ymgysylltu'n llawn â gwaith a wneir ar y cyd neu fforymau

trafod sy'n ymchwilio i'r ffordd y byddai modd cyfuno cyllidebau er mwyn gwella darpariaeth EIPS ar gyfer preswylwyr lleol. Yn yr ardaloedd hyn, ceir tuedd i fanylion darpariaeth rhaglen benodol dynnu sylw pobl, yn hytrach nag ystyried y darlun ehangach a dynnir o weledigaeth sy'n cael ei phennu o hyd a'r gwaith dylunio a chynllunio cysylltiedig y mae angen iddo ddod allan ohono. Mewn ardaloedd lle y gwelir gweledigaethau cryfach, penodedig, mae'r duedd hon lawer yn llai.

- 4.57 Ceir elfennau tebyg mewn materion a godir gan y sawl a gyfwelwyd yn Llywodraeth Cymru sy'n dangos bod y weledigaeth gyfyngedig a'r her sy'n codi wrth wneud gwaith dylunio a chynllunio ar gyfer dull Ariannu Hyblyg yn golygu bod nifer o staff Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn amddiffynnol iawn o 'hunaniaeth' eu grantiau a'u ffocws (sefyllfa a welir mewn nifer o awdurdodau lleol hefyd), ac mae'r 'datrysiad' dau grant wedi cymhlethu hyn ymhellach.
- 4.58 Yn ogystal, mae nifer o staff yn gofidio am eu dyfodol – e.e. swyddi, rolau, materion y bydd grantiau yn rhoi sylw iddynt, rolau'r grantiau y maent yn eu goruchwyllo yn y dyfodol – ac maent yn ceisio eglurder am y ffordd y gallai'r weledigaeth, y dyluniad a'r cynllun ar gyfer dull cyffredinol Ariannu Hyblyg yn y dyfodol ddylanwadu ar eu rolau gwaith cyfredol:

'Mae'r ansicrwydd wedi bod yno ers y cychwyn...mae wedi bod yn gythryblus iawn i ni sy'n gweithio ar raglenni penodol, dim darlun clir am yr hyn a fydd yn digwydd i'n rolau ac a fyddant yn parhau – ni fydd modd ateb y cwestiynau hynny' (arweinydd rhaglen Llywodraeth Cymru)

- 4.59 At hynny, mae'n ymddangos nad yw'r cynllun a'r dyluniad penodol ar gyfer cyflawni dull Ariannu Hyblyg trwy'r 10 rhaglen wedi cael ei wireddu'n llawn eto, ac nid yw rhai arweinwyr rhaglen yn Llywodraeth Cymru yn glir o hyd am y ffordd y mae'r datrysiad dau grant newydd yn cyd-fynd:

'Wrth wraidd y peth o hyd...nid oes cytundeb clir a ydym yn sôn am 10 [grant]...i un llwybr talu a 10 maes polisi, neu a ydym yn symud i waredu meysydd polisi a thimau polisi a...[chael]...un grant yn cael ei ddarparu trwy ddau bot' (arweinydd rhaglen Llywodraeth Cymru)

- 4.60 Yr hyn sy'n glir yw bod y dull presennol tuag at Ariannu Hyblyg yn arwain at fwy o alwadau ar staff mewn timau rhaglen penodol. Nododd bron holl staff Llywodraeth Cymru eu bod wedi bod yn dyst i faich weinyddol uwch ar eu timau rhaglen nhw oherwydd yr angen i helpu awdurdodau lleol i weithio trwy datrysiadau, yn ogystal â rhoi sylw i gwestiynau ynghylch pa mor 'hyblyg yw hyblyg', nodi ble y byddai modd bod yn hyblyg gyda'r canllawiau presennol a chynnig arweiniad perthnasol a chyson i'r awdurdodau lleol hynny. Mae hon yn faich a welir ymhlith staff rhaglen mewn awdurdodau lleol hefyd, yn enwedig yn yr awdurdodau hynny nad yw eu gweledigaeth ynghylch y ffordd y bydd eu dull Ariannu Hyblyg yn symud yn ei flaen, mor ddatblygedig.
- 4.61 Mae'r staff hyn yn Llywodraeth Cymru yn hapus bod cyswllt ychwanegol yn cael ei wneud gydag awdurdodau lleol, ond maent yn pryderu am y galwadau ar adnoddau a fydd yn deillio o hyn, ac a oes adnoddau digonol wedi cael eu neilltuo i ddulliau presennol, neu a ydynt wedi cael eu paratoi mewn ffordd ddigonol, er mwyn rhoi sylw i'r galwadau ychwanegol hyn ar dimau rhaglenni:

'Roeddem yn rhedeg cynllun grant eithaf effeithlon. Roedd y broses o gael yr arian allan a chael yr adroddiadau i mewn yn un eithaf hwylus. O'm persbectif i, mae ei symud i Ariannu Hyblyg wedi ei wneud yn llawer mwy biwrocrataidd oherwydd y ffordd y mae'n rhaid ei weinyddu. Bob dydd, byddaf yn cael negeseuon gan awdurdodau lleol yn gofyn sut y gallant symud hyn i Ariannu Hyblyg, ond gan adrodd o hyd am sut y maent wedi ei wario.' (arweinydd rhaglen Llywodraeth Cymru)

Gwersi a ddysgwyd

- 4.62 Mae'r canfyddiadau hyn yn ategu gwerth lefel yr amser a fuddsoddir mewn datblygu a gweithredu dyluniadau a chynlluniau clir ar gyfer cyflwyno dull Ariannu Hyblyg ar lefel awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Pan fo'r rhain wedi cael eu gweithredu, mae staff awdurdodau lleol wedi gallu bwrw ymlaen gyda'r agenda trwy sefydlu gweithgorau i gyflawni'r dull, gan adolygu darpariaeth y gwasanaeth mewn ffordd weithredol a dechrau cyfuno cyllidebau/defnyddio cyllid mewn ffordd hyblyg. Mae sialensiau o hyd o ran a yw'r holl ddulliau sy'n cael eu mabwysiadu gan awdurdodau lleol yn

gymesur â holl safbwyntiau Llywodraeth Cymru ynghylch y cyfeiriad y dylai Ariannu Hyblyg fod yn ei ddilyn neu beidio, yn enwedig mewn perthynas â chanllawiau rhaglen sy'n bodoli eisoes a chynnal cywirdeb rhaglenni presennol megis Dechrau'n Deg.

- 4.63 Mae'r newid i ddatrysiad dau grant wedi arwain at sialensiau i weithgarwch cynllunio a gweithredu lleol. Mae hyn yn awgrymu y gellid archwilio ffyrdd y byddai modd cydweddu canllawiau a gofynion adrodd ar gyfer awdurdodau lleol yn well ar draws y ddau grant (neu beri iddynt fod yn gyson). Bydd hyn yn helpu i leihau rhywfaint o ddryswch ynghylch y gofynion ar gyfer CCG a HSG, gan alluogi awdurdodau lleol i symud ymlaen ymhellach gyda'u gweledigaeth, eu dyluniad a'u cynllun er mwyn gweithredu dull Ariannu Hyblyg lleol.
- 4.64 Ar lefel Llywodraeth Cymru, mae angen adolygu'r ceisiadau gweinyddol a geir a nodi ffyrdd y byddai modd symleiddio ymatebion i'r rhain.

Lens 4: Arweinyddiaeth drawsnewidiol

- 4.65 Mae'r 7 Lens yn amlygu'r ffordd y mae angen i gyflawni'r math o drawsnewidiad a ragwelwyd gan ddull Ariannu Hyblyg gymell rhwydwaith mwy o bobl yn aml, nad ydynt dan reolaeth uniongyrchol yr arweinydd trawsnewidiol. Mae arweinyddiaeth prosiectau traddodiadol yn tueddu i ymwneud â lleihau ansicrwydd gymaint ag y bo modd, ac mae arweinyddiaeth drawsnewidiol yn ymwneud â chreu'r amodau cywir sy'n caniatáu i bobl weithio gydag ansicrwydd mewn ffordd sy'n galluogi newid sefydliadol. Mae 7 Lens Fframwaith Trawsnewid yn nodi pwysigrwydd cynnig eglurder ynghylch y broses drawsnewidiol fel rhan allweddol o leihau gwrthwynebiad ymhlith gweithluoedd awdurdodau lleol mewn perthynas â'r newidiadau a weithredir.
- 4.66 Mae'n amlygu hefyd y ffordd y mae gofyn i arweinwyr ddelio'n aml â phwysau busnes eraill hefyd y tu allan i'w rôl trawsnewidiol. Gall yr ymyriadau hyn arwain at sialensiau wrth arwain rhaglenni mewn ffordd lwyddiannus. Mae gofyn i arweinwyr gael amser ac adnoddau digonol er mwyn darparu arweinyddiaeth effeithiol. Gall cyfyngiadau o ran adnoddau roi 'brêc' ar gyflymder y cyflawni a'r cynnydd tuag at gyflawni amcanion

sylyfaenol dull Ariannu Hyblyg. Yn wir, amlygwyd y materion hyn yng nghanfyddiadau'r adroddiad interim blaenorol (Llywodraeth Cymru, 2018d).

Tueddiadau sy'n dod i'r amlwg gyda'r cynnydd

- 4.67 Yn yr awdurdodau lleol sydd wedi sicrhau'r cynnydd mwyaf, mae arweinyddiaeth drawsnewidiol er mwyn mabwysiadu dull Ariannu Hyblyg yn seiliedig ar y cynnydd mwyaf yn cael ei ysgogi gan y lefelau uchaf mewn awdurdod lleol, o'r Prif Weithredwr, ar draws y tîm Rheoli Uwch a thrwy'r aelodau etholedig, a oedd yn darparu:

'Ymroddiad ar lefel uchel iawn er mwyn cael ymrwymiad...[yn y datblygiad cynharaf], un pwynt arwain i'w ysgogi ...[rhywun sy'n annog]...pobl...i fod yn llai ofnus o'r canlyniadau personol ac i fabwysiadu dull mwy colegol tuag ato. Cychwynnom yn dda...Roedd gennym gynrychiolaeth gref iawn o'r Cabinet yn...ystod y cyfnodau cynnar' (arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod braenaru)

- 4.68 Mae hyn yn darparu tîm arwain clir er mwyn symud yr agenda yn ei blaen:

'[Bellach mae gennym]...grŵp arwain sy'n goruchwyllo Ariannu Hyblyg, gan gynnwys Prif Swyddogion ar gyfer iechyd, addysg a thai' (arweinydd rhaglen mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

- 4.69 Mae sicrhau bod y bobl gywir i fwrw'r agenda yn ei blaen yn ymwneud â hyn yn allweddol, gan gyfeirio at y rhai y mae ganddynt:

'Y weledigaeth a'r awdurdod i'w yrru ymlaen...gweledigaeth o'r ffordd y bydd hyn yn cynnig budd i'r cleientiaid...[lle]...y mae'n rhaid i ffocws ar ddefnyddwyr gwasanaeth fod yn allweddol...mae angen rhywun sy'n gallu annog pobl i weld y darlun cyffredinol y tu hwnt i gyfrifoldebau unigol' (arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

- 4.70 Ar draws awdurdodau lleol, mae'r ysgogiad gan dimau arwain uwch yn afreolaidd, neu'n hynod o gyfyngedig mewn rhai achosion, sy'n cyfyngu cyflymder y cynnydd wrth weithredu dull lleol, nodweddiadol sy'n ailadrodd canfyddiadau'r adroddiad interim blaenorol (Llywodraeth Cymru, 2018d) ynghylch y rôl hanfodol a gyflawnir gan fewnbwn arweinwyr uwch:

'Nid ydw i'n argyhoeddedig bod ein grŵp...[arwain]...yn deall yr hyn y maent fod ei wneud i'w dynnu i gyd ynghyd mewn ffordd fwy gydlynus. Credaf eu bod nhw'n credu ei fod yn ymwneud â chydweithio yn fwy. Maent yn ceisio cadw pethau fel ag y maent...ceir diffyg llywio yn fewnol...mae angen dictad arnom...o ran pa mor bell y maent yn dymuno i ni fynd â hwn' (arweinydd rhaglen mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru).

- 4.71 Mae sawl awdurdod lleol (gan gynnwys y rhai y mae ysgogiad mewnol cyfyngedig yn eu herio) yn ceisio cyfeiriad pellach gan Lywodraeth Cymru wrth fwrw'r agenda yn ei blaen. Fel arfer, mae hyn yn cynnwys yr awdurdodau lleol hynny nad ydynt wedi gwneud fawr iawn hyd yn hyn i weithredu eu dull Ariannu Hyblyg ac y maent yn ceisio canllawiau mwy pendant am y camau i'w cymryd nesaf a ffocws penodol ar rôl uwch dimau arwain wrth helpu arweinwyr dull lleol i yrru'r agenda yn ei blaen. Yr awdurdodau hynny, felly, yw'r rhai y gallent gael eu cysylltu mewn ffordd fwy uniongyrchol gyda'r awdurdodau braenaru mwyaf gweithredol er mwyn eu cynorthwyo i roi sylw i'r her hon gydag arweinyddiaeth.
- 4.72 O bersbectif Llywodraeth Cymru, mae sialensiau yn dod i'r amlwg (o ystyried gwasgariad y cyfrifoldeb dros ddull Ariannu Hyblyg ar draws sawl portffolio Gweinidogol), er bod yr atebolrwydd ar y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol. At hynny, mae mwy o waith a rennir o hyd i arweinwyr rhaglen Llywodraeth Cymru ddatblygu eu dyluniad a rennir er mwyn gweithredu dull Ariannu Hyblyg ar draws eu rhaglenni yn unol â gweledigaeth a rennir y mae pob parti wedi ymrwymo iddo.

Gwersi a ddysgwyd

- 4.73 Amlygir y datrysiadau i'r sialensiau hyn yn y cyfweiliadau, yn unol â'r ddirnadaeth gan y 7 Lens Trawsnewid, ac maent yn dod i'r golwg wrth i awdurdodau lleol ddatblygu dull arweinyddiaeth sy'n cynnwys sgiliau a galluoedd trwy gyfrwng unigolyn, neu trwy grŵp o unigolion:
- sy'n gallu ffurfio gweledigaeth rymus
 - sy'n gallu cydweddu pobl gyda'r weledigaeth a chreu cymuned sydd wedi buddsoddi yn y gwaith o gyflawni'r weledigaeth, y dyluniad a'r cynllun

- sy'n meddu ar y gallu i greu momentwm, dangos llwyddiannau cynnar ac sy'n gallu cynorthwyo pobl i ddygymod ag amwysedd ac ansicrwydd heb stopio, gan newid eu harferion gwaith
- sydd ag amser penodol a chymorth er mwyn cyflawni'r rôl heb i gyfrifoldebau eraill dynnu eu sylw.

4.74 I Lywodraeth Cymru, gallai hyn olygu cyfathrebu symlach am gyfrifoldebau Gweinidogol, disgwyliadau polisi a bwriad strategol mwy hirdymor dull Ariannu Hyblyg o fewn a thu hwnt Llywodraeth Cymru.

Lens 5: Cydweithio

- 4.75 Mae'r 7 Lens Trawsnewid yn nodi sut y mae cydweithio yn allweddol mewn amgylchedd amlddisgyblaethol sy'n torri ar draws terfynau sefydliadol yn gynyddol. Mae hyn yn rhan allweddol o'r hyn y mae Ariannu Hyblyg yn ceisio'i gyflawni (a'r hyn y mae wastad wedi ceisio'i gyflawni), sef ei fod yn canolbwyntio mewn ffordd fwriadol ar ddwyn darparu ynghyd, a'r timau sy'n cyflawni hyn.
- 4.76 Yn ogystal, mae'n canolbwyntio ar y ffaith mai'r unig adeg y gall ffurfiau trawsnewid o'r fath gyflawni canlyniadau penodol yw pan fydd pobl ar draws terfynau rhyng-sefydliadol ac o fewn sefydliadau yn cydweithio i gyflawni allbynnau yn erbyn y blaenoriaethu a'r dilyniant cytunedig fel y diffinnir yn y cynllun.
- 4.77 I Ariannu Hyblyg, bydd dull cydweithredol yn helpu i nodi set o rannau sy'n ofynnol ar gyfer gwasanaethau, yn ogystal â neilltuo cyfrifoldeb i asiantaethau i ddatblygu darpariaeth. Trwy wneud hynny, gall roi sylw i ddyblygu hefyd, ac fe allai gyflawni'r trawsnewidiad mewn ffordd fwy effeithlon.

Tueddiadau sy'n dod i'r amlwg gyda'r cynnydd

- 4.78 Mae'n ymddangos bod gwaith cydweithredol yn digwydd ar draws rhan fwyaf yr awdurdodau lleol (17), er mwyn sawl achos (11), newydd gychwyn y mae'r gwaith o'i ddatblygu.

- 4.79 Ceir amrywiadau o ran y graddau y mae awdurdodau lleol yn priodoli hyn i'w dull Ariannu Hyblyg, er bod o leiaf ddau awdurdod wedi nodi'n benodol bod eu dull wedi ysgogi gwaith cydweithredol rhwng timau rhaglenni yn eu hawdurdod:

'Mae Ariannu Hyblyg yn annog cydweithio. Gwelwyd symud tuag at fwy o gydweithio ta beth, ond mae'r rhaglen hon wedi ei wneud yn rhywbeth swyddogol, gyda dau grant nawr yn lle 10.' (arweinydd rhaglen mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

'Mae Ariannu Hyblyg wedi ein gorfodi i ddod ynghyd i rannu gwybodaeth a chynllunio'r ddarpariaeth mewn ffordd wahanol. Nid ydym yn cyfuno cyllidebau eto, ond rydym yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol...mae'n siŵr mai'r gwaith cydweithredol yw effaith arwyddocaol Ariannu Hyblyg...[yma]' (arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

'Heb Ariannu Hyblyg ni fyddem yn gwahodd arweinwyr digartrefedd i'n cyfarfod gweithredol.' (arweinydd rhaglen mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

'Rydym yn cydweithio'n agosach gyda gwasanaethau oedolion nag o'r blaen – dadl gref dros ddwyn 10 grant ynghyd.' (arweinydd rhaglen mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

- 4.80 Fodd bynnag, i rai awdurdodau lleol, gwelwyd bodolaeth y dull cydweithredol cyn dyfodiad Ariannu Hyblyg:

'Nid oes unrhyw gydweithio wedi deillio o hyblygrwydd gydag ariannu, ond gwelir nifer fawr o enghreifftiau cydweithredol a ddatblygwyd dros yr wyth mlynedd ddiwethaf.' (arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

'Mae'r cydweithio wedi dod yn fwy sylweddol ac mae'n cynnwys mwy o ffocws...gan ei fod wedi bod yn digwydd cyn dyfodiad Ariannu Hyblyg...a gyda mwy o ffocws ar wneud, mae'n cydweddu â blaenoriaethau yn hytrach na gwasanaethau penodol' (arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod braenaru)

- 4.81 Mae enghreifftiau o waith cydweithredol yn cynnwys:
- ychwanegu Swyddogion i gyfarfodydd portffolios eraill er mwyn hwyluso cydweithio ar faterion ar y cyd
 - gwaith ychwanegol i gynllunio gwasanaethau neu ail-gomisiynu ymgynghoriadau ac adolygiadau
 - datblygu/ailgynllunio rolau neu wasanaethau sy'n pontio timau lluosog, e.e. cymorth ar gyfer trais domestig, darparu gwasanaethau rianta, a chymorth i bobl ifanc
 - cyfuno cyllidebau ar draws meysydd rhaglen sy'n cael eu cynnwys o fewn Ariannu Hyblyg
 - contractio ar y cyd
 - dulliau cydweithredol er mwyn neilltuo tanwariant tuag at fylchau mewn gwasanaeth neu anghenion a nodwyd yn lleol.
- 4.82 Mae rhai rhwystrau yn parhau ar gyfer gwaith cydweithredol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chapasiti staff i ymgysylltu gyda thimau cyflawni eraill, yn enwedig os nad yw'r timau hynny yn gweithio gyda'i gilydd ar hyn o bryd:
- 'Ceir uchelgais i gydweithio; fodd bynnag, mae materion sy'n ymwneud ag adnoddau yn cyfyngu ar weithgarwch cydweithio...[amser staff a lefelau staffio timau], a cheir sialensiau ynghylch ymgysylltu partneriaid allanol o ganlyniad i rwymau contractau a chyfyngiadau amser'*
(arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)
- 4.83 Ar lefel Llywodraeth Cymru, ceir arwyddion bod trefniadau cydweithio yn datblygu, er bod timau rhaglen yn parhau i weithredu ar wahân i'w gilydd i raddau helaeth, yn enwedig pan maent yn cael eu gwahanu gan y rhaniad CCG–HSG. Mae'r Gweithgor Data mewnol sy'n cynorthwyo datblygiad Fframwaith Canlyniadau Ariannu Hyblyg wedi dangos un ffordd y gellir dwyn timau mewnol ac allanol ynghyd er mwyn cydgynhyrchu allbynnau a dulliau cytunedig. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o hyd i waith y grŵp hwn.
- 4.84 Mae staff Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio ffyrdd y byddai modd sbarduno cydweithio pellach (mewnol ac allanol), yn enwedig mewn

perthynas â gweithrediad eu grantiau. Bydd angen i ddatblygiad hyn, fel y nodwyd gan y sawl a gyfwelwyd, archwilio'r cydweddu rhwng rhaglenni ym mhob un o'r grantiau, er mwyn nodi dulliau cytunedig i feithrin cydweithio a cyd-ddealltwriaeth lle y gallai elfennau cyffredin yn nodau'r rhaglenni gydweddu er mwyn hwyluso'r gwaith hwnnw.

- 4.85 Mae cyfweiliadau gyda staff Llywodraeth Cymru a'r rhai mewn awdurdodau lleol sydd wedi dangos llai o gynnydd wrth weithredu dull Ariannu Hyblyg lleol, wedi nodi bod hwn yn faes allweddol lle y gallai'r tîm Cydweddu Ariannu hwyluso cyfleoedd i dimau gynnull er mwyn cynorthwyo hyn a'u helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio ar lefel yr awdurdod lleol.

Gwersi a ddysgwyd

- 4.86 Gall cydweithio fod yn un o'r arwyddion cynharaf bod Ariannu Hyblyg yn cael effaith gan bod timau rhaglen yn cael eu cynnull er mwyn adolygu anghenion gwasanaeth a nodi datrysiadau er mwyn mynd i'r afael â nhw. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cael eu hannog mewn ffordd weithredol i greu strwythurau sy'n hwyluso cydweithio rhwng CCG, HSG, y rhaglenni sy'n rhan ohonynt ac sy'n eu creu, a darpariaeth swyddogaethol/at sector penodol ar lefel yr awdurdod lleol (e.e. cyflogadwyedd, blynyddoedd cynnar a gofal plant, digartrefedd, neu wasanaethau gofalwr). Mae'r dystiolaeth gwerthuso yn yr adroddiad hwn yn awgrymu, pan gaiff y strwythurau hyn eu creu, bod defnyddio cyllid mewn ffordd 'hyblyg' fel a ragwelwyd gan ddull Ariannu Hyblyg, yn fwy tebygol.
- 4.87 Mae sicrhau cytundeb ynghylch sut y cynhelir y trafodaethau hyn, pwy fydd yn cael eu cynnwys a sut y byddai modd datrys anghydfodau, yn allweddol er mwyn cyflawni hyn.
- 4.88 I Lywodraeth Cymru, gwelir arwyddion addawol bod timau rhaglen yn cynnull trwy weithredu'r Grŵp Data Mewnol sy'n gysylltiedig gyda datblygiad y Fframwaith Canlyniadau a thrwy'r grwpiau CCG a HSG mewnol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen ymestyn hyn er mwyn nodi ffyrdd y byddai modd hwyluso cydweithio mwy gweithredol. Yna, gallai hyn helpu gyda datblygiad canllawiau cyson ar draws timau rhaglen ynghylch sut y byddai modd defnyddio hyblygrwydd wrth ddarparu.

Lens 6: Atebolrwydd

- 4.89 Mae atebolrwydd yn ymwneud â diffinio'r rolau o fewn y sefydliad a'r trawsnewid yn glir – gwybod pwy sy'n atebol am beth yn y pen draw, grymuso pobl i gyflawni a sicrhau eu bod yn atebol, yn fewnol ac yn allanol. Mae'r 7 Lens yn amlygu, wrth i'r cymhlethdod gynyddu, bod yr angen am lywodraethu wedi'i ddiffinio'n glir yn dod yn bwysicach wrth gyflawni canlyniad llwyddiannus. Dylai'r strwythurau strategol newydd gyflawni'r rôl hwn; fodd bynnag, dylid hysbysu staff ar draws y sefydliad mewn ffordd glir o fanylion y rôl hwnnw a'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd sy'n rhan ohono.
- 4.90 Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Ariannu Hyblyg mewn perthynas â'r penderfyniadau y mae angen eu gwneud ynghylch sut y gellir defnyddio cyllid mewn ffordd fwy hyblyg.

Tueddiadau sy'n dod i'r amlwg gyda'r cynnydd

- 4.91 Ceir amrywiadau yn y prosesau atebolrwydd sydd wedi ymwreiddio mewn awdurdodau lleol er mwyn goruchwyllo dull Ariannu Hyblyg. Mae rhai o'r rhain yn defnyddio dulliau a oedd yn bodoli eisoes, sy'n adlewyrchu dull trosolwg etifeddol a oedd yn bodoli cyn ei weithredu:

'[Mae gennym]...fwrdd corfforaethol strategol, dan y Dirprwy Brif Weithredwr. Defnyddir hwn i ddwyn y grantiau ynghyd a datblygu'r strategaeth ataliol. Sefydlwyd y grŵp ddwy flynedd yn ôl, ond bu'r cynnydd yn araf yn ystod y cyfnod pan fu ansicrwydd am y grantiau.' (arweinydd rhaglen mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

- 4.92 Mae gan eraill ddulliau sydd newydd gael eu sefydlu:

'Mae gweithgor yn bodoli sy'n dwyn ynghyd y rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, staff gweithredol a rheolwyr gwasanaeth ar draws yr holl grantiau.' (arweinydd rhaglen mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

'[Mae gennym]...grŵp Arwain sy'n goruchwyllo Ariannu Hyblyg, sy'n cynnwys Prif Swyddogion ar gyfer iechyd, addysg a thai. Newydd gael ei ddatblygu y mae'r grŵp Arwain ac mae'n ymddangos bod y cynnydd a

gaiff ei sicrhau yn araf.' (arweinydd rhaglen mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

'Mae grŵp rhanddeiliaid yn bodoli. Mae'n rhy gynnar i allu dweud a oes angen ei wella o ran dwyn pawb ynghyd a'r ddealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd. Hebdo yn flaenorol, ni fyddem wedi cael yr amser i ystyried pa gysylltiadau y byddai modd eu gwneud.' (arweinydd rhaglen mewn awdurdod lleol, awdurdod braenaru)

- 4.93 Mae'r strwythurau atebolrwydd hyn yn cynnwys dulliau er mwyn sicrhau trosolwg strategol a throsolygon o waith monitro ac adroddiadau i Lywodraeth Cymru. Cyflawnir hyn fel arfer trwy Fyrddau, gyda chyfraniad Prif Swyddogion/Swyddogion Gweithredol. Mewn rhai achosion, mae hyn yn cynnwys atebolrwydd y Cabinet.

- 4.94 Mewn achosion eraill, cyflwynwyd Gweithgorau, grwpiau rhanddeiliaid neu grwpiau Gorchwyl a Gorffen:

'[Mae gennym]...drosolwg gwleidyddol da, ac mae gofyn i'r Cabinet a'r Prif Weithredwr roi eu cymeradwyaeth.' (arweinydd Ariannu Hyblyg mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

'Ceir trosolwg strategol. Ceir grwpiau gorchwyl a gorffen a gadeirir gan y Prif Weithredwr a staff uwch, sydd wedi bod yn ystyried ail-gynllunio gwasanaethau. Ceir y weledigaeth ar frig y grŵp arwain ac mae'r arweinydd gwasanaethau plant yn adrodd i'r grŵp arwain.' (arweinydd rhaglen mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

- 4.95 Nid yw rhai awdurdodau wedi sefydlu neu ffurfioli dulliau eto, felly nid oes ganddynt grŵp goruchwyllo ar gyfer eu dull Ariannu Hyblyg:

'[Ni cheir]...grŵp/pwyllgor goruchwyllo ar hyn o bryd. Gwneir gwaith ar lefel gwasanaeth yn lle hynny.' (arweinydd rhaglen mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

- 4.96 Roedd nifer o'r rhai a gyfwelwyd yn cwestiynu'r diffyg cydraddoldeb rhwng gofynion adrodd rhaglenni unigol a rhwng CCG a HSG.

- 4.97 Roedd pryder arall yn canolbwyntio ar y cwestiwn a oedd system atebolrwydd sy'n glir 'ar bapur' yn gweithredu mewn ffordd effeithiol neu beidio, a yw'r rhai sy'n cymryd rhan yn ei deall yn llawn, ac a yw gweithdrefnau'n cael eu dilyn mewn ffordd briodol neu beidio. Roedd hon yn sefyllfa a oedd yn adlewyrchu gweledigaeth a chynllun clir er mwyn cyflawni'r rhaglen, gan ddangos pwysigrwydd y dimensiynau hyn ar draws strwythurau allweddol wrth symud darpariaeth Ariannu Hyblyg yn ei flaen.
- 4.98 Y tîm Cydweddu Ariannu sy'n atebol dros ddull Ariannu Hyblyg o fewn Llywodraeth Cymru, ac mae timau rhaglen unigol yn parhau i fod yn gyfrifol am ddyluniad a gweithrediad eu rhaglenni gan awdurdodau lleol. Ceir tensiynau o hyd rhwng cynnal cywirdeb y grantiau hyn a'r disgwyliadau o fewn dull Ariannu Hyblyg, sydd wedi peri i staff Llywodraeth Cymru a staff awdurdod lleol yr ydym wedi'u cyfweld i ofyn '*Pa mor hyblyg yw hyblyg?*'
- 4.99 Fel yr ydym wedi arsylwi yn adrannau Gweledigaeth yr adroddiad hwn (paragraffau 4.38–4.39), nid yw hyn wedi cael ei ddatrys eto ac awgrymodd y sawl a gyfwelwyd yn Llywodraeth Cymru bod y ffaith bod cyfrifoldeb Gweinidogol am raglenni a gaiff eu cynnwys yn null Ariannu Hyblyg yn gorwedd ar draws sawl portffolio, yn cymhlethu hyn ymhellach, er bod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn meddu ar y cyfrifoldeb dros weithrediad Ariannu Hyblyg.
- 4.100 Mae Bwrdd Gweithredu Cydweddu Ariannu Llywodraeth Cymru yn cynnig dimensiwn pellach o atebolrwydd, gan gynnig trosolwg a her ynghylch gweithrediad CCG a HSG, yn ogystal â bod yn gyfrifol am gyfeiriad cyffredinol y gwahanol agweddau sy'n gysylltiedig â darpariaeth lwyddiannus y ddau grant. Mae hyn yn cynnwys nodi a rheoli materion strategol a thrawsbynciol a risgiau ar draws y ddau grant, yn ogystal â rheoli elfennau cyd-ddibynnol, cyfathrebu, a goruchwyllo'r broses o'i gyflwyno ym mhob awdurdod lleol.

Gwersi a ddysgwyd

- 4.101 Mae strwythurau atebolrwydd yn cynnig mecanwaith allweddol er mwyn gallu symud hyblygrwydd ariannu yn ei flaen, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau i 'symud' arian rhwng rhaglenni. Gall strwythurau aneffeithiol atal dulliau rhag cael eu defnyddio ac mae'n rhaid iddynt gysylltu â'r weledigaeth gyffredinol, y cynllun a'r dyluniad ar gyfer dull Ariannu Hyblyg yn lleol.
- 4.102 I ddulliau Ariannu Hyblyg lleol, nid oes angen rhagnodi strwythurau atebolrwydd; mae angen i'r rhain fod yn benderfyniadau lleol, ond pa strwythur bynnag y penderfynir ei fabwysiadu, dylai geisio cynnwys y meysydd neu'r ffyrdd o weithredu sylfaenol, y maent yn seiliedig ar egwyddorion penodol, gan gynnwys:
- sicrhau atebolrwydd a rennir
 - galluogi dealltwriaeth gyffredin o bob rhaglen
 - galluogi'r cyfle i nodi a phennu cysylltiadau rhwng rhaglenni a'r weledigaeth uwch a'r cynllun er mwyn cyflawni
 - cytuno ar brotocolau er mwyn gwneud penderfyniadau
 - galluogi datblygiad trosolwg o angen a bylchau mewn gwasanaeth a dyblygu
 - cadarnhau penderfyniadau Ariannu Hyblyg.

Lens 7: Pobl

- 4.103 Mae Lens olaf y 7 Lens Trawsnewid yn ymwneud â datblygu'r gweithlu a'r angen i weithgarwch trawsnewid ymgysylltu â phobl er mwyn cyflwyno ac ymwreiddio ffyrdd newydd o weithio. Mae'r fframwaith yn amlygu pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol a rheolaidd gyda'r gweithlu yn ystod pob cam o'r trawsnewidiad.
- 4.104 Mae ymgysylltu yn cychwyn gyda'r bobl hynny y mae dull Ariannu Hyblyg yn effeithio arnynt a'r rhai sy'n cynorthwyo'r trawsnewidiad, yn ogystal â sut y mae ansicrwydd ynghylch y newid yn datblygu a sut y gellir rhoi sylw iddo. Mae'r fframwaith yn amlygu sut y mae cynllunio a gweithredu ymgyrch gyfathrebu gynhwysfawr yn hanfodol er mwyn parhau i ymgysylltu pobl

gyda'r broses drawsnewidiol, yn ogystal â chynnig sicrwydd am ei chanlyniadau.

- 4.105 Yn ogystal, mae'r 7 Lens Trawsnewid yn amlygu sut y mae'n bwysig cael y bobl gywir sy'n meddu ar y sgiliau a'r meddylfryd priodol er mwyn cynorthwyo'r trawsnewidiad. Bydd hyn yn gofyn am sgiliau gan sawl swyddogaeth, megis polisi, cyllid, darparu prosiectau, darparu gwasanaethau gweithredol, masnachol, a digidol, er mwyn cydweithio ar y trawsnewidiad. Mae dod o hyd i bobl sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad cywir yn hollbwysig er mwyn sicrhau llwyddiant. O ystyried amrediad y rhaglenni sy'n ymwneud â darparu dull Ariannu Hyblyg, mae hyn yn arbennig o bwysig.

Tueddiadau sy'n dod i'r amlwg gyda'r cynnydd

- 4.106 Ar lefel awdurdod lleol, bydd gofyn gwneud gwaith pellach ar y dimensiwn pobl wrth gyflawni dull Ariannu Hyblyg. Yn yr ardaloedd hynny lle'r oedd y bobl a gyfwelom wedi nodi bod strwythurau, cynlluniau a dyluniadau wedi dechrau hwyluso lefelau cydweithio uwch ar draws rhaglenni, mae'r sylw wedi bod ar ddarparu rhywfaint o hyfforddiant a gwybodaeth i staff er mwyn helpu'r gweithlu i ddeall y rheswm dros wneud y newidiadau a sut y gallai arfer gwaith fod yn newid, er bod gofyn gwneud mwy o waith ac mewn rhai awdurdodau, bydd angen datblygu'r gwaith hwn ymhellach fyth.
- 4.107 Mae hyn yn bwysig gan bod ymatebwyr o awdurdodau lleol wedi amlygu'r ffaith bod pryderon yn bodoli o hyd ynghylch ailstrwythuro pellach, bygythiadau i swyddi presennol, a thybjaethau bod dulliau yn ffordd arall o reoli toriadau ariannol pellach yn y tymor byr a'r tymor canolig. Mae'r rhain yn safbwyntiau a adlewyrchir o fewn Llywodraeth Cymru, ac mewn timau rhaglen y maent wedi bod yn gweithio gyda nhw mewn awdurdodau lleol.
- 4.108 I nifer o awdurdodau lleol, mae'n rhy gynnar i nodi a yw dull Ariannu Hyblyg yn cael effaith ar arferion gwaith, ond i rai, mynegir uchelgais i hynny ddigwydd. Ceir cydnabyddiaeth bod mwy o waith i'w wneud o hyd, gan gynnwys archwilio ail-ddatblygu rolau er mwyn cynorthwyo gweithgarwch comisiynu ar y cyd, ffurfiau cydweithio eraill pan nad yw hyn yn digwydd yn barod, neu'r angen i ganolbwyntio ar ystod ehangach o raglenni. Mae'n glir

yn yr awdurdodau hynny sydd wedi sicrhau cynnydd wrth gynnig mwy o hyblygrwydd ar draws eu dulliau ariannu bod angen canolbwyntio ar agweddau ar ddatblygu'r gweithlu:

'Nid yw Ariannu Hyblyg wedi arwain at newidiadau i arferion gwaith eto, er ei bod yn uchelgais gennym i wneud hynny. Mae'r diwylliant gwaith wedi'i gyfyngu i'r hyn y gallwch ei wneud o fewn grant. Ceir cydnabyddiaeth bod yr awdurdod wedi bod yn gweithio mewn seilos, ond maent yn ceisio peidio "taflu'r llo a chadw'r brych", felly maent yn ystyried hyfforddiant i staff a diffinio arfer gorau fel rhagflaenydd newid arferion gwaith.'
(arweinydd Ariannu, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

- 4.109 Mewn awdurdodau lleol eraill, ceir cydnabyddiaeth o'r ffaith nas gwelwyd newid mewn arferion gwaith eto, bod 'gweithio mewn seilos' yn parhau i fod yn rhywbeth cyffredin, a bod 'hunaniaeth' pobl yn parhau i fod yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau ar gyfer grant penodol (yn hytrach na phersbectif ehangach ar draws gwerthfawrogiad ehangach o EIPS a'r gwerth y gallant ei gynnig). Ymhlith y staff hyn y gwelir y pryderon ynghylch ailstrwythuro, toriadau ariannol a newid mewn rolau gwaith ar eu cryfaf.
- 4.110 Ceir cydnabyddiaeth ymhlith y grŵp hwn y bydd hyfforddiant a datblygu'r gweithlu yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn, a'r diffyg 'ymrwymiad' gan rai staff.
- 4.111 Nid yn unig y mae rhai awdurdodau lleol yn barnu bod dull Ariannu Hyblyg wedi annog pobl i gydweithio'n agosach a gweithio'n llai mewn seilos, ond maent yn amlygu hefyd bod angen gwneud mwy o waith yma er mwyn sicrhau bod timau'n cydweithio mewn ffordd fwy effeithiol. Cynorthwywyd hyn trwy ddarparu rhywfaint o hyfforddiant:

'Rydym wedi trefnu hyfforddiant a gweithdai a chynadleddau. Mae hyn wedi bod yn eithaf llwyddiannus...[fel y bu]...llawer o gyfnewid syniadau ar draws gwasanaethau, yn enwedig ynghylch y rheng flaen, a fu'n dda iawn...[Mae hyn oherwydd]...ein bod yn dymuno gweld swyddogion rheng flaen yn gweithio mewn ffordd fwy arloesol...a law yn llaw â hynny, rydym yn gobeithio gweld dull lle y rhennir y cyfrifoldeb yn fwy yn y

dyfodol' (arweinydd rhaglen mewn awdurdod lleol, awdurdod nad yw'n awdurdod braenaru)

- 4.112 Mae'n wir hefyd, o bersbectif gweithio mewn ffordd gydysylltiedig, bod nifer o awdurdodau lleol (5) eisoes yn credu eu bod yn gweithio yn y fath ffordd, felly mae'r her yn ymwneud â defnyddio hyn mewn ffordd mor effeithiol ag y bo modd er mwyn helpu i symud y dull Ariannu Hyblyg Lleol yn ei flaen, gan annog staff eraill i wneud yr un fath.
- 4.113 Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod Ariannu Hyblyg wedi effeithio ar y ffordd y gweinyddir grantiau ac mae wedi nodi ffrwd waith er mwyn archwilio'r systemau cyllid, rheoli grantiau a rheoli cyfrifon, a fydd yn cynnwys ffocws ar faterion ar gyfer y gweithlu.

Gwersi a ddysgwyd

- 4.114 Gwelir angen o fewn awdurdodau lleol ac o fewn Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio'r sylw yn fwy ar y ffordd y gall cyflwyno dull Ariannu Hyblyg effeithio ar ddulliau ac arferion gwaith.
- 4.115 Mae angen hyfforddiant staff a chyfathrebu, ymgynghori a darparu gwybodaeth yn rheolaidd er mwyn cynorthwyo hyn, ac mae awdurdodau lleol bellach yn canolbwyntio ar yr angen hwn. Bydd angen i ddulliau gweithredu feithrin cydweithio a chynorthwyo'r ffyrdd y mae dyluniadau a chynlluniau lleol yn cael eu symud yn eu blaen.

Ffactorau allweddol wrth gynorthwyo darpariaeth lwyddiannus barhaus

- 4.116 Mae'r canfyddiadau ar draws y cyfweiliadau a gynhaliwyd yng nghanol olaf y gwerthusiad yn amlygu rhai persbectifau allweddol sy'n dangos bod y ffactorau canlynol yn sail ar gyfer gweithredu a sicrhau llwyddiant wrth ddarparu dulliau Ariannu Hyblyg Lleol. Mae'n dadansoddiad yn nodi tri grŵp bras o awdurdodau lleol a'r dulliau Ariannu Hyblyg Lleol yn erbyn 7 Lens Trawsnewid y Matrics Aeddfedrwyd:
- y rhai sy'n sicrhau cynnydd da (1) – sy'n cynnwys pum awdurdodau lleol gan gynnwys awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru

- y rhai sy'n dangos arwyddion cadarnhaol eu bod yn sicrhau cynnydd (2) — sy'n cynnwys 12 awdurdod lleol gan gynnwys awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru
- y rhai y maent wedi sicrhau cynnydd llawer mwy cyfyngedig (3) – tri awdurdod lleol gan gynnwys awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru²⁴.

4.117 Mae'r dadansoddiad o ganfyddiadau'r cyfweiliadau a'r adolygiad o'r cynlluniau cyflawni wedi ceisio nodi'r cynnydd y mae awdurdodau lleol a dull cyffredinol Ariannu Hyblyg wedi'i wneud yn erbyn y 7 Lens Trawsnewid o ran eu safle yn y Matrics Aeddfedrwydd, ble y bydd angen gwneud gwelliannau neu ddatblygiadau pellach efallai, a sut y gallai'r rhain gael eu cynorthwyo gan Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol neu randdeiliaid eraill.

4.118 Rhoddir crynodeb o'r asesiadau yn Ffigurau 4.1 i 4.3 ac maent yn dangos:

- i'r awdurdodau lleol hynny sy'n dangos rhywfaint o gynnydd, neu'r cynnydd lleiaf (Ffigurau 4.2 a 4.3), bod angen penodol i ail-lunio eu gweledigaeth, eu dyluniad a'u cynlluniau er mwyn cyflawni'r dull Ariannu Hyblyg lleol, ac mae angen dulliau penodol er mwyn datblygu ac ymestyn cydweithio hefyd
- bod angen i bob awdurdod lleol adolygu dulliau datblygu'r gweithlu ac mae angen canolbwyntio ar y cyfathrebu ar gyfer staff hefyd
- er mwyn cynorthwyo'r gweithgarwch cyflawni hwn, mae angen canolbwyntio ar rannu dirnadaeth ac arfer rhwng awdurdodau a dylai'r awdurdodau braenaru (ac awdurdodau arweiniol nad ydynt yn awdurdodau braenaru) gyflawni rôl amlwg yn hyn o beth, gan ddarparu trosolygon manylach o'u profiadau nhw, a phan fo modd, gweithredu fel mentoriaid ar gyfer arweinwyr Ariannu Hyblyg eraill mewn awdurdodau lleol eraill.

²⁴ Ni fu modd cynnal cyfweiliadau gyda dau awdurdod lleol ac ni fu modd cynnal asesiadau llawn o'r awdurdodau hyn yn erbyn y matrics, er ei bod yn debygol y bydd y ddau ohonynt yn ymddangos yng Ngrŵp 2 neu 3 (fel y nodwyd uchod).

Ffigwr 4.1: Proffil trosolwg o awdurdodau lleol – y rhai sy'n sicrhau cynnydd da – pum awdurdod lleol (awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru)

	Lensys Trawsnewid						
	Gweledigaeth	Dylunio	Cynllunio	Arweinyddiaeth Drawsnewidiol	Cydweithio	Atebolrwydd	Pobl
Lefel a Sicrhawyd Eisoës yn y Matrics Aeddfedrwydd	Enghreifftiau Lefel 4: Mae'r weledigaeth yn pennu cyfeiriad clir y bydd pobl yn ymrwymo iddo. Caiff ei chyfleu mewn gwahanol ffyrdd	Enghreifftiau Lefel 4: Mae'n glir sut y bydd gwahanol rannau o'r sefydliad yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae'n bosibl asesu cynnydd wrth i'r dyluniad esblygu	Enghreifftiau Lefel 4: Mae'r cynllunio yn wybodus, yn gydlynol ac yn aeddfed, gan gynorthwyo trawsnewid a busnes fel arfer	Enghreifftiau Lefel 5: Mae arweinwyr yn ymgorffori trawsnewid ac yn creu amgylchedd o ymddiriedaeth lle y mae'n ddiogel siarad yn rhydd	Enghreifftiau Lefel 4: Mae rolau, cyfrifoldebau a chymhellion yn adlewyrchu'r angen i gydweithio, gan arwain at ffyrdd newydd o weithio	Enghreifftiau Lefel 5: Mae llywodraethu clir yn arwain at wneud penderfyniadau ar y lefel gywir ac ar yr adeg gywir i symud cynnydd yn ei flaen	Enghreifftiau Lefel 3: Mae cynlluniau wedi cael eu gwneud i roi sylw i'r effaith ar bobl, ffyrdd o weithio a diwylliant
Meysydd i'w Datblygu er mwyn Gwella'r Sgôr yn y Matrics Aeddfedrwydd	- Gwaith parhaus i gyfleu gweledigaeth, dyluniad a chynllun y rhaglen - Cynllunio ar gyfer olyniaeth arweinyddiaeth a datblygu mecanweithiau trosglwyddo gwybodaeth - Datblygu cyfleoedd pellach i gydweithio ar draws CCG a HSG, yn enwedig gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, a Byrddau Rhaglen Rhanbarthol - Cyflwyno cynlluniau datblygu'r gweithlu a rhaglenni hyfforddiant cysylltiedig.						
Anghenion Cymorth Posibl	- Defnydd posibl fel mentor/cymorth cymheiriaid i awdurdodau eraill y maent yn parhau i gael anhawster wrth geisio sefydlu trefniadau i gyflwyno dull Ariannu Hyblyg - Defnydd ymhellach trwy gyfrwng cyfarfodydd rhwydwaith rhaglen, digwyddiadau blynyddol, ac ymgynghoriadau yn y dyfodol am weithgareddau monitro ac adrodd - Cynorthwyo gweithgarwch cynllunio datblygiad y gweithlu - Nodi lle y gallai hyblygrwydd pellach fod yn bosibl, gan gynnal cywirdeb a ffocws rhaglenni.						



Ffynhonnell: Grŵp Cymheiriaid Trawsnewid 2018 a Dadansoddiad o'r Gwerthusiad

Ffigwr 4.2: Proffil trosolwg o awdurdodau lleol – y rhai sy'n dangos arwyddion cadarnhaol eu bod yn sicrhau cynnydd – deuddeg awdurdod lleol (awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru)


	Lensys Trawsnewid						
	Gweledigaeth	Dylunio	Cynllunio	Arweinyddiaeth Drawsnewidiol	Cydweithio	Atebolrwydd	Pobl
Lefel a Sicrhawyd Eiso es yn y Matrics Aeddfedrwydd	Enghreifftiau Lefel 3 : Ceir gweledigaeth sy'n ymestyn ond y mae modd ei chyflawni. Gall pobl weld sut y gallant fod yn rhan ohoni	Enghreifftiau Lefel 3 : Mae'r dyluniad yn ystyried defnyddwyr ac mae'n cynnwys digon o enghreifftiau i'w wireddu	Enghreifftiau Lefel 3 : Mae cynlluniau yn cynnwys y lefel gywir o ran manylder a chymbwysedd rhwng cynllunio tynn a llac	Enghreifftiau Lefel 4 : Mae arweinwyr yn adrodd stori gyson. Maent yn 'gwtio' ac yn 'tynnu' yn ôl yr angen er mwyn creu'r amgylchedd cywir ar gyfer newid	Enghreifftiau Lefel 4 : Mae rolau, cyfrifoldebau a chymhellion yn adlewyrchu'r angen i gydweithio, gan arwain at ffyrdd newydd o weithio	Enghreifftiau Lefel 3 : Mae pobl yn cael eu grymuso ac maent yn atebol dros wneud penderfyniadau	Enghreifftiau Lefel 3 : Mae cynlluniau wedi cael eu gwneud i roi sylw i'r effaith ar bobl, ffyrdd o weithio a diwylliant
Meysydd i'w Datblygu er mwyn Gwella'r Sgôr yn y Matrics Aeddfedrwydd	- Datblygu mwy o fanylder ar gyfer y weledigaeth, y dyluniad a'r cynllun er mwyn cyflawni, sy'n fwy ymestynnol ac sy'n cysylltu gyda chynlluniau strategol eraill mewn ffordd fwy helaeth - Gwella strwythurau atebolrwydd ac arweinyddiaeth er mwyn cynnig mwy o 'hwb' i gydweithio yn fwy, gan gynnwys agor dulliau allanol trwy gyfrwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a Byrddau Rhaglen Rhanbarthol - Nodi cynlluniau manwl er mwyn datblygu'r gweithlu a mecanweithiau er mwyn cyfleu gweledigaeth, cynllun a dyluniad y rhaglen mewn ffordd weithredol ac yn rheolaidd i'r holl staff a'r rhanddeiliaid mewnol ac allanol.						
Anghenion Cymorth Posibl	- Cymorth a sicrwydd parhaus er mwyn cynnig sylfaen i'r cynnydd a sicrhawyd hyd yn hyn, ac anogaeth i gymryd camau pellach i weithredu'r dull - Darparu dirnadaeth a dysgu gan awdurdodau lleol eraill (awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru) sydd wedi cymryd camau breision mewn meysydd lle y gwelir angen - Cyfleoedd i weithio gyda staff eraill i'w mentora i symud y ddarpariaeth ymlaen ymhellach.						



Ffynhonnell: Grŵp Cymheiriaid Trawsnewid 2018 a Dadansoddiad o'r Gwerthusiad

Ffigwr 4.3: Proffil trosolwg o awdurdodau lleol – y rhai sy'n sicrhau cynnydd mwy cyfyngedig – tri awdurdod lleol (awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru)

	Lensys Trawsnewid						
	Gweledigaeth	Dylunio	Cynllunio	Arweinyddiaeth Drawsnewidiol	Cydweithio	Atebolrwydd	Pobl
Lefel a Sicrhawyd Eisoos yn y Matrics Aeddfedrwydd	Enghreifftiau Lefel 2: Mae gweledigaeth yn bodoli, ond mae'n golygu gwahanol bethau i wahanol bobl	Enghreifftiau Lefel 1: Nid oes un dyluniad, neu nid yw dyluniadau amrywiol yn gydgyssylltiedig	Enghreifftiau Lefel 2: Mae cynlluniau yn dechrau cael eu cysylltu. Mae angen rhoi mwy o ffocws i uchelgais a'r gallu i gyflawni	Enghreifftiau Lefel 2: Ceir cefnogaeth ar gyfer trawsnewid ar y brig, yn ogystal â rhai asiantau newid. Ceir cyfarfodydd a ffyrdd o gyflwyno syniadau	Enghreifftiau Lefel 2: Ceir rhywfaint o ddealltwriaeth o randdeiliaid. Nid yw ymddygiad cydweithredo l yn gyffredin eto	Enghreifftiau Lefel 1: Mae cyfrifoldebau ac atebolrwydd dros drawsnewid yn aneglur	Enghreifftiau Lefel 2: Deallir effaith trawsnewid ar bobl, ffyrdd o weithio a diwylliant
Meysydd i'w Datblygu er mwyn Gwella'r Sgôr yn y Matrics Aeddfedrwydd	- Gwaith i gydgyhyrchu gweledigaeth, cynllun a dyluniad er mwyn cyflawni dull Ariannu Hyblyg - Ffurfioli strwythurau atebolrwydd ac arweinyddiaeth ymhellach - Anogaeth weithredol ar gyfer cydweithio, gan gynnwys pwyslais ar symud i ffwrdd o 'seilos' gwaith mewnol. Dylai hyn arwain at dargedu mecanweithiau i ddatblygu cydweithio allanol - Nodi cynlluniau manwl ar gyfer datblygu'r gweithlu a mecanweithiau i gyfleu gweledigaeth, cynllun a dyluniad y rhaglen mewn ffordd weithredol a rheolaidd i'r holl staff a'r rhanddeiliaid mewnol ac allanol.						
Anghenion Cymorth Posibl	- Cymorth manylach ar gyfer strwythurau tîm arwain uwch yn yr awdurdod lleol, gan gynnwys hwyluso partneriaethau gydag awdurdodau lleol sy'n sicrhau perfformiad cryfach (gan gynnwys cyfleoedd cysgodi a mentora) - Darparu dirnadaeth a dysgu gan awdurdodau lleol eraill (awdurdodau braenaru ac awdurdod nad ydynt yn awdurdodau braenaru) sydd wedi cymryd camau breision mewn meysydd lle y gwelir angen - Rhoi blaenoriaeth i fanteisio ar gyfleoedd i weithio gyda staff eraill i'w mentora er mwyn symud y darparu yn ei flaen ymhellach.						



Ffynhonnell: Grŵp Cymheiriaid Trawsnewid 2018 a Dadansoddiad o'r Gwerthusiad

5. Fframwaith Canlyniadau

- 5.1 Cyn y cyhoeddiad Gweinidogol a gadarnhaodd ddyfodol dull Ariannu Hyblyg (Hydref 2018) a'r cytundeb y dylid cael un fframwaith canlyniadau integredig er mwyn helpu i fonitro'r rhaglen, roedd gwaith eisoes wedi cychwyn i ddatblygu fframwaith canlyniadau integredig unigol ar gyfer y rhaglen.
- 5.2 Nod y Fframwaith Canlyniadau hwn yw caniatáu i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i asesu perfformiad dull Ariannu Hyblyg yn gyffredinol er mwyn pennu'r graddau y mae'n cyflawni ei amcan i:
- ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar a chymorth atal er mwyn sicrhau ffyniant a lles holl breswylwyr Cymru yn y tymor hir, sy'n atal problemau rhag gwaethygu a'r rhai y bydd gofyn iddynt gael cymorth pellach a mwy cymhleth efallai yn nes ymlaen yn eu bywyd.
- 5.3 Arweiniwyd y gwaith datblygiadol cychwynnol hwn gan dîm Cefnogi Pobl ym maes Polisi Tai o fewn Llywodraeth Cymru, ond wedi hyn, fe'i cynhaliwyd gan aelodau'r tîm gwerthuso. Roedd y gwaith datblygiadol hwn yn cynnwys ymgynghoriadau gyda'r 10 arweinydd grant sy'n cael eu cynnwys yn null Ariannu Hyblyg, gyda staff Gwasanaethau Dadansoddi a Gwybodaeth yn Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ymgynghori gyda staff mewn dau awdurdod lleol braenaru.
- 5.4 Ychwanegwyd at hyn gan gyfres o weithdai ac ymgynghoriadau gydag arweinwyr Ariannu Hyblyg mewn awdurdodau lleol, yn ogystal â Llywodraeth Cymru ac arweinwyr rhaglen mewn awdurdodau lleol, a gwmpaswyd gan Ariannu Hyblyg ynghylch cynnwys y Fframwaith Canlyniadau drafft²⁵.
- 5.5 Amlygodd y gwaith bod angen y canlynol ar y Fframwaith Canlyniadau:
- nifer gyfyngedig o ganlyniadau a mesurau i'w defnyddio mewn fframwaith yn y dyfodol, ac y byddai'r fframwaith a fyddai'n deillio o hyn mor syml ac effeithiol ag y bo modd

²⁵ Bu tri drafft o'r fframwaith: Ionawr 2019, Mawrth 2019, a'r tablau diwygiedig sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

- gwneud defnydd cyson o iaith i ddisgrifio canlyniadau ac allbynnau er mwyn sicrhau gweithrediad cyson ar draws grantiau, a'r 10 rhaglen sy'n cael eu cwmpasu gan y ddau grant er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng pa mor berthnasol ydynt i CCG a HSG
- cyd-fynd â chanlyniadau Hawliau'r Plentyn CU a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a chynnwys dangosyddion cenedlaethol sy'n ymwneud â'r dyletswyddau statudol sy'n gysylltiedig gyda gwasanaeth Trais yn Erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
- peidio disgwyl i'r holl raglenni sy'n ymwneud â dulliau Ariannu Hyblyg lleol i adrodd yn erbyn yr holl nodau a'r canlyniadau yn y fframwaith. Yn hytrach, dim ond yn erbyn nodau/canlyniadau sydd fwyaf berthnasol i natur ac anghenion y grwpiau cleientiaid y maent yn gweithio gyda nhw y dylid adrodd.


- 5.6 Amlygodd, **yn bwysicach na dim**, y dylai'r fframwaith sicrhau bod y canlyniadau yr oedd wedi adrodd amdanynt yn defnyddio mecanweithiau monitro ac adrodd presennol a'r data y maent yn ei gasglu, yn hytrach nag awdurdodau yn gorfod sefydlu systemau hollol newydd. Ni ddylid disgwyl bod awdurdodau lleol wedi creu haen newydd o weithgarwch casglu data, ond yn hytrach, dylent ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n bodoli eisoes er mwyn adrodd yn erbyn y fframwaith.
- 5.7 Mae'r Fframwaith Canlyniadau drafft sydd wedi deillio o hyn (diweddarwyd ym mis Medi 2019) yn defnyddio strwythur haenog sy'n datblygu o gysylltiadau gyda'r nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015²⁶ (Brig i Lawr), a hefyd, trwy gynnwys enghreifftiau penodol o allbynnau a gweithgareddau rhaglen unigol (Gwaelod i Fyny) o'r 10 rhaglen sy'n cael eu cynnwys yn y dull dau grant.
- 5.8 Mae Ffigwr 5.1 yn cynnig darlun o'r fframwaith, sy'n dangos sut y mae ei rannau yn cyd-fynd â'i gilydd, gan ddangos sut y gellir gweld bod gweithgareddau ac allbynnau ar lefel rhaglen yn cyfrannu at gyflawni

²⁶ Gweler [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#)

gweledigaeth y rhaglen, yn ogystal â'r ffordd y maent yn cydweddu gyda'r Dangosyddion Cenedlaethol a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol.

- 5.9 Ni ddisgwylir i'r allbynnau enghreifftiol a'r gweithgareddau enghreifftiol fod yn rhan o'r ddarpariaeth ym mhob awdurdod lleol, neu i bob rhaglen sy'n ymwneud â darparu CCG a HSG, ond yn hytrach, maent yn dangos enghreifftiau o allbynnau a gweithgareddau er mwyn dangos cydweddu.

Ffigwr 5.1: Trosolwg o'r cydgysylltiad rhwng rhannau o'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Ariannu Hyblyg



- 5.10 Dylanwadwyd ar ddyluniad y Fframwaith Canlyniadau gan y **diffiniad o Ymyrraeth Gynnar ac Atal**²⁷ hefyd.
- 5.11 Mae'r gwaith cydweddu ariannu a gychwynnwyd gan Lywodraeth Cymru yn ôl yn niwedd 2016/dechrau 2017 wedi bod yn canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darpariaeth EIPS yng Nghymru.
- 5.12 Mae EIPS yn cyfeirio at ddarparu gwasanaeth y mae'r Sefydliad Ymyrraeth Gynnar yn ei nodi fel a ganlyn:
- 'Mae ymyrraeth gynnar yn golygu nodi a darparu cymorth cynnar effeithiol i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef canlyniadau gwael.'*
- 5.13 Mae'r diffiniad hwn yn amlygu rôl y math hwn o gymorth ym mywydau plant a phobl ifanc, gan nodi'r canlynol:
- 'Mae ymyrraeth gynnar effeithiol yn gweithio i atal problemau rhag codi, neu mae'n ceisio mynd i'r afael â nhw yn uniongyrchol cyn iddynt waethygu.'* (EIF 2018, t.5)
- 5.14 Mae'n ychwanegu:
- 'Nid yw ymyrraeth gynnar yn ymwneud â'r hyn sy'n digwydd yn y blynyddoedd cynnar yn unig. Er bod y blynyddoedd cyn y bydd plentyn yn dechrau mynychu ysgol yn gam pwysig yn eu datblygiad, gall problemau godi ar unrhyw adeg. Gall ymyriadau effeithiol wella cyfleoedd plant mewn bywyd ar unrhyw adeg yn ystod plentyndod a llencyndod.'* (EIF 2018, t.5)
- 5.15 At hynny, mewn adolygiad o arfer Ymyrraeth Gynnar ac Atal a gynhaliwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus²⁸ nodir ffocws ehangach²⁹ ar fywyd cynnar plentyn **ac** ar fywyd cynnar y broblem(problemau)/mater(ion) y rhoddir sylw

²⁷ Gwerthfawrogi nad yw rhai rhaglenni yn canolbwyntio ar Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth yn unig, a'u bod yn gwasanaethu dibenion eraill megis cynnaladwyedd rhywfaint o'r gwasanaeth a ddarparir; felly, ni fydd Fframwaith Ariannu Hyblyg yn cynnwys pob agwedd ar ddarpariaeth y rhaglenni hyn yn llawn.

²⁸ Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (2012) '[Early Intervention with Children and Families: Getting the Most Out From Team Around the Family Systems](#)', Prifysgol Oxford Brookes, Rhydychen.

²⁹ Mae hyn yn ddealladwy gan bod y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (fel sefydliad) yn targedu anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn arbennig.

iddynt a dull er mwyn rhoi sylw i broblemau ar draws uned deuluol (gyda neu heb blant dibynnol). Felly, o ystyried ffocws ehangach y 10 rhaglen o fewn dull Ariannu Hyblyg, mae'n bwysig cynnwys ffocws ar yr uned 'deuluol', os yw'n cynnwys plant neu beidio.

- 5.16 At hynny, mae'r Fframwaith Canlyniadau drafft yn ceisio cynnwys amrediad y ddarpariaeth rhaglenni a gwaith gan asiantaethau unigol a gwaith amlasiantaethol sy'n gysylltiedig gyda'r 10 rhaglen o fewn dull Ariannu Hyblyg. Ar draws y rhain, mae'n cyfeirio at gymorth a gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion er mwyn rhoi sylw i anghenion mor gynnar ag y bo modd yng nghylch bywyd ac oes y **broblem(problemau)** dan sylw er mwyn lleihau'r risg y bydd y broblem(problemau) dan sylw yn mynd yn fwy cymhleth, ac y gallent fod yn fwy niweidiol i iechyd a lles yr unigolion/teuluoedd dan sylw.
- 5.17 Mae'r fframwaith yn cysylltu allbynnau a chanlyniadau gyda chyflawni **nodau** dull Ariannu Hyblyg.
- 5.18 Mae'r **nodau** Ariannu Hyblyg hyn yn ceisio dangos y budd, neu'r gwahaniaeth, i ymgyrraedd ato a wneir i gyfranogwyr o ganlyniad i ymyrraeth, neu newid, sy'n dod yn sgil y rhaglenni yn y dull dau grant. Yn ogystal, maent yn nodi hyn yn nhermau budd, neu wahaniaeth bras, sy'n gysylltiedig gyda Dangosydd Cenedlaethol a Nod Llesiant mewn ffordd amlwg **ac**, felly, sy'n deillio o'r canlyniadau (uniongyrchol, tymor canolig a thymor hir) y mae cyfranogwyr wedi'u sicrhau o'r cymorth y maent wedi'i gael trwy ddull Ariannu Hyblyg sy'n cynnwys y 10 rhaglen.
- 5.19 Datblygir **Canlyniadau** (Mesurau Perfformio) Ariannu Hyblyg ar sail diffiniad a dynnir o'r Llyfr Majenta (Trysorlys EM 2011) yn uniongyrchol, sef:
- 'Canlyniadau yw'r cyflawniadau mesuradwy hynny y maent yn amcanion y polisi eu hunain – neu y maent o leiaf yn cyfrannu atynt – a'r manteision y maent yn eu sicrhau.'* (t.18)
- 5.20 At hynny, caiff y rhain eu cynnwys yn y Fframwaith Canlyniadau mewn ffordd sy'n caniatáu i raglenni unigol gydweddu eu darpariaeth nhw a'i ganlyniadau a'i allbynnau gyda Fframwaith Canlyniadau integredig unigol Ariannu Hyblyg.

5.21 Bwriedir i hyn adlewyrchu'r dull bras a fabwysiadwyd gan ddarparu gwasanaeth EIPS yn y Fframwaith Canlyniadau orau, lle y byddai hyn fel arfer yn cynnwys:

- Allgymorth cychwynnol ac ymgysylltu gyda chyfranogwyr (fel y cynrychiolir gan **weithgareddau** a gynhelir gan raglenni/grantiau)
- Asesiad o angen cyfranogydd a chyfeiriad at y cymorth priodol (fel y cynrychiolir gan **weithgareddau a/neu allbynnau** ar lefel rhaglen/grant)
- Ymgysylltu gyda a chyfranogi mewn cymorth (fel y cynrychiolir gan y **gweithgareddau/allbynnau (uniongyrchol)/canlyniadau Ariannu Hyblyg (uniongyrchol)** sy'n deillio o raglenni/grantiau)
- Newidiadau, effeithiau a gwelliannau yr adroddwyd amdanynt i gyfranogwyr o'r rhaglen (fel y cynrychiolir gan **ganlyniadau Ariannu Hyblyg – uniongyrchol, yn y tymor canolig a'r tymor hir** – sy'n deillio o'r rhaglenni/grantiau). Mae'n werth nodi y gallai cysylltiadau rhwng darpariaeth rhaglenni a chanlyniadau hirdymor fod yn fwy tenau, ond maent yn parhau i ddwyn ffocws pwysig wrth amlygu ble y mae'r sylfeini ar gyfer newid yn yr hirdymor yn cael eu gosod gan y cymorth a ddarparir trwy ymyrraeth gynnar.
- Y cyswllt a'r cyfraniad y mae'r canlyniadau hynny yn ei wneud i gyrhaeddiad fel y dangosir gan y **Dangosyddion Cenedlaethol** ac sy'n cael eu mapio i gyflawniad **Nodau Ariannu Hyblyg a'r Nod Llesiant Cenedlaethol** perthnasol.

5.22 Er y disgwylir i bob awdurdod lleol sicrhau cyflawniad yn erbyn yr holl Nodau Llesiant, ceir llai o gyswllt uniongyrchol rhwng y rhai isod a dull Ariannu Hyblyg; felly, er mwyn cadw'r Fframwaith Canlyniadau mor syml ag y bo modd, ni fydd y fframwaith yn rhoi sylw i'r rhain:

- Cymru gydnerth (**Nod 2**) – *“Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid hinsawdd).”*

- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (**Nod 6**) – *“Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.”*
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (**Nod 7**) – *“Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.”*

5.23 Wrth lunio'r Fframwaith Canlyniadau, rydym wedi ceisio mapio yn erbyn y Nodau Llesiant Cenedlaethol y mae dull Ariannu Hyblyg yn cyd-fynd â nhw fwyaf (gweler Ffigurau 5.2–5.7 yn Atodiad B am y manylion llawn), sef:

- **Cymru lewyrchus**
 - **Nod 1 Ariannu Hyblyg:** Caiff cyfranogwyr y rhaglen eu cynorthwyo i sicrhau gwaith, symud yn eu blaen ac aros mewn gwaith.
 - **Canlyniad dros y Tymor Canolig:** Nifer o bobl mewn angen yn sicrhau cyflogaeth (isafswm o 16 awr yr wythnos).
 - **Canlyniadau dros y Tymor Hir:** Cyfran o aelwydydd a gynorthwyir sydd heb waith, a nifer gynyddol o bobl a gynorthwyir sydd ag anableddau a nodweddion gwarchodedig, mewn cyflogaeth.
- **Cymru iachach**
 - **Nod 3 Ariannu Hyblyg:** Gwelir gwelliant yn iechedd corfforol a meddyliol cyfranogwyr ar y rhaglen, ac maent yn deall y dewisiadau a'r ymddygiad a fydd yn cynorthwyo hynny.
 - **Canlyniadau dros y Tymor Canolig:** Nifer o bobl mewn angen yn adrodd am welliant o ran eu hiechedd meddwl a'u lles emosiynol; nifer o bobl mewn angen yn adrodd bod ganddynt ffordd o fyw iachach a mwy egniol; nifer o bobl mewn angen yn adrodd am welliant wrth fwyta'n iach; a

nifer o rieni yn cwblhau rhaglen rhianta wedi'i seilio ar dystiolaeth.

- **Canlyniadau dros y Tymor Hir:** Gostyngiad yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty am ymddygiad iechyd peryglus sy'n gysylltiedig gydag Ysmygu, Alcohol a Chyffuriau, a gostyngiad yn nifer y bobl mewn angen y mae gofyn iddynt gael cymorth iechyd meddwl ar lefel uchel.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal**
 - **Nod 4 Ariannu Hyblyg:** Caiff cyfranogwyr y rhaglen eu galluogi i wireddu eu potensial, beth bynnag fo eu cefndir.
 - **Canlyniadau dros y Tymor Canolig:** Mae nifer o bobl mewn angen yn gwella'u sgiliau sylfaenol; mae nifer o bobl mewn angen yn sicrhau cymhwyster neu achrediad sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol; nifer o blant y mae eu presenoldeb yn yr ysgol/mewn gofal plant wedi gwella; nifer o rieni y mae eu gallu i gynorthwyo'u plentyn gyda'u hanghenion dysgu a datblygu wedi gwella; a nifer o blant sy'n cael eu cynorthwyo yn cyflawni cerrig milltir datblygiadol.
 - **Canlyniadau dros y Tymor Hir:** Nifer o bobl mewn angen yn sicrhau cymhwyster neu achrediad sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol; cyfran o aelwydydd sy'n cael cymorth ac y maent yn byw mewn sefyllfa o dlodi yn berthynol i'r canolrif yn y DU; a chyfran o aelwydydd sy'n cael cymorth sy'n cynnwys plant sy'n byw mewn sefyllfa o dlodi yn berthnasol i'r canolrif yn y DU.

- **Cymru o gymunedau cydlynus**
 - **Nod 5a Ariannu Hyblyg:** Nid yw cyfranogwyr yn ddigartref ac maent yn byw mewn llety addas.
 - **Canlyniadau dros y Tymor Canolig:** Nifer o bobl sydd â llety ac y maent yn gallu ei reoli; nifer o bobl nad ydynt mewn perygl uniongyrchol o fod yn ddigartref; nifer o bobl y mae eu llythrennedd/gallu ariannol yn well; a nifer o bobl y mae eu sefyllfa ariannol wedi sefydlogi neu wella.
 - **Canlyniadau dros y Tymor Hir:** Cyfran o aelwydydd sy'n cael cymorth sy'n ddigartref; cyfran o aelwydydd sy'n cael cymorth sy'n byw mewn llety dros dro; a chyfran o aelwydydd sy'n cael cymorth sydd mewn dyled.
 - **Nod 5b Ariannu Hyblyg:** Mae cyfranogwyr mewn perthnasoedd diogel ac iach, gan gynnwys VAWDASV.
 - **Canlyniadau dros y Tymor Canolig:** Nifer o bobl sy'n cael cymorth yn cwblhau rhaglenni rhianta a pherthnasoedd wedi'u seilio ar dystiolaeth; nifer o deuluoedd sy'n cael eu cynorthwyo yn cwblhau rhaglenni cymorth ynghylch perthnasoedd a chydnerthedd teuluoedd; a chanlyniad ynghylch VAWDASV i'w gadarnhau³⁰.
 - **Canlyniadau dros y Tymor Hir:** Gostyngiad yn nifer y digwyddiadau trais domestig a adroddir gan bobl sy'n cael eu cynorthwyo; gostyngiad yn nifer yr achosion camddefnyddio sylweddau ymhlith pobl sy'n cael eu cynorthwyo; nifer yr achosion plant mewn angen ymhlith teuluoedd sy'n cael eu cynorthwyo; a nifer y plant sy'n cael cymorth dan ofal yr awdurdod lleol.

³⁰ Nid oes dyddiad wedi cael ei nodi eto pan fydd Llywodraeth Cymru yn nodi'r mesurau canlyniadau hyn er mwyn cynorthwyo strategaeth VAWDASV.

- **Nod 5c Ariannu Hyblyg:** Nid yw pobl sy'n cymryd rhan (gan gynnwys pobl ifanc) yn cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.
 - **Canlyniadau dros y Tymor Canolig:** Nifer o bobl sy'n cael eu cynorthwyo yn cwblhau cyrsiau perthnasoedd a rhianta; nifer o blant sy'n cael eu cynorthwyo sydd wedi gwella'u presenoldeb mewn ysgol/darpariaeth gofal plant; nifer o bobl sy'n cael eu cynorthwyo yn dangos problemau ymddygiadol; a nifer o bobl sy'n cael eu cynorthwyo yn cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.
 - **Canlyniadau dros y Tymor Hir:** Gostyngiad yn nifer y rhai a gafodd gyswllt gyda'r system cyfiawnder yng Nghymru am y tro cyntaf; gostyngiad yn y gyfradd ail-droseddu a brofwyd gan bobl yng Nghymru; a gostyngiad yng nghyfran y bobl sy'n cael eu collfarnu mewn llys ac yna, yn cael dedfryd o garchar.

6. Casgliadau

- 6.1 Mae'r adroddiad terfynol hwn yn ychwanegu at ganfyddiadau'r adroddiad interim (Hydref 2018) er mwyn nodi'r cynnydd a sicrhawyd yn null Ariannu Hyblyg rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Gorffennaf 2019, a chynhaliwyd cyfweiliadau rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2019.
- 6.2 Gan fanteisio ar y dystiolaeth o'r cyfweiliadau gydag arweinwyr a rhanddeiliaid allweddol, ynghyd â dadansoddiad o'r cynlluniau cyflawni a'r adroddiadau monitro chwarterol cyffredinol cyntaf, dangosir bod y cynnydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl i rai awdurdodau lleol er mis Medi 2018, yn enwedig i'r rhai nad ydynt eisoes wedi bod yn ymwneud â rhaglen newid sylweddol er mwyn dylanwadu ar eu dull Ariannu Hyblyg lleol.
- 6.3 Ceir rhai enghreifftiau cadarnhaol iawn, a mwy niferus, o swyddogion ar draws y 10 maes rhaglen sy'n cael eu cynnwys yn null Ariannu Hyblyg, yn cynnull i gynllunio a chyd-gomisiynu/cyd-ariannu darpariaeth, gan leihau'r gweithgarwch gweithio mewn seilos mewn rhai achosion.
- 6.4 Mae'r cynnydd a sicrhawyd er mis Medi 2018 wedi cynnwys awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru yn sefydlu adolygiadau o wasanaethau, gan asesu eu dewisiadau llywodraethu a rheoli a sefydlu fforymau, os nad oeddent eisoes yn bodoli, lle y gellir adolygu'r 10 grant sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen. Mae hyn yn adlewyrchu dulliau a fabwysiadwyd gan yr awdurdodau braenaru yn eu gwaith darparu ers i'r rhaglen gael ei sefydlu.
- 6.5 Mae'r gwaith a gynhaliwyd gan yr awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru wedi hwyluso adolygiadau a datblygiad dealltwriaeth o ddulliau eraill ac mae'n helpu i gychwyn y broses o nodi dewisiadau er mwyn cydweithio a'r potensial i integreiddio gwasanaethau.
- 6.6 Mae pum awdurdod lleol (tri awdurdod braenaru a dau awdurdod nad ydynt yn awdurdodau braenaru) wedi llwyddo i sicrhau cynnydd arbennig o dda, fel y mae strwythurau wedi'u ffurfioli mewn perthynas â gweledigaeth, dyluniad a datblygu cynllun, prosesau strwythuredig ar gyfer arweinyddiaeth ac atebolrwydd, a dulliau gweithredol ar gyfer cydweithio, yn dangos tystiolaeth ohono (gweler Ffigwr 4.1).

- 6.7 Mae'r dull un grant ar gyfer yr HSG wedi dangos canlyniadau cadarnhaol hefyd wrth i'r cynllun ddatblygu a chyd-gynhyrchu canllawiau HSG unigol newydd, cytuno ar ddulliau er mwyn asesu anghenion, cynllunio strategol ac adolygiadau darparu gwasanaeth, cydweithio a gwaith cydweithredol, a nodi ffrydiau ariannu ychwanegol, sydd wedi deillio o amrediad o waith a wnaethpwyd ar y cyd ac mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y trydydd sector a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- 6.8 At hynny, gwelir enghreifftiau eisoes yn 2018/19 ac yn ystod misoedd cynnar 2019/20 o gyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd hyblyg gan chwech o'r saith awdurdod braenaru gwreiddiol, ac mewn tri awdurdod nad ydynt yn awdurdodau braenaru. Yn yr awdurdodau hyn y gwelir y dystiolaeth gryfaf o gyfuno cyllidebau er mwyn cynorthwyo darpariaeth barhaus rhai gwasanaethau mewn meysydd angen arbenigol gan gynnwys trais domestig, iechyd meddwl, a chymorth i deuluoedd agored i niwed. Mae'r ffaith bod y gwaith hwn yn symud yn ei flaen yn dangos bod momentwm yn dechrau datblygu mewn rhai awdurdodau lleol yn erbyn yr agenda y mae Ariannu Hyblyg yn ceisio'i chyflawni.
- 6.9 Nodwyd enghreifftiau cyfyngedig o gomisiynu ar y cyd, er bod rhan fwyaf (13) yr awdurdodau lleol yn ymchwilio i ddewisiadau ar gyfer hyn ar draws EIPS presennol mewn ffordd weithredol, a gwelwyd enghreifftiau ar gyfer cymorth trais domestig, rhianta a darparu hyfforddiant.
- 6.10 Gwelir tystiolaeth o gydweithio (gan gynnwys cyfarfodydd ar y cyd) ac adolygiadau gwasanaeth gan dimau rhaglen cyfunol ar draws y 10 rhaglen o fewn dull Ariannu Hyblyg, er bod rhywfaint o wahaniad o hyd o ganlyniad i wahaniad parhaus CCG a HSG mewn rhai awdurdodau lleol (4) nad yw wedi cael ei oresgyn eto. Mae dau awdurdod lleol yn nodi mai cydweithio fu'r maes mwyaf nodedig lle y gwelwyd effaith o ganlyniad i'w dull Ariannu Hyblyg lleol, fel yr arsylwyd trwy ein dadansoddiad o ganfyddiadau'r cyfweiliadau.

- 6.11 Mae mwy o waith i'w wneud o hyd ar draws amrediad o awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru er mwyn lleihau'r amrywiad mewn dulliau Ariannu Hyblyg a welwyd yng nghanfyddiadau'r gwerthusiad. Y ffordd orau o fynd i'r afael â hyn yw trwy ddatblygu agweddau allweddol ar Fframwaith 7 Lens Trawsnewid ymhellach, gan gynnwys ffurfioli ac ymestyn datblygiad y weledigaeth, y dyluniad a'r cynllun er mwyn cynnwys cynlluniau strategol a busnes, yn ogystal â dyluniad terfynol EIPS ar lefel leol. Yn ogystal, dylai gynnwys cyfathrebu unrhyw newidiadau yn ehangach i staff ar draws awdurdodau mewn ffordd effeithiol, fel bod lefelau dealltwriaeth o'r ethos newid a'r amcanion yn hysbys ar lefel ehangach. Trwy ganolbwyntio ar yr agweddau hyn, bydd awdurdodau lleol nad ydynt wedi sicrhau cymaint o gynnydd (15) yn gallu darparu sylfeini pellach er mwyn i'w dull Ariannu Hyblyg symud yn ei flaen.
- 6.12 Mae datblygiad gweledigaeth llwyddiannus yn canolbwyntio ar sicrhau ei bod yn sylfaen i ddefnydd hyblyg cyllid a hyblygrwydd o ran y dull cyflawni sy'n defnyddio'r cyllid hwnnw.
- 6.13 Mae gofyn sicrhau datblygiad pellach hefyd i ffurfioli strwythurau arwain at atebolrwydd mewn awdurdodau lleol, er mwyn cynnig sylfaen i'r trawsnewidiad sy'n ofynnol er mwyn cynorthwyo dulliau Ariannu Hyblyg lleol ym mhob awdurdod.
- 6.14 Mae'r meysydd hyn yn hollbwysig gan bod tystiolaeth lenyddol yn awgrymu'n gryf bod gweledigaeth ac ethos clir, yn ogystal â chymorth arwain cadarn ar lefel uwch, yn gynhwysion allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant wrth gyflawni trawsnewidiad fel yr un sy'n sylfaen i'r dulliau lleol mwyaf llwyddiannus ar gyfer Ariannu Hyblyg. Mae'r rhain yn feysydd y byddai modd rhoi pwyslais penodol arnynt mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn amdanynt.
- 6.15 Yn ogystal, bydd gofyn i bob awdurdod, waeth beth fo'r cynnydd sy'n cael ei sicrhau wrth gyflawni'r dull Ariannu Hyblyg lleol, feddu ar ffocws dwys ar ddatblygu'r gweithlu a chymorth i staff er mwyn iddynt ymateb i rolau ac arferion gwaith newydd sy'n deillio o'r dull.

- 6.16 Gwelir derbyniad bras o'r egwyddorion a fynegwyd ynghylch nodau ac uchelgais dull Ariannu Hyblyg ac mae'r ddealltwriaeth o'r rhain yn dda ac yn gwella. Fodd bynnag, nid hon yw'r sefyllfa gyffredinol, ac mae'r rhai y maent bellaf i ffwrdd o ddatblygiad dulliau Ariannu Hyblyg lleol, yn enwedig staff darparu ar draws y 10 rhaglen, yn parhau i ddangos y gwerthfawrogiad gwaethaf o nodau ac uchelgais y rhaglen. Mae hyn yn adlewyrchu maes o fewn y prif ganfyddiadau a amlygwyd yn yr adroddiad gwerthuso interim (Llywodraeth Cymru, 2018d).
- 6.17 Yn Llywodraeth Cymru, ceir angen penodol i gynnal gwaith pellach ynghylch adolygu, a phan fo hynny'n briodol, ailosod nod strategol Ariannu Hyblyg, gan gyfleu hyn i'r holl awdurdodau lleol. Yn wir, efallai bod cwmphas i weithio gydag awdurdodau lleol i gyd-gynhyrchu hwn er mwyn cynorthwyo gweithgarwch i ymgysylltu awdurdodau lleol gyda gwaith yn y dyfodol ynghylch dull Ariannu Hyblyg. Gallai gwaith ar ddatblygu'r canllawiau HSG unigol gynnig enghreifftiau defnyddiol o'r ffyrdd gorau o ddatblygu hyn.
- 6.18 Mae'r ymdeimlad o amheuaeth yn parhau sef mai naratif pennaf y newidiadau yw bod cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer grwpiau agored i niwed yn cael ei leihau, neu y gallai cydweddu grantiau arwain at y canlyniad nas bwriadir bod ffocws y cyllid yn symud i ffwrdd o grwpiau llai 'poblogaidd yn wleidyddol'. Law yn llaw â hyn, gwelir 'pocedi' o 'weithio mewn seilos' yn parhau, lle y bydd timau rhaglen (mewn awdurdodau lleol ar y cyfan) yn ynysu eu hunain o'r newidiadau sy'n cael eu hysgogi trwy ddulliau Ariannu Hyblyg lleol. Mae hon yn nodwedd sydd fwyaf cyffredin yn yr awdurdodau hynny sydd wedi sicrhau'r cynnydd lleiaf wrth ddarparu rhaglenni, ac mae'n adlewyrchu ychydig gyfathrebu gwael o fewn awdurdodau lleol lle nad yw diben lleol llawn y newidiadau sy'n cael eu hysgogi wedi cael eu cyfleu'n llawn eto i holl aelodau'r timau rhaglen.
- 6.19 Mae angen i Lywodraeth Cymru roi amser yn 2019/20 i ddull Ariannu Hyblyg gael ei gyflawni ar draws pob awdurdod lleol a'i ddatblygu ymhellach trwy gyfrwng cymorth gan awdurdodau mwy datblygedig. Bydd hyn yn galluogi i ddulliau ymwreiddio yn fwy, yn ogystal â helpu i gynorthwyo gweithgarwch cyflwyno mwy didrafferth o fis Ebrill 2020. Mae'n bwysig i awdurdodau lleol na ystyrir bod eu hymdrechion hyd yn hyn wedi bod yn ofer wrth gyflwyno

newidiadau pellach, neu ddiwygiadau, i'r polisi, ac y cedwir at yr ymrwymïadau a wnaethpwyd yn y cyhoeddiad Gweinidogol ym mis Hydref 2018 mewn perthynas â chynnal gwaith ar y dull tan ddiwedd tymor y Cynulliad hwn.

- 6.20 Mae tri awdurdod lleol ar ôl o hyd (awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru) nad ydynt wedi sicrhau unrhyw gynnydd go iawn wrth gyflawni eu dull Ariannu Hyblyg Lleol, ac mae'n ymddangos bod rhwystrau allweddol yma wedi deillio o waith cyfyngedig wrth ddatblygu gweledigaeth glir ac sy'n berthnasol i'r ardal leol am yr hyn y bydd y rhaglen yn ei gyflawni, yn ogystal â'r ffordd y caiff hyn ei symud yn ei flaen. Law yn llaw gyda'r adnoddau cyfyngedig ar gyfer datblygiadau, mae hyn wedi rhoi'r awdurdodau hyn mewn sefyllfa lle nad ydynt mor barod ag y mae awdurdodau eraill.
- 6.21 O ganlyniad, byddai modd cyfiawnhau cynnig cymorth a dirnadaeth bellach i'r awdurdodau hynny sydd wedi sicrhau llai o gynnydd (neu'r cynnydd lleiaf) gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill sydd wedi sicrhau darpariaeth fwy ddatblygedig. Yn wir, mae pob awdurdod yn awyddus i ddysgu mwy fyth gan yr awdurdodau braenaru a byddai'r mecanweithiau er mwyn darparu dirnadaeth a gwybodaeth o'r fath yn cael eu croesawu'n fawr.

7. Argymhellion

- 7.1 Mae'r argymhellion isod yn seiliedig ar ein dadansoddiad o ganfyddiadau'r gwerthusiad fel yr amlygwyd yn yr adroddiad terfynol hwn. Maent yn nodi prif argymhellion i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid, ac ynghylch cynnal gwaith gwerthuso yn y dyfodol.

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

- 7.2 Dylai Llywodraeth Cymru nodi ffyrdd lle y byddai modd symleiddio prosesau rheoli rhaglen presennol, gan sicrhau eu bod yn cydweddu â'i gilydd yn fwy er mwyn sicrhau mwy o gysondeb o ran y dulliau gweithredu ar draws y 10 rhaglen. Bydd angen i hyn gydnabod ac adlewyrchu natur amrywiol y rhaglenni sydd o fewn dull Ariannu Hyblyg, gan ganolbwyntio ar gyfleoedd i sicrhau gweithgarwch cydweddu pellach, er gwaethaf materion allweddol sy'n ymwneud â chywirdeb neu bolisi y bydd angen eu cynnal.
- 7.3 Dylid cychwyn adolygiad o weledigaeth ac amcanion sylfaenol dull Ariannu Hyblyg er mwyn gallu ail-lunio ei weledigaeth, sy'n darparu fersiwn terfynol o'r hyn y mae'r dull yn ceisio'i gyflawni yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Wrth gyflawni hyn, dylid ystyried cynnal hyn trwy gyfrwng dulliau cyd-gynhyrchu gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allanol. Byddai modd adolygu dulliau HSG tuag at gyd-gynhyrchu er mwyn nodi dysgu mewn perthynas â'r ffordd orau o fwrw ymlaen gyda hwn.
- 7.4 Dylai Tîm Cydweddu Ariannu Llywodraeth Cymru gynnal hunan-adolygiad o'u cynnydd yn erbyn 7 Lens Trawsnewid y Matrics Aeddfedrwydd, gan ddefnyddio hyn i nodi camau pellach i'w cymryd, ac fel mecanwaith er mwyn monitro eu cynnydd parhaus yn ei erbyn.
- 7.5 Dylid rhoi blaenoriaeth i gymorth parhaus i awdurdodau lleol er mwyn datblygu'r sgysiau 'dyfnach' y mae staff o'r tîm Cydweddu Ariannu wedi cael eu cael gyda staff awdurdodau lleol. Gellir cyflawni hyn trwy gyfrwng rhaglen systematig o ddiweddariadau a gwybodaeth, gan gynnwys sesiynau gan awdurdodau braenaru sy'n cynnig dirnadaeth fanwl a negeseuon cyson ynghylch y dulliau sy'n cael eu mabwysiadu mewn dulliau Ariannu Hyblyg lleol llwyddiannus. Dylai'r diweddariadau fanteisio ar ganfyddiadau gwaith gwerthuso, adroddiadau chwarterol, a chynnwys o gyfarfodydd awdurdodau

braenaru, gan bwysleisio pwysigrwydd gweledigaeth, dyluniad a chynllun cadarn, dull atebolrwydd ac arwain wedi'i ffurfioli, a ffocws penodol ar nodi strwythurau er mwyn hwyluso cydweithio, a gynorthwyr gan raglen wedi'i thargeddu o weithgarwch datblygu'r gweithlu.

- 7.6 Parhau ac ehangu gweithgarwch ymgysylltu gyda'r rhanddeiliaid allanol (gan gynnwys cyrff cynrychioliadol a sefydliadau VCS cenedlaethol a rhanbarthol), yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â darparu CCG a HSG yn uniongyrchol, er mwyn hwyluso cyfleoedd pellach i gydweithio.

Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol a rhanddeiliaid

- 7.7 Pan fo hynny'n briodol, dylai awdurdodau lleol ganolbwyntio ar adolygu a diwygio gweledigaeth, cynllun a dyluniad eu dull Ariannu Hyblyg Lleol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ar lefel leol. Dylai hyn gynnwys ffocws penodol ar sicrhau bod y weledigaeth yn cynnwys defnyddio cyllid mewn ffordd hyblyg a hyblygrwydd o ran y dull cyflawni.
- 7.8 Dylai awdurdodau lleol gynnal hunan-adolygiad o'u cynnydd yn erbyn 7 Lens Trawsnewid y Matrics Aeddfedrwydd, gan ddefnyddio hyn i nodi camau pellach i'w cymryd, ac fel mecanwaith er mwyn monitro eu cynnydd parhaus yn ei erbyn.
- 7.9 Dylid ffurfioli ac adolygu modelau cydweithredol yn barhaus er mwyn nodi cyfleoedd i wella, gan ymestyn amrediad y partneriaid a'r rhanddeiliaid (mewnol ac allanol) sy'n ymwneud â'u gweithrediad hefyd.
- 7.10 Dylai awdurdodau lleol fuddsoddi mewn ffordd weithredol yn natblygiad ac adolygiad lleol dull ffurfiol a chyson tuag at gyfuno cyllidebau. Byddai modd peilota dull cychwynnol mewn gwasanaeth neu ardal lle y gwelir angen, er mwyn profi'r broses a'r arfer a diwygio dulliau yn ôl yr angen.
- 7.11 Dylai awdurdodau lleol geisio cyfleoedd i weithio gydag awdurdodau braenaru ac awdurdodau cyfagos er mwyn nodi cyfleoedd i rannu dirnadaeth ac arfer da.

Argymhellion ar gyfer cynnal gwaith gwerthuso yn y dyfodol

7.12 Dylai ffocws unrhyw waith gwerthuso yn y dyfodol ystyried:

- asesu'r effaith y gallai darparu dull lleol fod yn ei gael ar ganlyniadau yn y tymor canolig a'r tymor hir mewn awdurdodau lleol, ac unrhyw fanteision y gallent fod yn deillio o ddarparu EIPS wedi'i ail-lunio ar draws Cymru
- adolygu effeithiau a chanlyniadau gweithgarwch pellach i gyflwyno dull Ariannu Hyblyg, yn enwedig y mecanweithiau a'r prosesau a ddefnyddir i ymgysylltu gyda strwythurau rhanddeiliaid rhanbarthol gan gynnwys PSBs, Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, a Byrddau Rhaglen Rhanbarthol
- asesu a yw defnyddwyr gwasanaeth wedi arsylwi unrhyw effeithiau yn eu profiadau o ddarpariaeth gwasanaeth, a nodi prif nodweddion y rhain a'r rhannau cyflawni sydd fwyaf tebygol o sicrhau canlyniadau cadarnhaol iddynt
- profi effeithlonrwydd a defnydd o'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer dull Ariannu Hyblyg a nodi diwygiadau pellach pan fo hynny'n briodol.

Cyfeiriadau

Amin-Smith, N., Phillips, D. and Simpson, P. (2016) '[Council level figures on spending cuts and business rates income](#)'. IFS Observation, Llundain.

Cameron, A., Macdonald, G., Turner, W. and Lloyd, L. (2007) '*The challenges of joint working: lessons from the Supporting People Health Pilot evaluation*'.

International Journal of Integrated Care, 2007, Hydref-Rhagfyr 7 (4).

Campbell et al. (2008). '*The experience of pay for performance in English family practice: a qualitative study*'. Ann Fam Med, 6:228-34.

Chowdry, H. and Oppenheim, C. (2015) '*Spending on Late Intervention. How can we do better for less*'. Sefydliad Ymyrraeth Gynnar, Llundain. Ar gael trwy droi at:

[Spending on Late Intervention](#)

Connell, A., Martin, S. and St Denny, E. (2016) '*Reshaping Homelessness Policy in Wales*', Papur Cynhadledd. Ar gael trwy droi at: [Reshaping Homelessness Policy in Wales](#)

Cynghorydd R. Lewis (2018) '*Cabinet to consider three-year Community Hub programme*', Datganiad i'r wasg Cyngor Bwrdeistref Sirol RCT. Ar gael trwy droi at:

[Cabinet to consider three-year Community Hub programme](#)

DCLG (2013a) '*Neighbourhood Community Budget Programme: Research, learning, evaluation and lessons*', DCLG, Llundain. Ar gael trwy droi at: [Neighbourhood Community Budget Programme: Research, learning, evaluation and lessons](#)

DCLG (2013b) '*A guide to the local government finance settlement in England*', DCLG, Llundain. Ar gael trwy droi at: [A guide to the local government finance settlement in England](#)

Adran Addysg (2010) '*Turning around the lives of families with multiple problems*'. York Consulting.

Adran Addysg (2017) '*Creating Strong Communities in North East Lincolnshire*', York Consulting Ltd. Ar gael trwy droi at: [Creating Strong Communities in North East Lincolnshire](#)

Devine, L. (2017) '*Rethinking Child Protection Strategy*' Presentation to the 7th World Congress on Family Law and Children's Rights, Dulyn. Ar gael trwy droi at:

[Rethinking Child Protection Strategy](#)

Drummond McFarlane (2012) '*Services shared: costs spared? An analysis of the financial and non-financial benefits of local authority shared services*', LGA, Llundain.

Ar gael trwy droi at: [Services shared: costs spared?](#)

Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (2014) '*Early Intervention 'Maturity Matrix' - A Place's Early Intervention Journey*', EIF, Llundain. Ar gael trwy droi at [Early Intervention 'Maturity Matrix'](#)

Awdurdod Prosiectau Seilwaith a Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth (2018) '*7 Lenses of Transformation*', Llundain. Ar gael trwy droi at: [7 Lenses of Transformation](#)

Hood, C. and Margetts, H. (2007) '*The Tools of Government in the Digital Age*', Macmillan, Llundain (2il Rifyn).

Tŷ'r Cyffredin, Senedd y DU (2016) '*Children's Centres: Closures: Written Parliamentary question – 55895*', 1 Rhagfyr 2016. Ar gael trwy droi at: [Children's Centres: Closures: Written Parliamentary question](#)

Materion Tai Cymru (2018) '*Safeguarding the future of homelessness and housing-related support services in Wales*'. Ar gael trwy droi at: [Safeguarding the future of homelessness and housing-related support services in Wales](#)

Hoyle, E. and Wallace, M. (2005) '*Educational Leadership: Ambiguity, Professionals and Managerialism*'. Llundain: SAGE Publications.

Trysorlys EM (2011) '[The Magenta Book](#)', Llywodraeth y DU, Llundain.

Ipsos MORI a Wavehill Consulting (2015) '*Cymunedau yn Gyntaf: Gwerthusiad o'r broses*', Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Ar gael trwy droi at: [Gwerthuso Cymunedau yn Gyntaf](#)

Klietz, S., Borduin, C. and Schaeffer, C. (2010), '*Cost–benefit analysis of multisystemic therapy with serious and violent juvenile offenders*', Journal of Family Psychology, Cyf. 24, No. 5, pp. 657–666.

Maisey et al. (2008). '*Effects of payment for performance in primary care: qualitative interview study*'. J Health Serv Res Policy, 13:133-9.

Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (Mawrth 2018) '*Troubled Families Annual Report*', MHCLG, Llundain. Ar gael trwy droi at: [Troubled Families Annual Report](#)

Murray, J. and Farrington, D.P. (2010) '*Risk Factors for Conduct Disorder and Delinquency: Key Findings from Longitudinal Studies*'. Can J Psychiatry. 2010;55(10):633–642.

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2013) '*Integration Across Governments*'. Ar gael trwy droi at: [Integration Across Governments](#)

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2016) '*Financial sustainability of local authorities: capital expenditure and resourcing*', Llundain. Ar gael trwy droi at: [Financial sustainability of local authorities: capital expenditure and resourcing](#)

Y Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus (2003) '*Integrating Children's Services: issues and practice*'.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) [Adverse Childhood Experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh adult population](#) Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2015) '*Quantifying the benefits of early intervention in Wales: A feasibility study*'. Ar gael trwy droi at: [Report Quantifying the benefits of early intervention](#)

Sebba, J., Luke, N., McNeish, D. and Rees, A. (2017) '*Children's Social Care Innovation Programme*', Adran Addysg, Llundain. Ar gael trwy droi at: [Children's Social Care Innovation Programme, Final Report](#)

Secker, J. and Hill, K. (2001) '*Broadening the partnerships: experiences of working across community agencies*', Journal of Inter-professional Care. 2001 Tach; 15(4):341–50.

Solace and Civca (2016) '*Invigorating the Public Sector Revolution*', Llundain. Ar gael trwy droi at: [Knowledge reports/guides - Invigorating the public sector revolution](#)

Sutton et al. (2012). '*Reduced Mortality with Hospital Pay for Performance in England*'. New England Journal of Medicine, 367:1821-8.

Tickle, L. (2018) '*Care for our children is in crisis. We must give their families more help*'. The Guardian 21 Mehefin 2018. Ar gael trwy droi at: [Care children, crisis-families, more help, state spending](#)

Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2017) '*A delicate balance? Health and Social Care Spending in Wales*', Prifysgol Caerdydd, Caerdydd. Ar gael trwy droi at: [A delicate balance health social care, spending in wales](#)

Llywodraeth Cymru (2015) [Cyllideb Ddrafft 2016 i 2017](#) Rhagfyr 2015.

Llywodraeth Cymru (2017) '*Press Notice accompanying release of the Outline 2018/19 Budget, 3rd October 2017*', Caerdydd. Ar gael trwy droi at: [Cyllideb newydd i Gymru](#)

Llywodraeth Cymru (2017) '*Draft Budget 2018-19 Detailed Proposals*', Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Ar gael trwy droi at: [Cyllideb Derfynol 2018 i 2019](#)

Llywodraeth Cymru (2018a) '*Flexible Funding Information Leaflet*', Mawrth 2018, Caerdydd.

Llywodraeth Cymru (2018b) '*Flexible Funding Programme*', Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Ar gael trwy droi at: [Gwella gwasanaethau cyhoeddus](#)

Llywodraeth Cymru (2018c) '*Specification for: Evaluation of the Flexible Funding Project*', Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

Llywodraeth Cymru (2018d) '*Evaluation of the Flexible Funding Programme: Interim Report*', Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Ar gael trwy droi at: [Gwerthuso'r Rhaglen Ariannu Hyblyg](#)

CLILC (2018) [Fair and Sustainable Funding for Essential Local Services](#) Awst 2018.

York Consulting Ltd. (2017) '*Creating Strong Communities in North East Lincolnshire*', Adran Addysg. Ar gael trwy droi at: [Evaluation Report of Creating Strong Communities North East Lincolnshire](#)

Atodiad A: Damcaniaeth Newid y Rhaglen

Mewnbynnau	Gweithgareddau →	Allbynnau →	Canlyniadau (Tymor Byr)	Canlyniadau (Tymor Canolig/Hir) ac Effeithiau
Cymorth gan y Tîm Pontio Ariannu (4-5 o bersonél Llywodraeth Cymru) Yr arian yn deillio o'r deg grant sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Ariannu Hyblyg	<u>Ar draws y Rhaglen</u> - Darparu Canllawiau Atodol am Weithredu'r rhaglen Ariannu Hyblyg er mwyn cynorthwyo gweithgarwch Cynllunio'r Ddarpariaeth. - Sefydlwyd a hwyluswyd grŵp Braenaru cenedlaethol er mwyn gallu rhannu gwybodaeth ac arfer. - Cymorth gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r rhaglen trwy gyfrwng Grwpiau Llywio Braenaru a chymorth i awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau braenaru. - Cynorthwyo gweithgarwch rhannu gwybodaeth am y broses a'r arfer rhwng awdurdodau lleol. - Comisiynwyd gwerthusiad o awdurdodau braenaru er mwyn nodi dysgu parhaus ac arfer gorau, er mwyn helpu i siapia darpariaeth yn ystod y cyfnod o ddarparu'r rhaglen. - Sefydlwyd prosesau gweinyddol, monitro a gwerthuso. <u>Awdurdodau Braenaru</u> - Adolygiad o'r gwasanaeth a ddarparir. - Adolygu gwaith dadansoddi anghenion. - Ailgynllunio'r gwasanaeth a ddarparir. - Adolygu ac ailgynllunio Strwythurau Llywodraethu. - Defnydd llawn o hyblygrwydd ariannu.	<u>Ar draws y Rhaglen</u> - Cwblhawyd cynlluniau cyflawni gan awdurdodau lleol. - Gweithgarwch gwell i rannu gwybodaeth ac arfer. - Cymorth estynedig i awdurdodau braenaru a'r rhai nad ydynt yn awdurdodau braenaru. - Nodi dysgu parhaus er mwyn siapia'r ddarpariaeth. <u>Awdurdodau Braenaru</u> - Cwblhawyd adolygiadau. - Nifer y gweithgareddau ail-gynllunio gwasanaeth a gwblhawyd. - Strwythurau llywodraethu diwygiedig a sefydlwyd.	<u>Ar draws y Rhaglen</u> - Nifer is o gyfeiriadau i Lywodraeth Cymru i drosglwyddo cronfeydd. - Llai o orbenion gweinyddol er mwyn gwasanaethu llai o grantiau. - Datblygu Fframwaith Canlyniadau er mwyn delio â holl ddarpariaeth EIPS. Newid diwylliant o ran cydweithio, llai o weithio mewn seilos. <u>Awdurdodau Braenaru</u> - Ailgynllunio gwasanaethau awdurdodau lleol er mwyn adlewyrchu anghenion lleol ac ymateb iddynt. Rhoi sylw gwell i anghenion defnyddwyr. - Nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n adrodd am fwy o fodlonrwydd gyda'r cymorth a gafwyd yn codi.	<u>Ar draws y Rhaglen</u> - Mae gan awdurdodau lleol ddull gweithredu mwy cydgysylltiedig wrth adnabod angen, ac mae hyn yn eu galluogi i nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth ac unrhyw ddyblygu posibl - Mae dadansoddi anghenion yn ysgogi gweithgarwch ar y cyd i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar draws terfynau adrannol traddodiadol - Gweithgarwch gwell er mwyn rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau, sy'n cynorthwyo gwaith cynllunio a darparu - Mae'r gwaith o gynllunio gwasanaethau ar draws y 10 rhaglen cyfansoddol yn cyd-fynd â'r un set o ganlyniadau - Adolygwyd trefniadau gweinyddol ac ystyriwyd cyfleoedd adleoli adnoddau staff fel ffordd o leihau'r gorbenion gweinyddu grant. - Mae'r galw am gymorth gan wasanaethau statudol yn lleihau. - Un gwasanaeth cyfeirio a chymorth ar gyfer pobl agored i niwed. - Gwelir gwelliant o ran dysgu a rhannu llwyddiant a methiannau. Llwyddwyd i sicrhau arbedion amcangyfrifedig. <u>Awdurdodau Braenaru</u> - Canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth. - Mae gan ALLau fwy o hyblygrwydd ariannol - Dulliau comisiynu amgen gan ALI. Cofnodwyd y costau a arbedwyd.

	<u>Awdurdodau nad ydynt yn Awdurdodau Braenaru</u> • Adolygu'r gwasanaeth a ddarparir a'i ailgynllunio. • Adolygu gwaith dadansoddi anghenion. • Defnyddio hyblygrwydd gyda'r arian mewn grantiau penodedig.	<u>Awdurdodau nad ydynt yn Awdurdodau Braenaru</u> • Cwblhawyd adolygiadau.	<u>Awdurdodau nad ydynt yn Awdurdodau Braenaru</u> • Ailgynllunio'r gwasanaeth. • Darpariaeth well yn seiliedig ar anghenion.	<u>Awdurdodau nad ydynt yn Awdurdodau Braenaru</u> • Canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth. • Mae gan ALLau fwy o hyblygrwydd ariannol • Dulliau comisiynu amgen gan ALI. • Cofnodwyd y costau a arbedwyd.
--	--	---	--	---

Atodiad B: Fframwaith Canlyniadau – Nodau Ariannu Hyblyg Diwygiedig

Ffigwr 5.2: Fframwaith Canlyniadau – Nod 1 Ariannu Hyblyg (Diwygiwyd Medi 2019)

Nod Llesiant Cenedlaethol 1: Cymru Lewyrchus

Dangosyddion Cenedlaethol (y mae modd eu dadgyfuno i lefel leol):

(16) Canran y bobl mewn cyflogaeth sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro ac nad ydynt yn ceisio cyflogaeth barhaol) sy'n ennill dros 2/3 o'r cyflog canolrifol yn y DU.

(19) Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd lle y gwelir amddifadedd materol.

Nod 1 Ariannu Hyblyg: Caiff cyfranogwyr eu cynorthwyo i sicrhau, gwneud cynnydd ac aros mewn gwaith.

Mae'r amcanion sylfaenol yn cynnwys:

- pobl ifanc yn ymgysylltu â dysgu addysgiadol
- mae pobl yn ymgysylltu â chyflogaeth a gwaith gwirfoddol
- mae rhieni yn cael eu cynorthwyo wrth weithio
- plant nad ydynt yn byw mewn sefyllfa o dlodi.

Canlyniadau Dull Ariannu Hyblyg (Mesurau Perfformiad CAMPUS)

(Canlyniadau) uniongyrchol

- Nifer y bobl mewn angen sy'n ceisio cyflogaeth mewn ffordd weithredol*
- Nifer y bobl mewn angen sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant/cyrsiau sy'n helpu i sicrhau cyflogaeth*
- Nifer y bobl mewn angen sy'n ymgysylltu gyda ac yn cael cymorth cyflogadwyedd*

Tymor Canolig

- Nifer y bobl mewn angen sy'n sicrhau cyflogaeth (o leiaf 16 awr yr wythnos)*

Tymor Hir

- Cyfran yr aelwydydd a gaiff eu cynorthwyo sydd heb waith
- Nifer uwch o bobl sy'n cael eu cynorthwyo ac sydd ag anableddau a nodweddion gwarchodedig mewn cyflogaeth

Allbynnau Enghreifftiol

- **C&P:** Nifer y lleoedd gofal plant cofrestredig sydd ar gael
- **CFW+/LF/SP/SDF:** Nifer y bobl sy'n cael cymorth er mwyn eu helpu i sicrhau cyflogaeth

Gweithgareddau Enghreifftiol

- **C&P:** Cymorth a roddir i'r sector gofal plant a chwarae er mwyn rhoi sylw i'r bylchau yn y ddarpariaeth
- **CFW+/LF/SP/SDF:** Darparu cymorth er mwyn helpu pobl i sicrhau cyflogaeth

Rhaglenni sy'n Cydweddu Fwyaf gyda'r Nod Ariannu Hyblyg hwn

PPE	☒	SDF	☒	SP	☒	HP		RSWE	
LF	☒	CFW+	☒	C&P	☒	FF	☒	FS	

Ffigwr 5.3: Fframwaith Canlyniadau – Nod 3 Ariannu Hyblyg (Diwygiwyd Medi 2019)

Nod Llesiant Cenedlaethol 3: Cymru Iachach

Dangosyddion Cenedlaethol (y mae modd eu dadgyfuno i lefel leol):

- (1) Canran y genedigaethau byw unigol sy'n pwysu dan 2,500g ar enedigaeth.
- (2) Disgwyliad oes iach ar enedigaeth, gan gynnwys y bwlch rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig.
- (3) Canran yr oedolion sy'n dangos llai na dau ymddygiad ffordd o fyw iach (ddim yn ysmegu, pwysau iach, yn bwyta pum darn o ffrwythau neu lysiau bob dydd, ddim yn yfed yn uwch na'r canllawiau, ac sy'n bodloni'r canllawiau ynghylch gweithgarwch corfforol).
- (29) Sgôr llesiant meddwl cymedrig i bobl*.

Nod 3 Ariannu Hyblyg: Caiff iechyd corfforol a meddyliol cyfranogwyr ei wella, ac maent yn deall y dewisiadau a'r ymddygiad a fydd yn cynorthwyo hynny.

Mae'r amcanion sylfaenol yn cynnwys:

- pobl mewn angen yn iach yn gorfforol
- pobl mewn angen yn iach yn feddyliol (i oedolion a phlant).

Canlyniadau Dull Ariannu Hyblyg (Mesurau Perfformiad CAMPUS)

(Canlyniadau) uniongyrchol

- Nifer y rhieni sy'n cael eu cynorthwyo i wella eu gallu i gynorthwyo iechyd a lles eu plentyn
- Nifer y bobl mewn angen sy'n cael cymorth ar gyfer ymddygiad iechyd peryglus sy'n gysylltiedig gydag: Ysmegu, Alcohol, Cyffuriau, ac ati.*
- Nifer y bobl mewn angen sy'n cael eu cynorthwyo ar gyfer anghenion iechyd a lles meddyliol*

Tymor Canolig

- Nifer y bobl mewn angen sy'n adrodd am welliant o ran eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol*
- Nifer y bobl mewn angen sy'n adrodd am ffordd o fyw iachach a mwy gweithredol*
- Nifer y bobl mewn angen sy'n adrodd am welliant o ran bwyta'n iach*
- Nifer y rhieni sy'n cwblhau rhaglen rhianta wedi'i seilio ar dystiolaeth

Tymor Hir

- Gostyngiad yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer ymddygiad iechyd peryglus sy'n gysylltiedig gydag Ysmegu, Alcohol, a Chyffuriau*
- Gostyngiad yn nifer y bobl y mae gofyn iddynt gael cymorth iechyd meddwl ar lefel uchel

Allbynnau Enghreifftiol

- **FF/SP:** Nifer y bobl yr aseswyd bod angen cymorth lles emosiynol a meddyliol arnynt, lefelau gweithgarwch corfforol, iechyd corfforol*, a'u bod yn dangos ymddygiad iechyd peryglus sy'n gysylltiedig ag: Ysmegu, Alcohol, Cyffuriau, ac ati.*
 - **C&P/FS:** Nifer y plant agored i niwed sy'n cael gofal plant
 - **PPE:** Nifer y bobl ifanc y nodwyd bod ganddynt broblemau camddefnyddio sylweddau
 - **LF:** Nifer y bobl y nodwyd bod ganddynt broblemau sy'n gysylltiedig â'u hiechyd ac a gyfeiriwyd at gymorth camddefnyddio sylweddau

Gweithgareddau Enghreifftiol

- **FF:** Darparu dosbarthiadau rhianta a chyfeirio at wasanaethau iechyd, cyn-enedigol ac ôl-enedigol
- **C&P/FF:** Darparu gofal plant/seibiant i deuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan anabledd/AAA
- **FS:** Darparu gwasanaethau ymweliadau iechyd, cyngor ynghylch iechyd a dosbarthiadau rhianta
- **LF:** Darparu cyngor a chymorth am iechyd a materion cysylltiedig

Rhaglenni sy'n Cydweddu Fwyaf gyda'r Nod Ariannu Hyblyg hwn

PPE	☒	SDF	☒	SP	☒	HP		RSWE	
LF		CFW+		C&P	☒	FF	☒	FS	☒

Ffigwr 5.4: Fframwaith Canlyniadau – Nod 4 Ariannu Hyblyg (Diwygiwyd Medi 2019)

Nod Llesiant Cenedlaethol 4: Cymru sy'n Fwy Cyfartal

Dangosyddion Cenedlaethol (y mae modd eu dadgyfuno i lefel leol):

(6) Mesur datblygiad plant ifanc.

(7) Sgôr 9 pwynt wedi'i chapio gyfartalog disgyblion, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

(8) Canran yr oedolion sy'n meddu ar gymwysterau ar wahanol lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol

(24) Canran y bobl sy'n fodlon gyda'u gallu i gael/manteisio ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt

Nod 4 Ariannu Hyblyg: Mae cyfranogwyr yn cael eu galluogi i wireddu eu potensial, waeth beth fo eu cefndir.

Mae'r amcanion sylfaenol yn cynnwys:

- plant yn dechrau yn yr ysgol yn barod i ddysgu yn yr un modd â'u cymheiriaid
- y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur yn cael eu cynorthwyo i sicrhau cyflogaeth
- plant sy'n cael eu heffeithio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod (ACEs) neu y maent mewn perygl o gael eu heffeithio gan ACEs, heb fod dan anfantais.

Canlyniadau Dull Ariannu Hyblyg (Mesurau Perfformiad CAMPUS)

(Canlyniadau) uniongyrchol

- Nifer y bobl mewn angen sydd wedi cofrestru ar gyrsiau/hyfforddiant sgiliau sylfaenol
- Nifer y bobl mewn angen sy'n cael eu cynorthwyo i gofrestru ar gwrs addysg bellach neu addysg uwch
- Nifer y bobl mewn angen sy'n cofrestru ar gyfer dysgu anffurfiol
- Nifer y plant y nodwyd bod ganddynt anghenion datblygiadol gan gynnwys Datblygiad Iaith a Lleferydd
- Nifer y plant mewn angen sy'n cael eu cynorthwyo gyda'u presenoldeb yn yr ysgol

Tymor Canolig

- Nifer y bobl mewn angen sy'n gwella'u sgiliau sylfaenol*
- Nifer y bobl mewn angen sy'n sicrhau cymhwyster neu achrediad a gaiff ei gydnabod yn genedlaethol*
- Nifer y plant y maent wedi sicrhau gwelliant o ran eu presenoldeb yn yr ysgol/darpariaeth gofal plant
- Nifer y rhieni y maent yn gallu cynorthwyo eu plentyn yn well gyda'u hanghenion dysgu a datblygu
- Nifer y plant sy'n cael eu cynorthwyo sy'n cyflawni cerrig milltir datblygiadol

Tymor Hir

- Nifer y bobl mewn angen sy'n sicrhau cymhwyster neu achrediad a gaiff ei gydnabod yn genedlaethol*
- Cyfran yr aelwydydd a gynorthwyir sy'n byw mewn sefyllfa o dlodi o'i chymharu â'r gyfran ganolrifol yn y DU
- Cyfran yr aelwydydd a gynorthwyir sy'n cynnwys plant sy'n byw mewn sefyllfa o dlodi o'i chymharu â'r gyfran ganolrifol yn y DU

Allbynnau Enghreifftiol

- **C&P & FS:** Nifer y lleoedd gofal plant a gaiff eu cynorthwyo, eu creu a'u cynnal ar gyfer grwpiau incwm isel a phlant sydd ag anghenion ychwanegol
- **FS ac FF:** Nifer y rhieni sy'n cael eu cynorthwyo gydag iechyd a lles eu plentyn
- **PPE/LF/SP:** Nifer y nodwyd bod ganddynt broblemau gyda'u sgiliau sylfaenol cyn diffygion o ran cymwysterau

Gweithgareddau Enghreifftiol

- **C&P:** Rhaglenni i gynorthwyo mynediad cyfartal i leoliadau gofal plant cofrestredig
- **FS&FF:** Darparu dosbarthiadau rhianta wedi'u seilio ar dystiolaeth a chymorth gyda lles plant
- **PPE/LF/SP:** Darparu rhaglen o gyrsiau hyfforddiant a chymwysterau

Rhaglenni sy'n Cydweddu Fwyaf gyda'r Nod Ariannu Hyblyg hwn

PPE	☒	SDF	☒	SP	☒	HP		RSWE	
LF	☒	CFW+	☒	C&P	☒	FF	☒	FS	☒

Ffigwr 5.5: Fframwaith Canlyniadau – Nod 5a Ariannu Hyblyg (Diwygiwyd Medi 2019)

Nod Llesiant Cenedlaethol 5: Cymru o Gymunedau Cydlynus

Dangosyddion Cenedlaethol (y mae modd eu dadgyfuno i lefel leol):

(34) Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref fesul 10,000 aelwyd.

Nod 5a Ariannu Hyblyg: Nid yw cyfranogwyr yn ddigartref ac maent yn byw mewn llety addas.

Mae'r amcanion sylfaenol yn cynnwys:

- pobl nad ydynt yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref
- pobl ifanc sy'n byw mewn cartref sy'n eu cynorthwyo yn y ffordd orau
- pobl mewn angen yn gallu rheoli eu llety.

Canlyniadau Dull Ariannu Hyblyg (Mesurau Perfformiad CAMPUS)

(Canlyniadau) uniongyrchol	Tymor Canolig	Tymor Hir
• Nifer y bobl sydd wedi cael eu cynorthwyo er mwyn atal digartrefedd* • Nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cynorthwyo i'w galluogi i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain* • Nifer y rhai a fu'n cysgu ar y stryd a gynorthwywyd i sicrhau llety • Nifer y bobl a gyfeiriwyd at wasanaethau cymorth tai* • Nifer y bobl a gyfeiriwyd at wasanaethau cyngor ariannol/ynghylch dyled*	• Nifer y bobl sydd â llety ac sy'n gallu ei reoli • Nifer y bobl nad ydynt mewn perygl o fod yn ddigartref yn fuan • Nifer y bobl y mae lefel eu gallu/llythrennedd ariannol wedi gwella* • Nifer y bobl y mae eu sefyllfa ariannol wedi sefydlogi neu wella*	• Cyfran yr aelwydydd a gynorthwyir sy'n ddigartref • Cyfran yr aelwydydd a gynorthwyir sy'n byw mewn llety dros dro • Cyfran yr aelwydydd a gynorthwyir sydd mewn dyled

Allbynnau Enghreifftiol

- **SP/HP:** Nifer sy'n ymgysylltu gyda gwasanaethau cymorth tai a gwasanaethau cyngor ariannol/ynghylch dyled
- **FF:** Nifer sy'n cael gwasanaethau cyngor ynghylch dyled

Gweithgareddau Enghreifftiol

- **SP/LF/FF:** Darparu gwasanaethau er mwyn asesu anghenion cyngor a gwasanaeth, gan gynnwys cynhwysiant ariannol a byw'n annibynnol
- **HP:** Rhaglen o gymorth er mwyn asesu anghenion ac atal digartrefedd
- **SDF:** Asesu anghenion ar gyfer YP er mwyn eu galluogi i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain

Rhaglenni sy'n Cydweddu Fwyaf gyda'r Nod Ariannu Hyblyg hwn

PPE	☒	SDF	☒	SP	☒	HP	☒	RSWE	☒
LF		CFW+		C&P		FF	☒	FS	

Ffigwr 5.6: Fframwaith Canlyniadau – Nod 5b Ariannu Hyblyg (Diwygiwyd Medi 2019)

Nod Llesiant Cenedlaethol 5: Cymru o Gymunedau Cydlynus

Dangosyddion Cenedlaethol (y mae modd eu dadgyfuno i lefel leol):

(25) Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu cartref

(29) Sgôr lles meddwl cymedrig i bobl

Dangosyddion Cenedlaethol sy'n gysylltiedig gyda dyletswyddau statudol VAWDASV — i'w gadarnhau

Nod 5b Ariannu Hyblyg: Mae cyfranogwyr mewn perthnasoedd iach a diogel.

Mae'r amcanion sylfaenol yn cynnwys:

- pobl mewn angen yn gallu rheoli eu perthnasoedd
- pobl mewn angen yn teimlo'n ddiogel
- pobl mewn angen yn teimlo'n rhan o'u cymuned
- pobl mewn angen yn gydnerth, yn alluog ac yn ymdopi.

Canlyniadau Dull Ariannu Hyblyg (Mesurau Perfformiad CAMPUS)

(Canlyniadau) uniongyrchol

- Nifer y rhieni sy'n manteisio ar raglenni rhianta wedi'u seilio ar dystiolaeth
- Nifer y plant sy'n cael eu cynorthwyo gydag ymddygiad heriol
- Nifer y bobl sy'n cael eu cynorthwyo gan raglenni rheoli perthnasoedd
- Canlyniad VAWDASV

Tymor Canolig

- Nifer y bobl sy'n cael eu cynorthwyo sy'n cwblhau rhaglenni rhianta a pherthnasoedd wedi'u seilio ar dystiolaeth
- Nifer y teuluoedd sy'n cael eu cynorthwyo sy'n cwblhau rhaglenni cymorth am berthnasoedd a chydnerthedd teuluoedd
- Canlyniad VAWDASV

Tymor Hir

- Gostyngiad yn nifer y digwyddiadau trais domestig a adroddir gan bobl sy'n cael eu cynorthwyo
- Gostyngiad yn nifer yr achosion camddefnyddio sylweddau ymhlith pobl sy'n cael eu cynorthwyo
- Nifer yr achosion plant mewn angen ymhlith teuluoedd sy'n cael eu cynorthwyo
- Nifer y plant sy'n cael eu cynorthwyo sydd yng ngofal awdurdod lleol

Allbynnau Enghreifftiol

- **PPE:** Nifer a gyfeiriwyd am gymorth gyda phroblemau mewn perthynas
- **FF/FS:** Nifer a gyfeiriwyd at raglenni rhianta wedi'u seilio ar dystiolaeth
- **SP/HP:** Nifer a gyfeiriwyd at wasanaethau cyngor a chymorth arbenigol yn ôl y math o wasanaeth

Gweithgareddau Enghreifftiol

- **PPE:** Asesiad rhaglen o gymorth YP ac i deuluoedd er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n arwain at ymddygiad troseddol
- **FF/FS:** Rhaglen i asesu'r angen am raglen rhianta wedi'i seilio ar dystiolaeth
- **SP/HP:** Asesu'r angen am wasanaethau cyngor a chymorth arbenigol, e.e. gwasanaethau cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau

Rhaglenni sy'n Cydweddu Fwyaf gyda'r Nod Ariannu Hyblyg hwn

PPE	☒	SDF		SP	☒	HP		RSWE	
LF		CFW+		C&P	☒	FF	☒	FS	☒

Ffigwr 5.7: Fframwaith Canlyniadau – Nod 5c Ariannu Hyblyg (Diwygiwyd Medi 2019)

Nod Llesiant Cenedlaethol 5: Cymru o Gymunedau Cydlynus

Dangosyddion Cenedlaethol (y mae modd eu dadgyfuno i lefel leol):

(25) Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu cartref, yn cerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio

Nod 5c Ariannu Hyblyg: Nid yw cyfranogwyr (gan gynnwys pobl ifanc) yn cyflawni gweithgareddau troseddol neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r amcanion sylfaenol yn cynnwys:

- pobl mewn angen sy'n cael eu cynorthwyo gyda'u hanghenion a allai gyfrannu at droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- pobl mewn angen yn cael eu dargyfeirio o ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol
- pobl mewn angen yn cael eu dargyfeirio o ail-droseddu, gan gynnwys defnyddio ymyriadau adferol
- cyn-droseddwr yn cael eu cynorthwyo i ail-integreiddio ac ail-setlo ar ddiwedd dedfrydau.

Canlyniadau Dull Ariannu Hyblyg (Mesurau Perfformiad CAMPUS)

(Canlyniadau) uniongyrchol

- Nifer y bobl sy'n ymwneud â'r prosiect a gafodd ddedfryd o garchar
- Nifer y bobl a gynorthwywyd gan dimau troseddol ieuencid
- Nifer y bobl a gynorthwywyd gan raglen am broblemau ymddygiadol
- Nifer y rhieni sy'n manteisio ar raglenni rhianta wedi'u seilio ar dystiolaeth

Tymor Canolig

- Nifer y bobl a gynorthwyir sy'n cwblhau cyrsiau perthnasoedd a rhianta
- Nifer y bobl a gynorthwyir sy'n cwblhau cyrsiau perthnasoedd a rhianta
- Nifer y plant a gynorthwyir sydd wedi gwella'u presenoldeb yn yr ysgol/darpariaeth gofal plant
- Nifer y bobl a gynorthwyir sy'n dangos problemau ymddygiadol
- Nifer y bobl a gynorthwyir sy'n cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol

Tymor Hir

- Gostwng nifer y rhai sy'n cael cyswllt â'r system gyfiawnder yng Nghymru am y tro cyntaf
- Gostwng y gyfradd ail-droseddu a brofir ymhlith pobl yng Nghymru
- Gostwng cyfran y bobl sy'n cael eu collfarnu mewn llys ac yna, sy'n cael dedfryd o garchar

Allbynnau Enghreifftiol

- **PPE:** Nifer yr unigolion a gefnogir
- **FF/FS:** Nifer a gyfeiriwyd at raglenni rhianta ar sail tystiolaeth
- **SP/HP:** Nifer a gyfeiriwyd at raglenni cymorth a chynghor arbenigol ar gyfer troseddol

Gweithgareddau Enghreifftiol

- **PPE:** Rhaglen i asesu anghenion cymorth i deuluoedd a YP er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n arwain at ymddygiad troseddol
- **FF/FS:** Darparu asesiad o'r angen am raglen rhianta wedi'i seilio ar dystiolaeth
- **SP/HP:** Rhaglen i asesu'r angen am wasanaethau cyngor a chymorth arbenigol, e.e. gwasanaethau cam-drin domestig a chamdefnyddio sylweddau

Rhaglenni sy'n Cydweddu Fwyaf gyda'r Nod Ariannu Hyblyg hwn

PPE	☒	SDF		SP	☒	HP		RSWE	
LF	☒	CFW+		C&P		FF	☒	FS	☒

Atodiad C: Amserlenni Cwestiynau Cyfweld

a) Arweinwyr Grant – Llywodraeth Cymru

1. Enw'r Cyfwelai:
2. Beth yw teitl eich swydd?
 - a. Rhowch drosolwg o'ch rôl, a sut y mae'n ymwneud â'r Rhaglen Ariannu Hyblyg.
3. Pa rai o'r grantiau canlynol y mae gennych chi gyfrifoldeb drostynt yn eich prif rôl yn y gwaith?

Grant
Cefnogi Pobl
Dechrau'n Deg
Teuluoedd yn Gyntaf
Y Gronfa Waddol
Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc
Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Ysgol yn flaenorol)
Atal Digartrefedd
Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol yn flaenorol)
Cronfa Dydd Gŵyl Dewi
Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd yn flaenorol)
Rhaglen Ariannu Hyblyg Cyffredinol

Y rhaglen Ariannu Hyblyg – Cynnydd

4. Rhowch amlinelliad byr o'r ffordd y mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn symud yn ei blaen yn eich barn chi.
 - a. A ydych chi'n gallu nodi unrhyw awdurdodau lleol sy'n sicrhau cynnydd arbennig o dda, ac unrhyw resymau dros hynny?
 - b. Unrhyw awdurdodau lleol y mae'n ymddangos nad ydynt yn sicrhau cynnydd cystal ac unrhyw resymau dros hynny?
5. Yn mha ffordd/fyrdd y mae'r penderfyniad a wnaethpwyd ym mis Hydref 2018 i symud i ddull dau grant ar gyfer Ariannu Hyblyg wedi effeithio ar y rhaglen yn eich barn chi?
6. Yn eich barn chi, ai dull cadarnhaol neu negyddol ar gyfer eich grantiau oedd hwn, ac a oes modd i chi esbonio pam eich bod yn meddwl hynny?
7. Yn eich barn chi, pa mor dda yw'r ddealltwriaeth o'r rhaglen Ariannu Hyblyg o fewn Awdurdodau Lleol

8. Yn eich barn chi, pa mor dda yw'r ddealltwriaeth o'r rhaglen Ariannu Hyblyg o fewn Llywodraeth Cymru
9. Pa rôl, os o gwbl, y mae Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSBs) lleol wedi'i gyflawni wrth weithredu'r rhaglen Ariannu Hyblyg mewn perthynas â'ch grantiau?
10. Pa rôl, os o gwbl, y mae'r sector gwirfoddol a chymunedol wedi'i gyflawni wrth weithredu'r rhaglen Ariannu Hyblyg mewn perthynas â'ch grantiau?
11. Sut mae awdurdodau wedi defnyddio'r hyblygrwydd wrth ddefnyddio arian a ganiateir gan y rhaglen Ariannu Hyblyg hyd yn hyn – os ydynt, a fyddech gystal â nodi rhai enghreifftiau?
12. Pa fanteision a welwyd o ddefnyddio'r hyblygrwydd ariannol a ganiateir gan y rhaglen?
13. Pa gyfyngiadau a welwyd o ddefnyddio'r hyblygrwydd ariannol a ganiateir gan y rhaglen?
14. A yw gweithrediad y rhaglen Ariannu Hyblyg wedi cael unrhyw effeithiau/canlyniadau negyddol mewn perthynas â'ch grantiau?
 - a. A oes unrhyw ffordd o gwbl y byddai modd rhoi sylw i'r rhain?
15. Pa newidiadau, os o gwbl, yr ydych chi wedi eu gweld yn cael eu gwneud i'r dulliau darparu ar gyfer ymyrraeth gynnar a gwasanaethau atal o ganlyniad i'r rhaglen Ariannu Hyblyg?
 - a. Os na wnaethpwyd unrhyw newidiadau, a oes unrhyw resymau penodol dros hyn?
 - b. Os gwnaethpwyd newidiadau, pa ffactorau y mae'n ymddangos eu bod wedi galluogi i'r newidiadau hyn gael eu gwneud?
16. Beth fu'r sialensiau/rhwysrau mwyaf arwyddocaol wrth sicrhau cynnydd gydag Ariannu Hyblyg yn eich barn chi, mewn perthynas â'ch grantiau chi?

Canlyniadau

17. Mewn perthynas â'r grantiau yr ydych chi'n gyfrifol amdanynt, beth fu'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol mewn awdurdodau lleol a gyflawnwyd gan y rhaglen Ariannu Hyblyg hyd yn hyn, os o gwbl?
 - a. Os na fu unrhyw ganlyniadau, a oes unrhyw resymau penodol dros hyn?
18. O blith y rhai a nodwyd uchod, beth fyddai'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol mewn awdurdodau lleol mewn perthynas â'ch grantiau chi yn eich barn chi, a pham?

Prif Wersi a Ddysgwyd

19. Pa agweddau ar y rhaglen Ariannu Hyblyg:
- Sydd wedi gweithio'n dda hyd yn hyn?
 - Nad ydynt wedi gweithio cystal hyd yn hyn?
20. Yn seiliedig ar eich profiad chi, pa feysydd sy'n hollbwysig er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus rhaglen Ariannu Hyblyg yn y dyfodol yn eich barn chi?
21. A hoffech chi wneud unrhyw sylwadau eraill am y rhaglen Ariannu Hyblyg?

(b) Ariannu Hyblyg/Arweinwyr Grant – Awdurdodau Lleol

1. Pa rai o'r grantiau canlynol y mae gennych chi gyfrifoldeb drostynt yn eich prif rôl yn y gwaith? (*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*)

Grant	Yn Gyfrifol Amdano
Cefnogi Pobl; Dechrau'n Deg; Teuluoedd yn Gyntaf; Y Gronfa Waddol Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Ysgol yn flaenorol) Atal Digartrefedd Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol yn flaenorol) Cronfa Dydd Gŵyl Dewi Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd yn flaenorol) Raglen Ariannu Hyblyg Cyffredinol	

2. Nodwch deitl eich swydd os gwelwch yn dda.
- Rhowch drosolwg i mi o'ch rôl, a sut y mae'n ymwneud â'r rhaglen Ariannu Hyblyg.

Y rhaglen Ariannu Hyblyg – Cynnydd

3. Rhowch amlinelliad byr o'r cynnydd sy'n cael ei sicrhau gan y rhaglen Ariannu Hyblyg yn eich awdurdod chi?
4. Ym mha ffordd/ffyrdd y mae'r penderfyniad a wnaethpwyd ym mis Hydref 2018 i symud i ddull dau grant ar gyfer Ariannu Hyblyg wedi effeithio ar gynnydd y rhaglen? [Roedd hyn yn golygu nodi dau grant – Grant Plant a Chymunedau a Grant Cymorth Tai]?
5. Yn eich barn chi, ai dull cadarnhaol neu negyddol fu hwn i'ch awdurdod lleol chi, ac a ydych chi'n gallu esbonio pam eich bod yn credu hynny?
6. Yn eich barn chi, pa mor dda y mae pobl yn deall y rhaglen Ariannu Hyblyg?
 - a. Mewn meysydd gwasanaeth y mae'r 10 grant a gaiff eu cynnwys yn y rhaglen yn berthnasol iddynt
 - b. Yn ehangach ar draws yr awdurdod mewn meysydd gwasanaeth eraill
7. Pa rôl, os o gwbl, y mae'ch Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) wedi'i gyflawni/yn ei gyflawni wrth weithredu'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn eich awdurdod?
8. Pa rôl, os o gwbl, y mae'ch sector gwirfoddol a chymunedol lleol wedi'i gyflawni/yn ei gyflawni wrth weithredu'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn eich awdurdod?
9. Sut mae'ch awdurdod wedi defnyddio'r hyblygrwydd wrth ddefnyddio arian a ganiateir gan y rhaglen Ariannu Hyblyg hyd yn hyn – rhowch rai enghreifftiau o'r ffordd y mae hyn wedi digwydd.
10. Pa fanteision y mae'ch awdurdod chi wedi'u gweld o ddefnyddio'r hyblygrwydd ariannol a ganiateir gan y rhaglen?
11. Pa gyfyngiadau y mae'ch awdurdod chi wedi'u gweld o ddefnyddio'r hyblygrwydd ariannol a ganiateir gan y rhaglen?
12. A yw gweithredu'r rhaglen Ariannu Hyblyg wedi cael unrhyw effeithiau/canlyniadau negyddol yn ardal eich awdurdod chi?
 - a. A oes unrhyw ffyrdd o roi sylw i'r rhain o gwbl?
13. Pa newidiadau, os o gwbl, yr ydych chi wedi'u gwneud i ddulliau cyflawni ar gyfer ymyrraeth gynnar a gwasanaethau atal o ganlyniad i raglen Ariannu Hyblyg?
 - a. Os na wnaethpwyd unrhyw newidiadau, a oes unrhyw resymau penodol dros hyn?
 - b. Os gwnaethpwyd newidiadau, pa ffactorau y mae'n ymddangos eu bod wedi galluogi i'r newidiadau hyn gael eu gwneud?

Llywodraethu a Gweithredu'r Prosiect

Rydym yn dymuno cael gwybod ychydig mwy am y ffordd y darparir rhannau allweddol rhaglen Ariannu Hyblyg yn eich awdurdod chi. Gan feddwl am y Grant/Grantiau/Rhaglen yr ydych chi'n gyfrifol amdano/amdani/amdanynt:

Gweledigaeth a Chynllun

14. A oes gan eich awdurdod chi weledigaeth glir a/neu gynllun am y ffordd y caiff y rhaglen Ariannu Hyblyg ei gweithredu/sut y bydd yn trawsnewid y ddarpariaeth yn yr awdurdod hwn?
- a. A ydych chi'n gallu cynnig unrhyw enghreifftiau o'r ffordd y mae'r weledigaeth a/neu'r cynllun wedi siapio darpariaeth y rhaglen Ariannu Hyblyg yn yr awdurdod hwn?

Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

15. A oes gan eich awdurdod chi grŵp/pwyllgor sy'n goruchwyllo gweithrediadau'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn yr awdurdod hwn?
- a. A ydych chi'n gallu darparu unrhyw enghreifftiau o'r ffordd y mae'r grŵp/pwyllgor wedi siapio darpariaeth y rhaglen Ariannu Hyblyg yn yr awdurdod hwn?

Cydweithio

16. Pa ffurfiau cydweithio y mae'r rhaglen ariannu Hyblyg wedi eu hysgogi?
- a. Yn eich awdurdod lleol
- b. Gyda phartneriaid allanol
17. A oes unrhyw ffyrdd y byddai modd i'r rhaglen Ariannu Hyblyg ddatblygu'r cydweithio ymhellach yn eich awdurdod chi?

Pobl/Arferion Gwaith

18. A yw'r rhaglen Ariannu Hyblyg wedi newid arferion gwaith neu'r diwylliant gwaith eto o ran y ffordd y mae'ch awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau?
- a. A ydych chi'n gallu cynnig unrhyw enghreifftiau o'r ffordd y mae arferion gwaith/diwylliant wedi newid o ganlyniad i'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn yr awdurdod hwn?

Effeithiau ar Ddefnyddwyr Gwasanaeth

19. A yw'r rhaglen Ariannu Hyblyg wedi cael unrhyw effeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaeth hyd yn hyn?
- a. A ydych chi'n gallu cynnig unrhyw enghreifftiau o unrhyw effeithiau penodol ar ddefnyddwyr gwasanaeth?
- b. Os ydy, mae gennym ddiddordeb mewn siarad gyda rhai defnyddwyr gwasanaeth am eu profiadau o'r rhaglen Ariannu Hyblyg. A ydych chi'n

credu y byddem yn gallu gwneud trefniadau i siarad gyda rhai unigolion a sut fyddem yn bwrw ymlaen gyda hyn?

20. Yn eich barn chi, pa effeithiau y byddai defnyddwyr gwasanaeth yn eu gweld yn y dyfodol efallai o ganlyniad i'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn eich awdurdod?

a. Yn unol â pha amserlen y byddech chi'n disgwyl i'r rhain ddigwydd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth?

21. Beth fu'r sialensiau/rhwystrau mwyaf arwyddocaol wrth sicrhau cynnydd gydag Ariannu Hyblyg yn ardal eich awdurdod lleol chi?

22. Sut rhoddir sylw i'r sialensiau/rhwystrau hyn?

Canlyniadau

23. Ar gyfer ardal eich awdurdod lleol chi, beth fu'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol a sicrhawyd gan y rhaglen Ariannu Hyblyg ar gyfer y grantiau yr ydych chi'n gyfrifol amdanynt hyd yn hyn, os o gwbl?

24. O blith y rhain, beth fyddai'r canlyniad mwyaf arwyddocaol i'r awdurdod hwn yn eich barn chi, a pham?

25. A oes unrhyw grantiau/rhaglenni nad ydynt yn cydweithio yn eich awdurdod lleol, a beth yw'r rhesymau dros hyn?

Prif Wersi a Ddysgwyd

26. Pa agweddau ar y rhaglen Ariannu Hyblyg:

a. Sydd wedi gweithio'n dda hyd yn hyn?

b. Nad ydynt wedi gweithio cystal hyd yn hyn?

27. Ar sail eich profiad chi, pa feysydd sy'n hollbwysig ar gyfer gweithrediad llwyddiannus rhaglen Ariannu Hyblyg yn y dyfodol yn eich barn chi?

28. Ar sail y cwestiynau yr ydych chi wedi'u hateb i ni heddiw, a oes unrhyw un arall yn eich awdurdod lleol, efallai sy'n gysylltiedig gyda'r Grŵp Plant a Chymunedau, neu'r Grant Cymorth Tai, y dylem siarad â nhw am y rhaglen Ariannu Hyblyg yn eich barn chi?

Enw a Rôl:

E-bost:

Ffôn:

29. A ydych chi'n dymuno gwneud unrhyw sylwadau eraill am y rhaglen Ariannu Hyblyg?

(c) Rhanddeiliaid/Partneriaid

1. Beth yw teitl eich swydd?

a. Rhowch drosolwg o'ch rôl, a sut y mae'n ymwneud â rhaglen Ariannu Hyblyg.

Rhaglen Ariannu Hyblyg – Cynnydd

2. Rhowch amlinelliad byr o'r ffordd y mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn symud yn ei blaen yn eich barn chi?

a. Nodwch unrhyw enghreifftiau o gynnydd arbennig o dda ac unrhyw resymau dros hynny.

b. Unrhyw enghreifftiau o gynnydd heb fod cystal ac unrhyw resymau dros hynny?

3. Ym mha ffordd/ffyrdd y mae'r penderfyniad a wnaethpwyd ym mis Hydref 2018 i symud i ddull dau grant ar gyfer Ariannu Hyblyg wedi effeithio ar gynnydd y rhaglen yn eich barn chi?

4. Yn eich barn chi, a fu hyn yn newid / dull cadarnhaol neu negyddol ar gyfer y rhaglen yn gyffredinol, ac a ydych chi'n gallu esbonio pam eich bod o'r farn honno?

5. Yn eich barn chi, pa mor dda y mae pobl yn deall y rhaglen Ariannu Hyblyg o fewn awdurdodau lleol?

6. Yn eich barn chi, pa mor dda y mae pobl yn deall y rhaglen Ariannu Hyblyg o fewn Llywodraeth Cymru?

7. Pa rôl, os o gwbl, y mae Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSBs) wedi'i gyflawni wrth weithredu rhaglen Ariannu Hyblyg?

8. Pa rôl, os o gwbl, y mae'r sector gwirfoddol a chymunedol wedi'i gyflawni wrth weithredu rhaglen Ariannu Hyblyg?

9. Sut ydych chi wedi gweld awdurdodau yn defnyddio'r hyblygrwydd wrth ddefnyddio arian a ganiateir gan y rhaglen Ariannu Hyblyg hyd yn hyn – a fydddech chi'n gallu rhoi rhai enghreifftiau?

10. Pa fanteision yr ydych chi wedi'u gweld yn deillio o'r hyblygrwydd gyda'r arian a ganiateir gan y rhaglen?

11. Pa gyfyngiadau yr ydych chi wedi'u gweld yn deillio o'r hyblygrwydd gyda'r arian a ganiateir gan y rhaglen?

12. A yw gweithredu'r rhaglen Ariannu Hyblyg wedi cael unrhyw effeithiau/canlyniadau negyddol yr ydych chi'n ymwybodol ohonynt?
- a. A oes unrhyw ffordd o gwbl o roi sylw i'r rhain?
13. Pa newidiadau, os o gwbl, yr ydych chi wedi eu gweld yn cael eu gwneud i ddulliau darparu ar gyfer ymyrraeth gynnar a gwasanaethau atal o ganlyniad i'r rhaglen Ariannu Hyblyg?
- a. Os na wnaethpwyd unrhyw newidiadau, a oes unrhyw resymau penodol dros hyn?
- b. Os gwnaethpwyd newidiadau, pa ffactorau y mae'n ymddangos eu bod wedi galluogi i'r newidiadau hyn gael eu gwneud?
14. Yn eich barn chi, beth fu'r sialensiau/rhwysterau mwyaf arwyddocaol wrth sicrhau cynnydd gydag Ariannu Hyblyg mewn perthynas â'r grantiau yr ydych chi'n ymwneud â nhw?
- a. Sut ydych chi wedi gweld sylw yn cael ei roi i'r sialensiau/rhwysterau hyn?

Canlyniadau

15. Beth fu'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol a sicrhawyd gan y rhaglen Ariannu Hyblyg hyd yn hyn mewn awdurdodau lleol, os o gwbl?
- a. Os na fu unrhyw ganlyniadau, a oes unrhyw resymau penodol dros hyn?
16. O blith y rhai a nodwyd uchod, beth yw'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol yn eich barn chi, a pham?

Prif Wersi a Ddysgwyd

17. Pa agweddau ar y rhaglen Ariannu Hyblyg:
- a. Sydd wedi gweithio'n dda hyd yn hyn?
- b. Nad ydynt wedi gweithio cystal hyd yn hyn?
18. Ar sail eich profiad chi, pa feysydd sy'n hollbwysig ar gyfer gweithrediad llwyddiannus y rhaglen Ariannu Hyblyg yn y dyfodol yn eich barn chi?
19. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y rhaglen Ariannu Hyblyg?

Atodiad D: Astudiaethau Achos wedi'u Diweddaru am Gynnydd y Rhaglen

Astudiaeth Achos am ddull Ariannu Hyblyg – Conwy



Cefndir

Mae Conwy wedi defnyddio dull Ariannu Hyblyg fel cyfle i wneud defnydd gwell o'r 10 rhaglen y mae'n eu cynnwys, gan geisio cydgysylltiad gwell rhyngddynt er mwyn darparu mwy o gymorth trwy gyfrwng EIPS. Mae'r pwysau ariannol yn parhau i fod yn sylweddol. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, rhoddwyd ffocws ar ymateb i'r angen, yn hytrach nag ardaloedd wedi'u seilio ar godau post a bennwyd yn hanesyddol, er mwyn sicrhau tegwch o ran y cymorth a roddir.

Mae ffocws allweddol yn yr awdurdod yn ymwneud â symud i ddull sy'n siapia gwasanaethau er mwyn bodloni anghenion pobl leol mewn ffordd fwy hwylus, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb, h.y. gofyn i bobl gyd-fynd â gofynion grantiau penodol. Mae hyn yn cyd-fynd ag agenda drawsnewidiol ehangach i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Nodweddion Diddorol y Dull

Mae Conwy wedi canolbwyntio ar ddull sy'n ceisio datblygu trefniadau cyflawni lleol. Rhannwyd ardal yr awdurdod yn bum ardal. Datblygwyd y gwaith, o ran nodi'r ardaloedd, trwy ystyried y ffiniau sy'n bodoli yn y sir yn fanwl, megis dalgylchoedd ysgolion, ffiniau iechyd a strwythurau cynghorau tref a chymuned. Trwy droshaenu'r rhain, datblygwyd pum ffin naturiol y cytunwyd arnynt gyda phartneriaid trwy gyfrwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bu'r gwaith cychwynnol yn canolbwyntio ar sefydlu gwasanaeth atal ac ymyrraeth gynnar i deuluoedd, a oedd yn dwyn ynghyd gwaith Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, yn dilyn gweithgarwch ymgynghori helaeth gyda theuluoedd. Roedd dechreuad Ariannu Hyblyg wedi cynnig y cyfle i symud ymlaen gyda'r gwaith hwn, gan gyfuno cyllidebau er mwyn gallu cyflawni'r un canlyniadau mewn ffordd fwy effeithlon. Yng nghyd-destun cyflawni, er enghraifft, galluogwyd Swyddog Rhianta, sy'n gweithio o fewn tîm darparu Dechrau'n Deg, i gydweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid mewn ffordd fwy hyblyg. Mae'r gwaith hwn ar y cyd wedi sicrhau budd trwy gydweithio gydag ymyrraeth gynnar, gan gynorthwyo'r timau Cymorth i Deuluoedd newydd a sefydlwyd a chydweithio'n agosach gyda Gwasanaethau Addysg a Gofal Cymdeithasol Statudol.

Dysgu o Weithredu'r Rhaglen

Roedd yr agenda yn un yr oedd Conwy eisoes yn ceisio'i datblygu. Defnyddiwyd Ariannu Hyblyg fel galluogwr er mwyn cynorthwyo'r newid hwn ymhellach. Mae trafodaethau a gychwynnwyd gan yr ymdrech i weithredu dull Ariannu Hyblyg yng Nghonwy wedi codi ymwybyddiaeth rhwng yr holl arweinwyr grant am yr hyn y mae pob un o'r rhaglenni yn ei ddarparu. Yn ei dro, mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth well o'r manau lle y mae cysylltiadau/integreiddio yn gallu digwydd. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd gwaith ymwybyddiaeth gwell, gan adolygu themâu o fewn darpariaeth gwasanaethau trawsbynciol ac sy'n ceisio cyfleoedd am ffyrdd newydd a mwy effeithlon o weithio ar draws y cyngor.

Mae craidd y dull gweithredu yn canolbwyntio ar fodel rheoli rhaglen manwl sydd wedi'i sefydlu ers tro yn yr awdurdod. Mae pum Pennaeth Gwasanaeth, sy'n arwain y 10 rhaglen o fewn Ariannu

Hyblyg, wedi cael eu cynnull fel rhan o ddull rhaglen yr awdurdod, a sefydlwyd grŵp cyflawni. Mae'r grŵp cyflawni yn cynnwys y swyddogion arweiniol. Caiff y gwaith hwn ei oruchwyllo gan fwrdd y rhaglen, sy'n cynnwys aelodau a sefydliadau partner. Arweiniodd sefydlu CCG a HSG at adolygu bwrdd y rhaglen.

Caiff y gwaith a ddatblygir gan y grŵp ei oruchwyllo gan bwyllgor Craffu. Bu'r PSB yn ymwneud â'r gwaith o sefydlu'r bum ardal leol, ond fel arall, nid yw wedi cael rôl mawr iawn o gwbl wrth gyflwyno'r dull hwn, er y byddai rôl mwy yn rhywbeth a fyddai'n cael ei groesawu.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, trefnwyd yr holl raglenni yn bum ffrwd gwaith gwahanol:

- Ymchwil ac asesu'r angen
- Gweithgarwch rhaglen a phrosiect
- Comisiynu a gweithio mewn partneriaeth
- Rheoli rhaglen, cyllid a gweinyddu
- Cyd-gynhyrchu

Rhannwyd Conwy yn bum ardal leol, a fabwysiadwyd gan y bwrdd iechyd lleol a'r timau adnoddau cymunedol hefyd. Maent wedi penodi dadansoddydd gwybodaeth hefyd i greu proffiliau ardal lleol, gan gasglu data o ystod eang o ffynonellau, ac maent wedi sefydlu fforymau ardal lleol er mwyn ystyried y blaenoriaethau ym mhob ardal leol.

Effeithiau a Chanlyniadau

Mae'r grŵp yn cydweithio o ddydd i ddydd ac mae'r gwaith gweithredu wedi hen gychwyn. Gwelir rhai effeithiau a chanlyniadau sy'n dod i'r amlwg yn barod, gan gynnwys y canlynol:

- Bu pryderon ynghylch cyllidebau yn amlwg ar y dechrau, ond mae'r rhain yn cael eu goresgyn gan y dull cyson tuag at gydweithio a gaiff ei hwyluso gan y dull rheoli rhaglen cydgysylltiedig. Mae hyn yn cynnig darlun clir ynghylch sut y mae gweithgareddau adolygu ac ail-gynllunio darpariaeth y gwasanaeth yn cyd-fynd â'i gilydd.
 - Mae agweddau tuag at y rhaglen yn dechrau newid wrth i bobl gael eu dwyn ynghyd i adrodd ar y cyd am yr arfer, y broses a'r cynnydd.
 - Bellach, cynhelir yr adolygiad o wasanaethau mewn ffordd lawer fwy systematig, fel bod yr adolygiad o'r gwasanaeth a ddarparir yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymwneud â phrofiad darparu; rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn ymestyn tan 2022.
 - Caiff cynnydd ei sicrhau ym maes cynllunio strategol, er bod llawer o waith i'w wneud yn dilyn y canfyddiadau o'r adolygiadau sydd eisoes wedi cychwyn.
 - Gwnaethpwyd y defnydd mwyaf o Ariannu Hyblyg wrth ddatblygu Canolfan Deuluoedd, sy'n dangos rhywfaint o arfer arloesol.
 - Mae'r gweithgarwch comisiynu wedi datblygu cryn dipyn, a gwelir mwy o ddealltwriaeth a thryloywder o ran yr hyn a gomisiynir ar draws y 10 grant.
-

Prif Wersi a Ddysgwyd

- Mae gwerth dull rheoli rhaglen cydgysylltiedig sy'n berthnasol i grantiau ac sy'n cynnig darlun clir at ddibenion adolygu ac unrhyw sialensiau sy'n deillio o hyn wrth ddarparu, wedi ysgogi'r gwaith hwn, er bod y newid i ddatrysiaid dau grant wedi cymhlethu hyn.
- Mae ariannu Hyblyg yn galluogi/hwyluso cydweithio yn gynharach nag y byddai wedi bod modd ei wneud yn gynharach, ac o ystyried hyn law yn llaw â'r dull rheoli rhaglen, mae wedi ehangu graddfa'r gwaith y bu modd ei wneud ar draws y pum Pennaeth Gwasanaeth. Byddai mwy o hyblygrwydd yn cael ei groesawu.
- Mae'r rhai a fu'n cymryd rhan wedi teimlo'n rhan o dîm ehangach fel aelod o grŵp yr awdurdodau braenaru, ond byddent yn gwerthfawrogi mwy o ymgysylltu gydag aelodau eraill a chyfleoedd i rannu arfer a phrofiad yn fwy rheolaidd, gan bod pethau'n newid mor gyflym.
- Mae'r dulliau hyn yn cymryd amser ac mae'n rhaid caniatáu digon o amser i hwyluso'r cyswllt rhwng gwahanol dimau grant er mwyn meithrin ymddiriedaeth a gwaith integredig.

Argymhellion i'w Hystyried mewn perthynas ag EIPS

- Ceir gwerth i'r dull a fabwysiadwyd yng Nghonwy, ond mae angen amser ar awdurdodau braenaru er mwyn iddynt weld canlyniadau'r gwaith a gyflawnir nawr yn dwyn ffrwyth. Byddai ymrwymiad i ac ategu nodau ac uchelgais Ariannu Hyblyg a symud at EIPS yn cael ei groesawu, ac mae'r awdurdod yn awyddus i symud i ddull adrodd ar draws CCG a HSG, yn hytrach na monitro ar draws y 10 rhaglen.
 - Mae angen i unrhyw ddulliau monitro a chanlyniadau osgoi bod yn rhy rhagnodol; fel arall, ni fyddant yn ddigon hyblyg i adlewyrchu canlyniad amgylchiadau ac anghenion llawn yr holl bobl sy'n agored i niwed yn ardal yr awdurdod lleol. Bydd hyn yn helpu i leihau'r siawns y gwelir unrhyw 'ficro-reoli' o'r rhaglen gan Lywodraeth Cymru; mae awdurdodau yn dymuno cael yr ymreolaeth er mwyn gwneud y prif benderfyniadau am y ffordd y byddant yn darparu'r cymorth, a'i amrywio mewn gwahanol ardaloedd daearyddol efallai os bydd asesiadau anghenion yn awgrymu bod hon yn ffordd ymlaen briodol.
 - Bu'n anodd ymgysylltu â'r PSB lleol a cheir chwmpas i Lywodraeth Cymru helpu i frocera perthynas well gyda nhw ar gyfer yr awdurdod.
-

Cefndir

Mae Casnewydd wedi bod yn gweithio ar gysyniad Canolfannau Cymdogaeth er 2016 a defnyddiwyd Ariannu Hyblyg fel cerbyd er mwyn hwyluso datblygiad parhaus y rhain ac er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o'u cyflwyno ar draws ardal yr awdurdod. Mae hyn yn cyd-fynd â ffocws ar ddatblygu dull sy'n canolbwyntio lawer fwy ar ganlyniadau, sy'n ceisio symud i ffwrdd o ddulliau cymorth a oedd yn canolbwyntio ormod ar y cyllid, i'r rhai sy'n gallu cynorthwyo cleientiaid yn gyflymach ac mewn ffordd briodol, trwy gydweddu cyllid. Mae'r weledigaeth ar gyfer cyflawni yng Nghasnewydd yn ymwneud â gwneud defnydd mwy effeithiol o gyllid er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni anghenion lleol trwy gydweddu rhaglenni a nodi ffyrdd newydd o weithio a'r potensial i ail-gynllunio gwasanaethau, er y bu'r ffocws dros y 12 mis diwethaf ar ail-lunio'r weledigaeth hon er mwyn ymgysylltu nifer ehangach o dimau rhaglen gyda'r gwaith cyflawni.

Nodweddion Diddorol y Dull

Mae'r awdurdod wedi bod yn datblygu model Canolfannau Cymdogaeth, ac mae datblygiadau a chyllid eisoes yn cael eu hymrwymo i'r un gyntaf a fydd yn agor yn hwyr yn 2019. Cynigir dirnadaeth o ddatblygiadau seilwaith er mwyn cynorthwyo cyd-leoli a chydweithio, yn ogystal â gwahanol ddull wrth ddefnyddio ystad swyddfeydd awdurdodau lleol. Mae'r dull datblygiadol, sy'n cynnwys pwyslais penodol ar 'weithio mewn ffordd ddeallus', yn ffordd dda o ddangos sut y caiff newid diwylliannol ei ddatblygu ac fe allai gynnig dirnadaeth werthfawr ar gyfer graddfa'r ystyriaethau a'r gweithredu sy'n ofynnol er mwyn darparu.

Mae'r dull wedi bod yn canolbwyntio'n arbennig ar gyflwyno trwy CCG er mwyn ysgogi darpariaeth gynnar. Bydd y model yn gweithio i feithrin perthnasoedd gyda HSG er mwyn gwella'r gwaith o integreiddio gwasanaethau ymhellach ar ôl i systemau a phrosesau gael eu sefydlu. Ers y cyhoeddiad am y ddau grant, maent wedi ceisio canolbwyntio ar sefydlu trefniadau cydweithio o fewn y rhaglenni yn y ddau grant, yn ogystal â chanolbwyntio ar ddatblygu dull 'Casnewydd' tuag at y rhain.

Dysgu o Weithredu'r Rhaglen

Cynhaliodd ymgynghorydd allanol (Wavehill Ltd) adolygiad o brofiadau cwsmeriaid, strwythurau corfforaethol/llywodraethu, strwythurau rheoli, trefniadau comisiynu gwasanaethau, a dyblygu gwasanaethau. Roedd hwn yn datblygu adolygiadau presennol o grantiau er mwyn nodi manylion pellach am brofiadau defnyddwyr gwasanaeth ac arfarniad o'r dewisiadau y gallent fod ar gael i Gasnewydd wedyn.

Nododd yr adolygiad angen penodol i ail-lunio'r weledigaeth leol ar gyfer Ariannu Hyblyg, gan gydgyhyrchu dull dylunio a darparu penodol ar draws staff y rhaglen er mwyn helpu i symud y darparu yn ei flaen, gan ei fod wedi stopio.

Mae rhannau allweddol parhaus pellach o'r gwaith yn parhau, gan gynnwys:

- cynllunio un system fonitro ar gyfer yr awdurdod a deall y bydd gofynion unrhyw system TG yn y dyfodol yn hollbwysig i'r llwyddiant wrth ei chyflwyno
- gweithredu dull sy'n rhoi'r ffocws pennaf ar y cwsmer, a ddarparir trwy gyfrwng amrediad o ganolfannau cymdogaeth, y bu'n rhaid ei ailosod ac a fydd yn cael ei ffurfioli'n llawn ar ôl i'r gwaith ar y weledigaeth gael ei gwblhau
- adolygu a nodi effeithlonrwydd rheoli a gweinyddol
- adolygu'r effeithiau cyflawni ar bartneriaid, y trydydd sector ac ar waith rhanbarthol.

Mae'r awdurdod yn canolbwyntio'n arbennig ar y ffordd y gall newid y defnydd o'i amgylchedd gwaith (swyddfeydd ac adeiladau eraill y cyngor) er mwyn cynnig lle i staff a chwsmeriaid weithio wrth ymyl ei gilydd. Fodd bynnag, mae cyfathrebu cyfyngedig ymhlith staff am nodau'r dulliau newydd wedi effeithio ar hyn ac mae wedi arwain at oedi. Mae'r gwaith adolygu a gynhaliwyd gan Wavehill wedi nodi ffyrdd y rhoddir sylw i'r sialensiau hyn gyda'r cyfathrebu. Mae'r holl raglenni yn cael eu cydweddu mewn adrannau sy'n gysylltiedig â dulliau CCG a HSG. Mae hyn wedi gwella'r cyfleoedd i gydweithio yn arbennig, a datblygwyd hyn ymhellach rhwng Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf a CFW+ yn gydweithio'n agosach gyda rhaglenni cyflogadwydd eraill.

Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn parhau i fod yn arafach na'r disgwyl yng Nghasnewydd, ac mae hyn o ganlyniad i nifer o ffactorau:

- Mae'r weledigaeth, yr eglurder a'r derbyniad cyferbyniol ar draws rhaglenni wedi gwneud cyfraniad uniongyrchol i'r cynnydd araf wrth gyflawni a wnaethpwyd gan ddull Ariannu Hyblyg yng Nghasnewydd; mae angen ei ail-lunio a chael fframwaith strategol diwygiedig er mwyn cynorthwyo'r darparu. Rhoddir sylw i hyn nawr, ond bydd angen dulliau cadarn wrth ledaenu hyn, er mwyn sicrhau'r effaith lawn.
- Fodd bynnag, ceir derbyniad cryf o'r ffaith bod egwyddorion y rhaglen yn galluogi darpariaeth gwasanaeth gwell a gweithgarwch gwell i integreiddio gwasanaethau, fel yr eiriolwyd gan flaenoriaethau strategol lleol Casnewydd a rhai Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, mae rhaglenni yn rhannu nifer o werthoedd a dymuniadau tebyg o ran sut y dylid darparu EIPS yng Nghasnewydd yn y dyfodol.
- Mae angen datblygu trefniadau cyfathrebu cryfach ar draws y gweithlu, yn ogystal â gweithio i sicrhau ymgysylltu ehangach rheolwyr gweithredol fel bod unrhyw weledigaeth a strategaeth sy'n cael eu hail-lunio yn gallu cael dylanwad uniongyrchol neu ddechrau cael dylanwad ar y gwasanaethau y bydd defnyddwyr yn eu cael trwy ddarpariaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal.

Effeithiau a Chanlyniadau

Er bod y cynnydd ar y gwaith o ddatblygu'r platfform er mwyn darparu gwasanaethau wedi datblygu cryn dipyn, bu'r cynnydd o ran y newidiadau i'r gwaith o gydweddu'r grantiau er mis Ebrill 2018 yn gyfyngedig hyd yn hyn; fodd bynnag, mae'r adolygiad mawr wedi cael ei gwblhau ac mae gweithdy ar draws rhaglenni yn cael ei drefnu er mwyn nodi'r camau nesaf yn y gwaith.

Bydd gofyn gwneud newid diwylliannol sylweddol, ac mae'n debygol o fod yn wahanol iawn i wahanol lefelau o staff o fewn yr awdurdod. Mae cyflwyno model darparu trwy Ganolfannau Cymdogaeth yn hollbwysig i'r darparu yn y dyfodol. Sicrhawyd cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y model hwn ym mis Gorffennaf 2018, a chychwynnwyd ar y gwaith o adnewyddu'r Ganolfan gyntaf yng nghanol 2019. Bu'n rhaid sicrhau buddsoddiad o hyd at £9 miliwn ar gyfer cynigion hyn, a gaiff ei dynnu o'r arbedion y disgwylir iddynt gael eu sicrhau oherwydd y gwelliant wrth integreiddio a chydweddu gwasanaethau.

Nodwyd yr angen i gynnal adolygiad tri mis pellach, a fydd yn nodi newidiadau a fydd yn ofynnol yn erbyn pob un o'r grantiau, er mwyn hwyluso symudiadau i ddarparu yn erbyn un set o ganlyniadau ar draws yr awdurdod.

Prif Wersi a Ddysgwyd

- Bu newid yn beth arbennig o heriol ac mae angen treulio amser gyda nhw i esbonio'r diben a'r canlyniadau cadarnhaol sy'n debygol o godi o'r newidiadau y bydd yr awdurdod yn eu gwneud.
- Mae datblygiad agenda a rennir ar draws y dull wedi bod yn hollbwysig er mwyn cyflawni'r symudiadau hyd yn hyn. Mae hyn wedi golygu bod grantiau yn deall y darlun ehangach ond hefyd, lle y gallan nhw gyfrannu. Mae hyn yn galluogi'r staff hyn hefyd i ymuno â'r daith y mae'r awdurdod yn dymuno cychwyn arni.
- Gall defnydd creadigol o safleoedd sy'n bodoli eisoes fod yn arbennig o werthfawr, ond mae angen buddsoddi er mwyn sicrhau newid, yn enwedig gyda seilwaith caled megis adeiladau neu gynorthwyo systemau TG.
- Mae pennu gweledigaeth glir a gynhyrchwyd ar y cyd yn hollbwysig er mwyn helpu i gofrestru ac ymgysylltu staff wrth helpu i yrru'r agenda yn ei blaen, yn enwedig y rhai ar lefel rheoli uwch.
- Mae ffocws mewn gwaith o'r fath yn helpu i ddatblygu dull mwy strategol tuag at holl waith atal, gan ei fod yn sicrhau bod pawb yn fwy ymwybodol o'r agendâu a rennir, beth bynnag fo teitl y rhaglenni dan sylw.

Argymhellion i'w Hystyried mewn perthynas ag EIPS

- I nifer o staff, bydd symud i un cronfa EIPS yn y dyfodol yn newid diwylliannol mawr. Mae rhai yn hoff iawn o grantiau ac yn barnu mai'r rhain yw prif ffocws eu 'hunaniaeth' yn y gwaith. Mae'r cynnig ynghylch cael un gronfa yn ceisio herio'r rhain a bydd angen ei reoli er mwyn sicrhau bod staff yn parhau i ymrwymo. Bydd angen cyfathrebu clir a rheolaidd am nodau ac uchelgais y gronfa, ac efallai bydd angen ailadrodd hyn sawl gwaith er mwyn ategu'r ffaith i'r staff mai agenda er mwyn cynorthwyo grwpiau agored i niwed mewn ffordd well yw hon.
-

Cefndir

Mae RCT wedi bod yn gweithio ar Raglen Teuluoedd Cydnerth er 2016/17 ac maent yn defnyddio dull Ariannu Hyblyg er mwyn symud yr agenda hon yn ei blaen. Mae Rhaglen Teuluoedd Cydnerth yn galluogi'r Cyngor i gyfeirio ymdrechion ar y cyd partneriaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol wrth iddynt ddarparu gwasanaethau effeithiol i deuluoedd, a sicrhau eu bod yn atebol, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn darparu tîm estynedig a hollol integredig o gwmpas trefniadau teuluol fel rhan o'r rhaglen leol ehangach, ac mae'r athroniaeth ar gyfer hyn yn ymwneud â gwaredu rhwystrau er mwyn gwella cydnerthedd teuluoedd. Mae'r ffocws hwn ar ymyrraeth gynnar ac atal yn rhan o agenda drawsnewidiol ehangach a gaiff ei datblygu gan y cyngor.

Nodweddion Diddorol y Dull

Roedd RCT yn ceisio cyfuno adnoddau ar draws yr awdurdod cyn y datblygwyd y dull Ariannu Hyblyg, ac mae ymyrraeth gynnar ac atal yn un o themâu trawsnewidiol corfforaethol yr awdurdod. Defnyddir y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth fel yr un dull ar draws ardal yr awdurdod er mwyn darparu cymorth i deuluoedd agored i niwed, boed hynny trwy waith y cyngor neu'r hyn a gyflawnir gan bartneriaid a rhanddeiliaid eraill ar draws y sectorau preifat a gwirfoddol. Mae wedi arwain at ad-drefnu timau staff i weithio dan yr un strwythur rheoli, yn ogystal â defnyddio system data gyffredinol er mwyn monitro canlyniadau a rennir ar draws rhaglenni.

Mae gan y 10 grant sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen hanes cymharol hir o gydweithio ac mae'r trefniadau hyn ar y cyd wedi cael eu gwneud cyn y cyflwynwyd dull Ariannu Hyblyg yn yr awdurdod. At hynny, mae ganddo ffocws daearyddol, a defnyddir yr agenda drawsnewidiol ehangach i sefydlu rhwydwaith o barthau cymunedol ar draws ardal yr awdurdod, a fydd yn ceisio cyd-leoli gwasanaethau er mwyn cynorthwyo unigolion a theuluoedd agored i niwed. Mae RCT yn mabwysiadu dull Ariannu Hyblyg fel cerbyd allweddol er mwyn cyflawni'r agenda integreiddio hon. Mae un athroniaeth allweddol y seiliwyd y dull arni yn ymwneud â chanolbwyntio ar brofiad defnyddwyr gwasanaeth, ac mae adolygiadau cychwynnol wedi dangos cymhlethdod mawr y rhwydwaith cymorth y bu'n rhaid i ddefnyddwyr ei ddefnyddio yn flaenorol er mwyn manteisio ar gymorth, a bod nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi mynd ar goll wrth bontio rhwng rhaglenni/grantiau. Trwy integreiddio, y nod yn yr awdurdod yw symleiddio'r system, sicrhau bod 'taith' y defnyddiwr yn haws trwy gael un pwynt mynediad i amrediad o wahanol wasanaethau cymorth, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Tynnwyd hyn ynghyd mewn Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, a chychwynnwyd ar y gwaith cyflawni ym mis Ebrill 2019. Mae'n cynrychioli ffordd hollol wahanol o weithio – mae darparwyr yn cymryd mwy o ran mewn sgysiau am ddarpariaeth gwasanaethau.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – fel rhan o raglen cyd-adeiladu helaeth (rhaglen System Integreiddio y Blynyddoedd Cynnar) gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf – yn ystyried dewisiadau am y ffordd y gellir ad-drefnu gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn lleol, gan ddysgu o'r hyn sy'n gweithio mewn rhaglenni sy'n bodoli eisoes megis Rhaglen Plentyn Iach Cymru, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.

Mae awdurdodau lleol sy'n awdurdodau braenaru, megis RCT yn dymuno peilota/profi gwahanol ddulliau wrth ddarparu gwasanaethau, fel ffordd o archwilio'r hyn y bydd gofyn ei wneud er mwyn cael system blynyddoedd cynnar sy'n fwy ymatebol a chydgyssylltiedig, ac sy'n bodloni anghenion plant a'u teuluoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo partneriaid ar hyd y daith hon, a phan fo modd, byddant yn archwilio cyfleoedd i waredu, lleihau neu resymoli polisïau, prosesau a gofynion grant a allai fod yn atal integreiddio neu gysylltiadau gwell. Byddai angen cytuno'n ffurfiol ar unrhyw newidiadau, a'u monitro.

Dysgu o Weithredu'r Rhaglen

Cychwynnwyd ar y gwaith gweithredu ym mis Gorffennaf 2018 ar ôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) gymeradwyo cynigion i symud ymlaen gyda dull Ariannu Hyblyg. Bu'r ffaith bod y Bwrdd yn cydnabod bod angen i ddulliau adlewyrchu gwahaniaethau lleol rhwng Merthyr Tudful ac RCT (mae'r PSB yn fwrdd ar y cyd sy'n cynnwys ardal y ddau awdurdod) a hefyd, bod set o egwyddorion cyffredinol yn cael eu cytuno, yn allweddol i'r gymeradwyaeth hon, a bydd RCT yn symud yn ei flaen gyda'r gweithredu yn unol â'r rhain. Erbyn mis Gorffennaf 2019, roedd cryn dipyn o'r gwaith ad-drefnu wedi cael ei wneud ac roedd yr awdurdod yn barod i symud ymlaen i'r cyfnod cyflawni.

Mae gweithredu'r model darparu integredig ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal yn canolbwyntio ar y weledigaeth o ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i'r bobl gywir, a bydd yn cynnwys:

- grwpiau targed cynhwysol i fodloni anghenion unigol, teuluol a chymunedol, er mwyn hwyluso'r cydweddu agosach rhwng gwasanaethau a chynnig manteision presennol rhaglenni unigol sy'n bodoli eisoes fel yr isafswm lleiaf
- nodi'r angen am gymorth ymyrraeth gynnar ac atal yn glir
- llwybr cymorth clir, fel rhan o gontinwwm sy'n darparu'r cymorth cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir, trwy gyfrwng mynediad cyffredinol i un 'drws ffrynt'
- set gyffredin o egwyddorion cyflawni gweithredol a ffocws ar waith cydgyssylltiedig, sy'n sicrhau mynediad i gymorth i'r unigolion cywir ar yr adeg gywir ac yn y lleoliadau cywir, gyda gwasanaethau megis rianta ar gael yn gyffredinol
- datblygiad fframwaith canlyniadau unigol effeithiol.

Y catalydd ar gyfer y model integredig hwn fu'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth (a fu'n gweithredu er mis Ebrill 2019). Mae hwn yn cael ei ariannu ar draws grantiau ac mae'n cynnwys cyllid craidd gan yr awdurdod lleol hefyd, a bydd dull Ariannu Hyblyg yn galluogi darpariaeth, na chaiff ei chyfyngu gan feini prawf cymhwysra, trwy gyfrwng un pwynt mynediad am broses gyfeirio wedi'i symleiddio.

Mae sefydlu'r Gwasanaethau Teuluoedd Cydnerth a'r bwriad o'u gweithredu'n gynnar yn dangos, os caiff risgiau eu cymryd ac os caiff cyllidebau eu cyfuno mewn ffordd effeithiol er mwyn eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, bod trawsnewid yn gallu digwydd, ac mae'r data cynnar yn dangos bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael budd gan fynediad gwell i gymorth, a oedd wedi gwella eu cydnerthedd.

Effeithiau a Chanlyniadau

O ystyried y cymeradwywyd y gwaith gweithredu ym mis Gorffennaf 2018 a bod yr ad-drefnu wedi cael ei wneud erbyn mis Gorffennaf 2019, mae'r effeithiau a'r canlyniadau wedi bod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, nodwyd bod llawer mwy o gydweithio rhwng gweithgareddau a ariannir gan grantiau yn parhau ar lawr gwlad, ac y caiff cyfeiriadau eu trefnu mewn ffordd fwy strategol trwy gyfrwng un pwynt mynediad. Ymhellach, gwelir llawer mwy o ffocws ar yr effaith gadarnhaol y mae darpariaeth integredig yn ei chael ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, yn hytrach na'r rhwystrau y mae meini prawf cymhwysra gwahanol grantiau yn eu creu.

Mae timau sy'n ymwneud â Chamddefnyddio Sylweddau a Thrais Domestig wedi dewis bod yn rhan o drafodaethau Ariannu Hyblyg er mwyn archwilio'r ffordd orau o'u cynnwys yn y continwmm cymorth a gynigir, ac a oes cwmplas i brif-ffrydio rhywfaint o'r cymorth hwn.

Prif Wersi a Ddysgwyr

- Mae'r cyswllt gyda'r agenda drawsnewidiol ehangach yn yr awdurdod, a arweinir gan Aelodau Cabinet a Swyddogion Uwch, wedi bod o gymorth mawr wrth ddwyn pobl ynghyd i drafod integreiddio. At hynny, cefnogwyd hyn gan weledigaeth gadarn a rennir am yr hyn yr oedd dull Ariannu Hyblyg yn ceisio'i gyflawni.
 - Mae cael penaethiaid a staff darparu 'mewn ystafell' er mwyn ystyried darpariaeth gwasanaethau o'r gwaelod i fyny yn hollbwysig. Mae hyn wedi egluro'r 'daith' yr oedd rhai defnyddwyr gwasanaeth yn cychwyn arni trwy gyfrwng gwahanol grantiau ac roedd y cymorth yn gymhleth iawn ac yn cynnwys meysydd clir o wrthdaro neu ddiffyg cyswllt â'r angen. Mae'r set hon o bersbectifau wedi bod yn bwysig iawn wrth berswadio staff i ymgysylltu â'r gwaith a'r newidiadau a gaiff eu gwneud. Mae'r ffaith y collwyd rhai defnyddwyr gan wasanaethau oherwydd trefniadau pontio neu ddarparu cymhleth, wedi rhoi ffocws i bobl. Mae rhaglenni yn sylweddoli nad oeddent yn cefnogi pobl fel yr oeddent yn credu eu bod yn ei wneud.
 - Mae hon, fodd bynnag, yn broses barhaus; wrth i'r dealltwriaeth o ddarparu ymestyn, mae angen ad-drefnu'r ymatebion darparu o'r gwaelod i fyny fel na chaiff unigolion eu gadael ar ôl gan y prosesau/darparu newydd/diwygiedig.
 - Mae datblygu'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth wedi cymryd 2-3 blynedd o ymchwil a phrofi; mae dealltwriaeth lawn o anghenion darparu gwasanaeth a chyfleoedd integreiddio yn cymryd amser, a bydd ymrwymiad parhaus i'r agenda yn sicrhau y gellir gweithio ar y cyfleoedd a nodwyd mewn ffordd gywir.
 - Un mantais arbennig sydd wedi codi yw bod dulliau cynllunio yn digwydd ar raddfa lawer mwy nag o'r blaen, gan gynnwys ystod llawer ehangach o raglenni sy'n ymwneud â dull Ariannu Hyblyg.
 - Mae datblygu model darparu sy'n seiliedig ar brofiad defnyddiwr y gwasanaeth yn hollbwysig os ydych yn mynd i hwyluso newid trawsnewidiol; mae ganddyn nhw y persbectifau gorau am y newidiadau y mae angen eu gwneud.
-

Argymhellion i'w Hystyried mewn perthynas ag EIPS

- Mae profiad wedi'i seilio ar y defnyddiwr, anghenion gwasanaeth ac o'r gwaelod i fyny yn hollbwysig nid yn unig er mwyn deall gofynion cymorth grwpiau agored i niwed, ond hefyd, er mwyn deall cymhlethdod y daith y bydd yr unigolion hynny yn aml yn mynd arni. Er mwyn sicrhau llwyddiant, mae angen dull strwythuredig a systematig tuag at ddadansoddi anghenion a darparu gwasanaeth yn dilyn hyn ar EIPS.
- Mae gwaith gweithredol rhwng arweinwyr CCG a HSG yn helpu i ddwyn y grantiau hyn ynghyd, ac mae wedi golygu bod gwaith ar y cyd, yn ardal yr awdurdod hwn, wedi torri ar draws unrhyw wahanu posibl a allai fod wedi codi o'r cam o symud i ddull dau grant.